


# Canu Gwerin (Folk Song)



29 - 2006

# **CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU**

**Elusen gofrestredig rhif 259772**

## **SWYDDOGION**

**Llywydd:** D. Roy Saer

**Is-Lywyddion:**

Dr Osian Ellis

Dr Meredydd Evans

Phyllis Kinney

**Cadeirydd:**

Dr Rhiannon Ifans

**Is-Gadeirydd:**

Dr E. Wyn James

**Ysgrifennydd:**

Buddug Lloyd Roberts

Hafan, Cricieth, Gwynedd LL52 0BS

Ffôn: 01766 522096

**Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:**

Dr Rhidian Griffiths

Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

Ffôn: 01970 610160

E-bost: [griffiths.berllan@btinternet.com](mailto:griffiths.berllan@btinternet.com)





# CANU GWERIN

(Folk Song)

ISSN 0967-0599

29/2006

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

*Journal of the Welsh Folk-Song Society*

---

|                                                                 |           |
|-----------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Dechreuadau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru</b>               | <b>3</b>  |
| Meredydd Evans                                                  |           |
| <b>ABC</b>                                                      | <b>20</b> |
| Dan Puw                                                         |           |
| <b>Baled o Lydaw ac alaw o Gymru:</b>                           |           |
| <i>Séziz Guingamp a 'Rhyfelgyrch Cadben Morgan'</i>             | <b>22</b> |
| Donatien Laurent                                                |           |
| <b>Dwy faled: Cystadleuaeth Goffa Elfed Lewys, Eryri 2005</b>   | <b>36</b> |
| <b>Y ffonograff a byd cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru</b> | <b>40</b> |
| Wyn Thomas                                                      |           |
| <b>Sara Wen</b>                                                 | <b>65</b> |
| Meredydd Evans                                                  |           |
| <b>"Dynoliaeth a grewyd mor loyw ...":</b>                      |           |
| <b>un arall o garolau plygain Jane Ellis</b>                    | <b>71</b> |
| Rhiannon Ifans                                                  |           |
| <b>Dau rigwm o Fôn</b>                                          | <b>78</b> |
| Meredydd Evans                                                  |           |
| <b>Seiniau gorfoledd</b>                                        | <b>80</b> |
| Maurice Loader a Caradog Williams                               |           |
| <b>Cofio'r cerddor</b>                                          | <b>82</b> |
| Buddug Lloyd Roberts                                            |           |
| <b>Lisa Lân</b>                                                 | <b>84</b> |
| <b>Blas ar Gynhadledd y Canmlwyddiant 2006</b>                  | <b>86</b> |
| <b>Cyngerdd y Canmlwyddiant ym Mangor</b>                       | <b>94</b> |
| <b>Adolygiad: 'Merêd'</b>                                       | <b>95</b> |
| Arfon Gwilym                                                    |           |

---

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

**Golygydd:** Dr Rhiannon Ifans  
**Argraffu:** Gwasg Morgannwg, Castell-nedd

**Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru**

Aelodaeth unigol: £10.00  
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £12.00  
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £3.00  
(Student membership)

**Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:**

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr,  
Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

 (01970) 610160

***Llun a chynllun y clawr:*** Einion Dafydd

# DECHREUADAU CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Meredydd Evans

---

Ar 16 Mai 1898 yn rhif 12 Hanover Square, Llundain, mi sefydlwyd Cymdeithas hefo'r amcan o gasglu, cadw a chyhoeddi 'Caneuon-gwerin, baledi ac alawon'. Bedyddiwyd y Gymdeithas yn *Folk-Song Society* a chynhaliodd yr aelodau eu Cyfarfod Cyffredinol cyntaf ar 2 Chwefror 1899, pryd y derbyniwyd cyfansoddiad ar gyfer rheoli ei gweithrediadau. Yn 1998 dathlwyd ei chanmlwyddiant.

Un o'r rhai oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Sefydlu a'r Cyfarfod Cyffredinol cyntaf oedd Alfred Perceval

Graves, Gwyddel a anwyd yn Nulyn yn 1846. Am bron i draean olaf ei oes bu ganddo dŷ yn Harlech, lle bu farw, ac fe'i claddwyd yno, yn 1931. Cafodd ei benodi yn aelod o bwyllgor cyntaf y Gymdeithas newydd ac mi fu'n flaenllaw hefyd mewn sefydlu'r *Irish Folk-Song Society* yn 1904, a Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1906.

Yn ei hunangofiant awgryma i'r syniad o gael un gymdeithas ar gyfer casglwyr cerddoriaeth werin godi mewn sgwrs rhwng rhai o aelodau'r *London Irish Literary Society* ac i hynny esgor ymhen amser ar sefydlu'r *Folk-Song Society*. Beth bynnag am hynny, oherwydd bod y Gymdeithas honno wedi ei bwriadu yn wreiddiol ar gyfer cydweithrediad rhwng casglyddion ymhob rhan o Brydain roedd angen sicrhau aelodau gweithgar yn y rhannau hynny i gyd ac ymddengys mai fel cennad drosti yr ystyriai Graves ei hun pan gafodd wahoddiad i annerch cyfarfod dan nawdd y Cymmrodorion yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1906:

I was asked by Mr. Fuller Maitland when he was chairman of the Folk



*Meredydd Evans*

Song Society, to try and capture a strong Welsh contingent. Accordingly I prepared a paper on the general question of folksongs for the Cymmrodorion meetings held at the Carnarvon National Eisteddfod of 1906.<sup>1</sup>

Yno, wrth dynnu tua diwedd ei anerchiad, dywedodd hyn:

It has been suggested that a Welsh folk song branch should be affiliated with the Folk Song Society, which acts on an international basis and invites contributions of folk songs from all nations. But whether or not you accept this suggestion or set up an independent folk song society of your own, I make no earthly doubt that you have enough material to occupy you within your own borders for at least a generation to come.<sup>2</sup>

Fel yn achos y Gymdeithas Wyddelig ddwy flynedd ynghynt dyna'n union a benderfynwyd yng Nghaernarfon, sefydlu cymdeithas annibynnol dan yr enw *The Welsh Folk-Song Society* / Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Diolch am hynny, onid e ni fyddai ein caneuon gwerin ond atodiad tila i gasgliad Seisnig grymus.

Weddill ei oes ni bu Graves yn brin o atgofio ei gyfoedion am y rhan a chwaraeodd yn sefydlu'r Gymdeithas newydd yng Nghymru, ond un yn unig o garfan ydoedd ac nid y mwyaf dylanwadol o bell ffordd. Yn yr un cyfarfod sefydlu yn 1906 anerchwyd hefyd gan Wyddel arall, genedigol o Belfast, a Phrifathro cyntaf Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, sef H. R. Reichel, gŵr a ddysgodd Gymraeg yn ddigon da i sgrifennu ambell lythyr a thraddodi anerchiadau cyhoeddus ynddi. Yn ôl y Prifathro a'i dilynodd, D. Emrys Evans: 'Cofir amdano fel un o brif gynllunwyr Prifysgol Cymru, ac fel gŵr unplyg, cadarn ei argyhoeddiadau, heb odid rithyn o uchelgais personol'.<sup>3</sup>

O gymharu'r ddau anerchiad gwelir bod un y Prifathro yn seiliedig ar wybodaeth bur drylwyr am gyhoeddiadau cerddorol argraffedig Cymru. Eithr tynnu ar ei wybodaeth am gefndir cerddoriaeth draddodiadol Lloegr, Iwerddon a'r Alban a wna Graves. Hanes sefydlu'r Gymdeithas yn Lloegr, a hynt rhai o'i chasglwyr, sy'n mynd â'i fryd o yn bennaf, ond yn achos Reichel mae'r pwyslais ar arwyddocâd cerddoriaeth draddodiadol Cymru i'r Cymry eu hunain ac i genhedloedd eraill. Hynny dan dri phen:

- (i) Tuedda'r math hwn ar gerddoriaeth i gynnal parhad y diwylliant a'r



delfrydau cenedlaethol oedd yn fynegiant, yn ei olwg o, o hunaniaeth y genedl Gymreig. Dros y blynyddoedd ymatebodd y Prifathro yn gadarnhaol i ddelfrydiaeth mudiad fel Cymru Fydd, ac iddo fo gwedd ar hynny oedd y diddordeb Gymreig cyfoes mewn cerddoriaeth a llên gwerin. Meddai felly ar brofiad a gweledigaeth ddyfnach nag eiddo ei gyd-Wyddel.

- (ii) Dymunai weld cylch o gyfansoddwyr cerddorol cenedlaethol yn codi yng Nghymru a chredai nad oedd hynny'n bosibl oni chât'r cyfansoddwyr dan sylw eu hysbrydoli gan gorff o gerddoriaeth draddodiadol. Yn y goleuni hwnnw y deallai ddatblygiadau cerddorol cyfoes yn Norwy, Hwngaria a Rwsia.
- (iii) Credai fod angen dehongli'r diwylliant Gymreig i genhedloedd eraill Prydain a'r ymerodraeth, ac nad oedd gwell ffordd i wneud hynny na thrwy daenu gwybodaeth am gerddoriaeth draddodiadol Cymru, yn enwedig felly trwy gyfrwng canu'r caneuon gwerin mewn ysgolion.

Yn hyn oll rhannai amcanion a breuddwydion aelod o staff ei goleg ei hun, sef J. Lloyd Williams, ac wrth ei enwi o deunw at wedd arall ar hanes sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.

Y gwir yw fod ganddo fo ei ddull arbennig ei hun o edrych ar hanes y mudiad canu gwerin yng Nghymru, oherwydd mynnai fod iddo wreiddiau cwbl frodorol ac nad oedd mewn unrhyw fodd i'w briodoli i sefydliad cynharach y *Folk-Song Society* Seisnig. Mudiad trwyadl Gymreig ydoedd yn ei olwg o a dyma'i safbwynt bob tro pan yw'n trafod hanes sefydlu'r Gymdeithas Gymreig; er enghraifft, yn y ddau adroddiad a geir yn *Y Cerddor* a *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, yn nhridegau'r ganrif ddwaetha.<sup>4</sup> A'r un yw'r stori ymhob cyd-destun lle digwydd i'r mater ddod i'r fei. Gadewch imi roi un enghraifft o hynny ichi, sef rhan o sgwrs rhyngddo fo ac E. Morgan Humphreys ar raglen radio, 11 Mawrth 1938, yntau ar y pryd o gwmpas ei bedair a phedwar ugain:

EMH: Sut y bu hi?

JLIW: Fel hyn. Mi es i Goleg Bangor yn ddarlithydd mewn llysieuath, ac yn fuan gofynnwyd i mi gymryd gofal y canu hefyd. Cydsyniodd y Prifathro, y diweddar Syr Harri Reichel, yn galonnog fod canu yng nghynulladau defodol Y Coleg i fod yn Gymraeg. Chwiliwyd am alawon cenedlaethol oedd heb eu hystrydebu, a threfnwyd nifer ohonynt i'w canu.

Hefyd trefnais gân a ddysgasai fy ngwraig a'i chwaer, oddiwrth ganu eu tad, oedd yn forwr, a phrofodd honno yn hynod o gymeradwy. 'Tra bo dau' oedd ei henw ... Gwelwyd ar unwaith fod gwahaniaeth hanfodol rhwng alawon a ddaeth i fod trwy fysedd telynorion, a'r rhai a darddodd o lais a theimlad a chalon cantorion ...

EMH: Wedi cael y cyfan fel yna, pa ddefnydd a wnaethpwyd o'r darganfyddiad?

JLIW: Sefydlwyd cymdeithas o'r efrydwyr, 'Y Canorion', i gasglu a chanu'r alawon ... Ymhen dwy flynedd, sef yn 1906, yn eisteddfod Caernarfon, sefydlwyd Cymdeithas Cân Gwerin, ac yn fuan wedyn cychwynwyd Cylchgrawn y Gymdeithas.<sup>5</sup>

Yn ôl y dehongliad hwn o'r hanes, felly, sefydlwyd y Canorion yn 1904 a mynnir mai o ganlyniad i'r penderfyniad i gynnwys caneuon Cymraeg 'yng nghynulladau defodol y Coleg' y bu hynny.

Gwaetha'r modd bu camgofio dybryd ar ran Lloyd Williams yma. Sut bynnag yr esbonnir hynny, y ffaith ddiymwad yw i griw diddan y Canorion ddod ynghyd am y tro cyntaf yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn academiaidd 1907–8; rywbryd yn Nhachwedd 1907 o bosibl.

Gan fod hwn yn fater o bwys hanesyddol rhaid aros yma i ddisgrifio'n fyr gysylltiad Lloyd Williams â bywyd cerddorol ei goleg. Heb hynny ni ellir amgyffred yn llawn ystyr yr anghysondeb dyddiadau hwn. Fe'i penodwyd, yn wreiddiol, yn 1897 (yntau tua thair a deugain oed ar y pryd) fel darlithydd cynorthwyol ac arddangoswr yn Adran Lysieuaeth y coleg, ond erbyn Ionawr 1900 gweithredai hefyd fel cyd-hyfforddwr cerdd hefo Dr Roland Rogers yn y *Day Training Department*, adran a gymhwysai fyfyrwyr i fod yn athrawon ac athrawesau ysgol. Erbyn blwyddyn academiaidd 1902–3 fo oedd Arweinydd Cymdeithas Gorawl y Coleg a dyma'r tro cyntaf iddo ysgwyddo'r baich o drefnu rhaglen gerddorol ar gyfer 'cynulladau defodol' y lle; er enghraifft, y Seremoni Raddio ar 13 Hydref 1902, pan ganodd y Gymdeithas Gorawl '*some Welsh airs with delightful freshness*'.<sup>6</sup> Eto, yn y Cyngerdd Blynnyddol ym Mehefin 1903 canwyd y gân 'Rhyfelgyrch Cabden Morgan', gan Emlyn Davies.<sup>7</sup> Ac o 1903–4 ymlaen fo oedd yn gyfrifol am bob gwedd ar hyfforddi cerddorol yn y *DTD*, yn ogystal â gofalu am holl berfformiadau'r Gymdeithas Gorawl.

Eithr pa bryd yn union y dechreuwyd cynnwys caneuon Cymraeg yn

rhaglenni cerddorol swyddogol y coleg – y ‘cynulliadau defodol’ bondigrybwyll?

Rhaid bod yn ofalus yma a nodi na chyfrifid cyngherddau dathlu Gŵyl Ddewi y coleg ymysg y cynulliadau hynny. Mater i'r myfyrwyr a'r staff oedd dathliadau gŵyl ein nawddsant ac fe'u trefnid gan bwyllgor arbennig. Fel arfer byddai dwy ran i'r dathliad gyda'r rhan Gymraeg, yn cynnwys caneuon bid siŵr, yn dod gyntaf, a'r ail ran fel rheol ar ffurf cyflwyniad dramatig Saesneg yng ngofal y Gymdeithas Ddrama. Yn wir, fel rhan o ddathliadau Gŵyl 1901 gofynnodd y Pwyllgor i Lloyd Williams a Llew Tegid drefnu perfformiad o'u chwaraegerdd 'Aelwyd Angharad' – chwaraegerdd a lwyfannwyd am y tro cyntaf gan blant Capel Seion, Cricieth, yn 1899, ddwy flynedd yn gynharach – a'r flwyddyn ganlynol roedd ganddynt chwaraegerdd arall ar gyfer yr ŵyl, 'Cadifor, Tywysog Eryri'. Yng Ngŵyl 1903 cafwyd unawdau a threfniannau corawl Cymraeg, canu penillion, a detholiad o alawon Cymreig ar y piano yn rhan Gymraeg y noson, a '*Selections from "Twelfth Night"*' yn y rhan Seisnig. Yna ar Ŵyl Ddewi 1904 gwelwyd ail berfformiad o 'Aelwyd Angharad'.

Gyda rhaglen Gŵyl Ddewi 1905 deugn at sefyllfa sy'n berthnasol i fater yr anghysondeb dyddiadau y cyfeiriwyd ato gynnu, oherwydd cynhwysai'r rhaglen honno saith cân Gymraeg, yn eu plith dwy gân werin a gasglwyd gan Lloyd Williams ei hun, 'Tra bo dau' (o ganu ei wraig a'i chwaer yng nghyfraith) a 'Ffarwel Mari' (o ganu ei dad), ac arwyddocâd hynny i'n pwrpas ni yma yw mai dyma'r tro cyntaf y deugn ar draws caneuon gwerin yng nghyngherddau'r coleg, prin flwyddyn a hanner, sylwer, cyn cyfarfod sefydlu 1906.

Y gwir yw mai yn ystod blynyddoedd cynnar gyrfa gerddorol Lloyd Williams yn y coleg cyfyngid canu Cymraeg bron yn gyfan gwbl i ddathliadau Gŵyl Ddewi. Fel y gwelsom gynnu rhaglenni cwbl Seisnig, bron, a geid mewn 'cynulliad defodol' fel y Seremoni Raddio a'r Seremoni Diwedd Sesiwn (bandiau pres Nantlle neu Borthaethwy a berfformiai yn y Garddwestau oedd yn gysylltiedig â'r seremoni honno) a rhai felly hefyd oedd rhaglenni cyngherddau blynyddol Cymdeithas Gorawl y coleg. Er enghraifft un awad Gymraeg yn unig a ganwyd yng nghyngherdd 1904, sef 'Cannwyll fy llygaid wyt ti'. Canwyd '*a Welsh pastoral love-song*' hefyd, yn ôl adroddiad yng nghylchgrawn y myfyrwyr, yng Nghyngherdd Blynyddol 1905. Eithr daeth newid ar bethau ym mlwyddyn academiaidd 1905–6.

Yn y Seremoni Raddio a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 1905, cafwyd sawl perfformiad Cymraeg gan gynnwys unawdau, trefniannau corawl ('Tra bo dau' yn eu plith), canu penillion a chyflwyniadau telyn, a barnaf mai at y cynulliad hwn y cyfeiriai Lloyd Williams yn benodol yn y sgwrs radio rhyngddo ag E. Morgan Humphreys y cyfeiriwyd ati'n gynharach. Dyma pryd, yn wir, y gwelwyd gyntaf ffrwyth gwirioneddol argymhelliad Lloyd Williams i'r Prifathro Reichel y dylai cerddoriaeth 'cynulliadau defodol' y coleg fod yn Gymraeg, a hynny, sylwer unwaith eto, ond prin ddeng mis cyn y sefydlu yn 1906.

Y pwnt i afael ynddo yw nad oedd a wnelo'r Canorion ddim â'r perfformio Cymraeg hwn. Cymdeithas Gorawl y Coleg oedd ar waith yma, er i un o'r unawdwyr, W. E. Jones, ddod yn nes ymlaen yn aelod o'r Canorion.

Yn wyneb y ffeithiau blaenorol dylid casglu i Lloyd Williams gyfeiliorni wrth fynnu bod y Canorion mewn bod cyn sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ac ni ellir derbyn ei awgrym chwaith mai canlyniad cyflwyno caneuon Cymraeg i raglenni'r 'cynulliadau defodol' oedd sefydlu Cymdeithas Y Canorion. Anogaeth uniongyrchol o du Lloyd Williams, gyda chefnogaeth frwd y Prifathro Reichel, oedd yn gyfrifol am hynny. Dyna dystiolaeth un o'r Canorion, 'M. O.' (Morris Owen o Flaenau Ffestiniog mae'n debyg) mewn ysgrif ganddo yn *The Magazine of the University College of North Wales* (Mawrth, 1908):

About the middle of last term the Principal and Mr. Lloyd Williams approached some of the students with a view to forming a Society in College which was to have for its chief aim the study of Welsh folk-songs. As may be expected, the idea 'caught on' immediately, and it was not long before a meeting of those interested was convened.

Eithr nid camarweiniol yr honiad nad oedd aelodau cynnar y Canorion o dan ddylanwad y *Folk-Song Society*, nac unrhyw gymdeithas gyffelyb. Nid 'efelychu mudiad Seisnig a thramor', a dyfynnu Lloyd Williams, a wnaethant wrth fwrw iddi i gasglu caneuon gwerin yn eu broydd. Diamau fod angen cydnabod na chaniatâi Cymreictod Lloyd Williams iddo dderbyn mai adlewyrchiad o fudiad estron oedd mudiad canu gwerin ei wlad, ond mae'r un mor wir nad mater o ragfarn ddall oedd wrth wraidd ei safbwynt. Rhywbeth 'yn awyr' Ewrop o'r ddeunawfed ganrif ymlaen oedd y diddordeb cynyddol mewn cerddoriaeth a llên gwerin ac fel gŵr cyfarwydd â darllen cylchgronau Cymraeg cerddorol a llenyddol ei gyfnod, cyfarwydd

hefyd â chasgliadau printiedig alawon traddodiadol ei bobl ei hun, gwyddai hynny'n burion.

Dychwelwn yrŵan yn benodol at y cyfarfod yng Nghaernarfon yn 1906. Mae lle amlwg i Gymdeithas Y Cymmrodorion yn achos sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, fel yn achos sawl cymdeithas a mudiad Cymreig arall. Yn 1873 y sefydlwyd trydedd Anrhydeddus Gymdeithas Y Cymmrodorion ac ymhen ychydig flynyddoedd roedd dwy wedd gyffredinol i'w gweithgaredd, sef cynnal cyfres o ddarlithiau yn Llundain a threfnu cyfarfodydd yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Trwy Adran Gymmrodorol yr Eisteddfod Genedlaethol, yn rhannol, y daeth i fod, er enghraifft, Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol (1880), Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (1885), Cymdeithas Gerddorol Cymru (1885) ac yn Eisteddfod Genedlaethol 1906, Cymdeithas Lyfryddol Cymru a Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru.

Erbyn hynny, Ysgrifennydd y Cymmrodorion oedd E. Vincent Evans ac yng nghofnodion Cyngor y Cymmrodorion o gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 1906, ceir hyn:

A proposal submitted by Mr. L.D. Jones of Bangor, that one of the meetings of the Cymmrodorion Section of the National Eisteddfod should be devoted to the discussion of the question of the Collection of Welsh Folk Songs, at which Mr. W. Perceval Graves should read a paper, was discussed and the suggestion was adopted, the Secretary to make arrangements accordingly.<sup>8</sup>

Yr L. D. Jones hwn oedd Llew Tegid, cyn-ysgolfeistr ond bellach yn Ysgrifennydd Cronfa Adeiladu Coleg Prifysgol Gogledd Cymru er 1902, a gŵr a gariodd ben trymaf y baich o weinyddu'r Gymdeithas newydd-anedig yn ystod dwy flynedd a hanner gyntaf ei hoes. Fo hefyd, ynghyd â Vincent Evans, a drefnodd y cyfarfod sefydlu yng Nghaernarfon. Yn wir, roedd yn ganolog i'r fenter gyfan o'r cychwyn cyntaf.

Os Caernarfon oedd man geni'r Gymdeithas fe'i cenhedlwyd ym Mangor. Yno y cydweithiai Lloyd Williams a Llew Tegid ac roedd i'r ddau ohonynt fynediad parod i Benrallt, cartref y Prifathro Reichel a'i wraig, hithau'n enedigol o swydd Westmeath, Iwerddon. Aelwyd gerddorol oedd Penrallt ac ymhen tipyn wedi iddo ddod i Fangor gwahoddwyd Lloyd Williams gan Mrs Reichel i arwain côr bychan o aelodau staff y Coleg a gwrddai'n achlysurol



yno. Rhannai â'i gŵr ddiddordeb mawr mewn cerddoriaeth a hoffai ganu rhai o alawon gwerin ei gwlad yn neilltuol. Ymwelydd achlysurol arall â Phenrallt oedd A. P. Graves a gŵr brwdfrydig iawn o blaid llên a chanu gwerin. Gyda'r holl fynd a dod rhwng y cymeriadau hyn hawdd credu mai yma y tarddodd y syniad o sefydlu cymdeithas canu gwerin yng Nghymru, a hwylus i'r eithaf oedd y ffaith fod gweinyddwr medrus yn eu mysg. Ar ysgwyddau Llew Tegid, mae'n amlwg, y rhoed y cyfrifoldeb o gymryd camau ymarferol tuag at y dewis nod. Cawn dyst i hynny mewn cerdyn post a anfonodd Graves iddo, dyddiedig sylwer 28 Tachwedd 1905:

I am rejoiced at your energy in the Welsh Folk Song Society cause. I have written to the Secretaries of the English & Irish Folk Song Societies to present you with some of the information you want & I am myself forwarding specimens of their publications. I only want the return of No. 1 of the Irish Magazine with my article on songcraft in it.<sup>9</sup>

Dichon i Llew Tegid gael rhywfaint o gymorth oddi wrth Lloyd Williams ar ochr gerddorol trefnu'r cyfarfod yn y Guild Hall ond nid oes amheuaeth nad ef ei hun oedd y prif drefnydd. Fo a gyfathrebai â John Williams, arweinydd côr Eisteddfod Caernarfon, y gofynnwyd iddo gan Graves i lunio parti bach o gantorion ar gyfer canu rhai caneuon yn ystod ei ddarlith yn y Guild Hall. Fo hefyd a gysylltodd â Grace Roberts (yn ddiweddarach Grace Gwyneddon Davies) a anfonodd gerdyn ato'n dweud ei bod yn barod iawn i ganu 'at the first meeting of the New Society'. Y canwr arall oedd Maldwyn Evans, a weithiai yn un o siopau Bangor ac a ganai unawdau yn achlysurol yn rhai o gyngherddau'r Coleg, a diamau mai Llew Tegid a drefnodd iddo yntau ganu yn y cyfarfod sefydlu. Yn ystod darlith Graves canwyd trefniannau corawl gan Robert Bryan o 'Huna blentyn ar fy mynwes' a 'Gwcw fach on'd wyt ti'n fflog?', 'Cnot y Coed' (trefniant Arthur Somervell a geiriau Llew Tegid) gan Grace Roberts, a 'Hela'r Sgyfarnog' (geiriau Llew Tegid) gan Maldwyn Evans.

Vincent Evans a wahoddodd Syr William Preece i Lywyddu'r cyfarfod ac ef a ddewiswyd yno yn Gadeirydd Pwyllgor Darpar y Gymdeithas newydd, ond Llew Tegid oedd yn gyfrifol am anfon gwahoddiadau i fwyafrif y gwesteion a ddaeth ynghyd i'r cyfarfod, gyda'r tocynnau'n dod yn wreiddiol o swyddfa'r Cymmrodorion. Un o'r gwahoddedigion hynny, ac un a gyfrifid ar y pryd fel y pennaf awdurdod ar alawon traddodiadol Cymru, oedd un o

olygyddion *Y Cerddor*, sef D. Emlyn Evans. Mewn llythyr at y Llew, dyddiedig 21 Gorffennaf 1906, addawodd wneud a allai i gynorthwyo gyda sefydlu cymdeithas ganu gwerin gan ychwanegu ‘y dylasai fod wedi ei wneud flynyddau lawer yn ôl ond gwell hwyr na hwyrach serch hynny’.<sup>10</sup>

Bu'r cyfarfod ei hun yn llwyddiant diamheuol. Cytunwyd yn unfrydol yno i sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru a phenodwyd Pwyllgor Darpar o ddeuddeg i lunio cyfansoddiad ar ei chyfer, gyda'r bwriad o'i gyflwyno gerbron cyfarfod cyntaf y Tanysgrifwyr yn Eisteddfod Abertawe y flwyddyn ddilynol. Dyrnaid yn unig o aelodau'r Pwyllgor Darpar hwn, ac yn bennaf, Syr William Preece, y Prifathro Reichel, A. P. Graves, J. Lloyd Williams a Llew Tegid, a gyflawnodd y gwaith a osodwyd ar ei gyfer, gyda'r awenau gweinyddol yn bendant yn nwylo'r olaf a enwyd.

Aed at y gwaith ar unwaith a phrawf o hynny yw llythyr o Harlech, dyddiedig 30 Awst 1906, a dderbyniodd Preece oddi wrth Graves yn dweud:

... we had a most successful meeting here for the drawing up of the rules of our Welsh Folk Song Society. We were unanimous upon all of them & I hope you will now get the Provisional Committee to endorse them.<sup>11</sup>

O ystyried mai dyddiadau Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon oedd Awst 21–4 gwelir pa mor gyflym y cychwynnwyd ar y gwaith o lunio'r cyfansoddiad gan is-bwyllgor, a byddai'n dda gwybod pwy yn union oedd ei aelodau a beth oedd cynnwys y trafodaethau ond, hyd y gwn i, ni chadwyd cofnodion ffurfiol a'r cyfan a wyddys i sicrwydd yw i'r is-bwyllgor hwn gyfarfod deirgwaith, yn Harlech (cyn diwedd Awst), Caernarfon a Llundain. Mae digon o dystiolaeth ddogfennol ar gael, fodd bynnag, i gyflwyno braslun o'r hyn a ddigwyddodd rhwng diwedd Awst 1906 a dechrau Gorffennaf 1907.

Wrth sgrifennu at Reichel ar 5 Medi 1906, dymuniad Graves yw gweld y gwaith a gychwynnwyd yng Nghaernarfon yn cael ei gwblhau'n fuan. Gobeithia weld casglu ynghyd:

... a large body of subscribers at 5/- & Hon. Members at 10/6 & more ... I hope Preece will summon a Committee meeting at Carnarvon before the 18th when I return to London ... so that our subcommittee's recommendations might be adopted & our work actually launched. Don't you think you cd scheme a Circular to be adopted at that

meeting for wide distribution throughout the Principality setting forth our aims & methods as a Folk Song Society & inviting subscriptions?<sup>12</sup>

Ymhen rhyw ddeuddydd o dderbyn y llythyr fe'i anfonwyd ymlaen gan y Prifathro at Llew Tegid ac aeth yntau ati i weithredu yn ôl awgrym Graves, ond oherwydd prysurdeb y Llew gyda gweinyddu Cronfa Adeiladu y Coleg, a'r anhawster o drefnu dyddiad cyfarfod ar gyfer dynion yr oedd cymaint o alwadau arnynt, penderfynwyd o'r diwedd anfon copïau o'r rheolau a'r cylchlythyr drwy'r post at aelodau'r Pwyllgor Darpar gan ofyn am eu hymateb iddynt. Anfonodd Llew Tegid gopi o'r dogfennau hefyd at Lucy Broadwood, Ysgrifennydd y *Folk-Song Society* ar y pryd (mewn ateb i gais cynharach oddi wrthi) gan ychwanegu mewn llythyr at Preece, dyddiedig 22 Tachwedd: We may find some of their circulars useful to send out with our own especially their leaflet of 'hints to collectors'.<sup>13</sup> Gyda'r troad cafwyd sêl bendith Preece ar gynnwys y dogfennau a dderbyniodd a disgwyliai weld y cyfan, meddai, wedi eu hargraffu o fewn dim amser. At hynny gellir casglu i gadarnhad ddod yn bur fuan oddi wrth weddill aelodau'r Pwyllgor.

Ddechrau Rhagfyr derbyniodd Llew Tegid air o ddiolch oddi wrth Lucy Broadwood am y dogfennau a anfonwyd ati gan ychwanegu y byddai'n gofyn i'w Phwyllgor yn Llundain am ganiatâd i'r Cymry ddefnyddio'r *Hints to Collectors* a'i sicrhau fod y Gymdeithas yno yn barod i gynorthwyo'r *WFSS* ymhob ffordd bosibl. Bu hi a'i Chymdeithas cystal â'u gair. Ymhen yrhawg derbyniodd Llew Tegid ganiatâd i ddefnyddio'r *Hints* ar yr amod fod y Gymdeithas newydd yn talu gini am hawl cyfieithu ac yn cyfyngu'r hawl defnyddio iddi ei hun yn unig.

Y cam nesaf i Llew Tegid oedd cael yr holl ddogfennau hyn wedi eu hargraffu, ond nid y rhain yn unig. Roedd y ddau anerchiad i'w cyhoeddi yn ogystal. Eisoes roedd Preece wedi cychwyn symud i'r cyfeiriad hwnnw canys mewn llythyr at Llew Tegid, dyddiedig 4 Medi, dywedodd:

I have seen Daniel Rees about the Cymdeithas Alawon Gwerin and arranged with him to print the two papers in English & Welsh 1000 of each 2000 in all. He will put it in type as soon as you send him the MSS.<sup>14</sup>

Y Daniel Rees dan sylw oedd golygydd a rheolwr *Yr Herald Gymraeg* a'r *Caernarvon and Denbigh Herald* ar y pryd, ac ymddengys mai'r Cadeirydd

ei hun a dalodd am holl waith argraffu cynnar y Gymdeithas – yr anerchiadau ar y cychwyn ac yna'n ddiweddarach yr anerchiadau a'r dogfennau cyfansoddiadol ynghyd. Tystia hynny'n loyw i frwdfrydedd Preece o blaid y Gymdeithas newydd.

Erbyn 24 Hydref gallai Llew Tegid ddweud mewn llythyr at ei Gadeirydd, tra'i fod yn edrych ymlaen at gyfarfod posibl o'r Pwyllgor Darpar: I shall have the rules & a draft of a circular ready, and also the two papers for publication.<sup>15</sup> Ond haws dweud na gwneud medd hen air, a phur araf y symudwyd i ddwyn y pamffled cyflawn i fod.

I gwtogi ar yr hanes, fodd bynnag, derbyniodd Llew Tegid lythyr o swyddfa'r *Herald Gymraeg*, dyddiedig 8 Ebrill 1907, yn dweud y byddai'n dda ganddynt pe bai'n dychwelyd y proflenni perthnasol cyn gynted â phosibl. Ymddengys na fu llawer o oedi wedi hynny oherwydd mewn llythyr dyddiedig 4 Mehefin mae Lucy Broadwood yn diolch am dderbyniad y '*pamphlet abt the Welsh Folk Song Society*'; hynny'n golygu, mi dybiwn, fod y llyfryn cyfan ar gael erbyn hynny yn cynnwys Rhagair, yr Anerchiadau a draddodwyd yn y Guild Hall, adran ar 'Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru', un arall ar 'Awgrymiadau i Gasglwyr Alawon Gwerin' a 'Rheolau' y Gymdeithas.<sup>16</sup>

Bellach roedd y Pwyllgor Darpar wedi cwblhau ei waith a hynny mewn da bryd cyn i aelodau'r Gymdeithas gyfarfod yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn Awst 1907. Y cam nesaf a fyddai i'r cyfarfod hwnnw roi sêl bendith ar waith y Pwyllgor, ystyried gwelliannau posibl, a derbyn y Rheolau a luniwyd ganddo. Gwaetha'r modd ni chynhaliwyd y cyfarfod arfaethedig.

Mae dirgelwch ynglŷn â'r rhesymau pam na chynhaliwyd y cyfarfod hwn ond credaf y gellir dweud yn bur bendant mai newid cynllun o du Cymdeithas y Cymmrodorion, ac nid unrhyw ddiffyg o ochr y Gymdeithas Alawon Gwerin, oedd i gyfrif am hynny. Oherwydd cyfyngiadau amser ni allaf fanylu ar hyn, felly mi fodlonaf ar dynnu eich sylw at ran o'r dystiolaeth.

(i) Dyddiadau Eisteddfod Abertawe oedd Awst 20–4. Mor agos at hynny â 7 Gorffennaf sgrifennodd Preece at Llew Tegid i ddweud:

All is going well re Folk-lore. We cannot do much until Swansea meeting is over & has approved our work. Graves and V. Evans and I met on Wednesday.<sup>17</sup>

Roedd presenoldeb Vincent Evans, sylwer, mewn cyfarfod â'r Cadeirydd yn nechrau Gorffennaf yn gwarantu fod y cyfarfod dan nawdd y Cymmrodorion yn bendant ar y gweill.

(ii) Roedd Lloyd Williams i fod i ddarlithio yn ystod y cyfarfod arfaethedig yn Abertawe ac y mae tystiolaeth ar gael (ni fanylaf yn ei chylch yrŵan) ei fod o â'i feddwl ar y ddarlith honno o 15 Gorffennaf ymlaen.

(iii) Mae'r ystyriaeth fwyaf arwyddocaol i'w chael, fodd bynnag, mewn llythyr oddi wrth Vincent Evans at J. H. Davies, dyddiedig Awst 2, prin dair wythnos cyn agoriad yr Eisteddfod. Roedd J. H. Davies wedi darllen yn y *Manchester Guardian*, rhifyn 31 Awst, y byddai un o sesiynau'r Cymmrodorion yn yr Eisteddfod yn cynnwys darlithiau ganddo fo ei hun ar 'The Aims of Welsh Bibliography' ac un arall gan J. Lloyd Williams ar 'The Characteristics of Welsh folk-music', gyda Syr John Williams yn Cadeirio. Cafodd ei darfu. Sgrifennodd ar unwaith at Vincent Evans ac o atebiad hir y gŵr hwnnw iddo wele ddyfyniad byr:

You should never place your trust in newspapers ... You shall have the whole show on Wednesday and 'no twaddle about music' [yn dyfynnu Davies ei hun rwy'n tybio] ... There was an idea of having a paper on the Collection of Folk Songs (words & music), for that too has a Bibliographical side, but the time at the Swansea mtg will not be more than enough for your paper & Sir John's address & the general discussion which we hope will follow.<sup>18</sup>

Gydag anerchiadau gan ddau draethydd mor sylweddol â Syr John Williams a J. H. Davies ni fyddai lle i gynrychiolydd canu gwerin. Dyna'r datganiad. A dyna yw - datganiad, nid awgrym. At hynny, mae'r defnydd o'r geiriau 'an idea of having a paper', yn chwerthinllyd. Yn hytrach, roedd *trefniant* digamsyniol ar droed i rannu'r sesiwn Gymmrodoraidd rhwng Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru a Chymdeithas Lyfryddol Cymru ac aeth y trefniant hwnnw i'r gwellt – yn amlwg o du'r Cymmrodorion. Yn naturiol mae dyn yn tybio bod y Finsent wedi rhoi gwybod i swyddogion Pwyllgor Darpar y Gymdeithas Alawon Gwerin am y newid cynllun a, gobeithio, wedi ymddiheuro ar gyfrif hynny ond hyd yma ni welais dystiolaeth i hynny.

Cymaint â hynyna am y caff gwag yn Abertawe. Yrŵan, at fater y gellir bod yn sicr yn ei gylch sef i Gyngor y Cymmrodorion, ar 17 Hydref, 1907, benderfynu gwahodd Lloyd Williams i ddarlithio yn eu Cyfres Ddarlithiau



1907–8 ar ‘*Welsh Folk Songs*’ a diamau i hynny ddigwydd yn benodol oherwydd methiant y trefniadau yn Abertawe. Beth bynnag am hynny bu gan Preece, Graves, Llew Tegid a Vincent Evans eu rhan mewn trefnu cyfarfod yn Llundain ar gyfer y darlithio. Y man cyfarfod oedd ystafelloedd yr Irish Literary Society; y dyddiad, 21 Ionawr 1908, a’r pennawd ‘*Welsh National Melodies and Folk-Song*’.

Dyma un o’r darlithiau mwyaf nodedig ym maes astudiaethau canu gwerin Cymru; darlith arloesol a ddeil ei thir hyd y dydd heddiw ond nid dyma’r lle i drafod ei chynnwys. Bodlonaf felly ar nodi i Llew Tegid fanteisio ar achlysur y darlithio i alw Pwyllgor ynghyd er mwyn ymgynghori gogyfer â Chyfarfod Cyffredinol cyntaf y Gymdeithas newydd yn Eisteddfod Genedlaethol Llangollen, Medi 2–6, 1908.

Ymddengys mai’r bwriad gwreiddiol oedd cynnal hwnnw o dan nawdd y Cymmrodorion. Yn ôl cofnodion y Gymdeithas honno am 30 Ebrill 1908, dywedir:

The Wednesday morning meeting it was decided to devote to the further discussion of the question of Welsh Folk Song which was opened at the Cymmrodorion Section of the Carnarvon Eisteddfod in 1906.<sup>19</sup>

Eithr nid felly y bu. Cynhaliwyd y cyfarfod yn gwbl ar wahân i’r Cymmrodorion yn Neuadd Goffa Llangollen ar 2 Medi gyda Reichel yn cadeirio yn absenoldeb Preece oedd ar y pryd yn araf wella o afiechyd. Rhoes y Cadeirydd fraslun o amcanion y Gymdeithas ac yna cyflwynwyd adroddiad y Pwyllgor Darpar i’r aelodau. Bu peth trafod arno a chyda rhai mân newidiadau fe’i derbyniwyd. Cafwyd adroddiad hefyd gan Lloyd Williams am beth o waith y Gymdeithas o adeg ei sefydlu ymlaen gan ganoli ar lwyddiant y casglu, yn arbennig gan y Canorion, ac ar y cyhoeddusrwydd a roed i’r Gymdeithas drwy gyfrwng darlithiau ar ganu gwerin, yn neilltuol yn rhai o siroedd y Gogledd. Penodwyd Preece yn Llywydd a Llew Tegid yn Ysgrifennydd-dros-dro y Gymdeithas. Yn ystod y cyfarfod cyfeiriwyd yn ogystal at y ffaith mai mewn eisteddfod yn Llangollen, hanner canrif ynghynt (eithr nid un Genedlaethol, fel yr honnwyd yn gamarweiniol ar y pryd) y gwobrwywyd Llewelyn Alaw am gasgliad o alawon a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach yn gnewyllyn i *Alawon Fy Ngwlad*, Nicholas Bennett. At hyn, nodwyd bod y casgliad y ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth, casgliad ‘Orpheus’, ym meddiant un oedd yn bresennol ar y pryd yn y Neuadd, sef Mrs Mary Davies. A dyna ni.

Yr hyn a welwyd yn Llangollen felly oedd cadarnhau yn ffurfiol fodolaeth Cymdeithas oedd wedi bod wrthi'n bur ddiwyd yn cyflawni rhai o'i phrif amcanion dros gyfnod o ddwy flynedd. O fewn llai na blwyddyn wedi ei sefydlu roedd wedi cyhoeddi anerchiadau, cyfansoddiad, ffurflen ymaelodi, ac awgrymiadau ynglŷn â sut i fynd ati i gofnodi caneuon yn perthyn i'r traddodiad llafar; wedi sefydlu perthynas rhyngddi a dwy gymdeithas gân-werin Brydeinig ac wedi sicrhau yn aelodau iddi brif gasglydd y *Folk Song Society*, sef Cecil Sharp, ac Ysgrifenyddes y Gymdeithas honno, Lucy Broadwood. O fewn ychydig dros flwyddyn o ddyddiad ei geni aethai criw brwdfrydig o fyfyrwyr, y Canorion, o gwmpas broydd eu magwraeth yn ystod gwyliau coleg i gasglu caneuon na sylweddolent, hyd hynny, eu bod ar gael, i'w canu a'u trafod yn ddiweddarach trwy ysbrydoliaeth ac o dan arweiniad un o'u darlithwyr, a'u Prifathro, dau oedd ymysg syflaenwyr y Gymdeithas newydd. At hynny roeddent wedi perfformio'r opereta werin gyntaf yn Gymraeg, 'Y Canorion' (creadigaeth Lloyd Williams), yn y coleg yn ystod dathliadau Gŵyl Ddewi, Mawrth 1908, a thu allan iddo. Bu'r darlithydd hwnnw hefyd, ynghyd â rhai o'i gyfeillion, yn traddodi darlithiau cyhoeddus ar ganu gwerin yn nhrefi a phentrefi'r Gogledd, gan ofalu bod adroddiadau am ddigwyddiadau o'r fath yn ymddangos yn y wasg. Yn wir, cyhoeddwyd ysgrif ar y Gymdeithas gan D. Emlyn Evans yn rhifyn Mawrth 1908 o'r *Cerddor* yn rhoi rhai manylion am waith 'y Gymdeithas ieuange' ac yn annog darllenwyr y cylchgrawn i'w chynorthwyo 'yn y gwaith da sydd ganddi mewn llaw'. Ymhellach, cysylltwyd y Gymdeithas yn fuan â'r Eisteddfod Genedlaethol gyda'r bwriad o sefydlu cystadleuaeth am y casgliad gorau o ganeuon gwerin, gan ddarparu gwobrau ar gyfer hynny. Ymhen ychydig dros dri mis o'i sefydlu, ar 12 Rhagfyr 1906, sgrifennodd E. D. Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol Llangollen, 1908, at Llew Tegid yn diolch i'r Gymdeithas am wobrau anrhydeddus gwerth pymtheg gini ar gyfer y gorau a'r ail-orau o'r casgliadau a anfonid, gobeithio, i'r Eisteddfod. Cyfrannwyd deg gini gan Preece a phum gini gan Reichel (ef a feddylodd am gynnig gwobrau o'r fath). Eithr dylid nodi i Preece, mewn llythyr at Llew Tegid, dyddiedig 3 Chwefror 1908, ofyn iddo wneud yn glir nad oedd y gwobrau'n cael eu cynnig gan y Gymdeithas fel y cyfryw:

I see that the Llangollen people in publishing the Subscriptions put the Folksong Society down for £15-15-0. I think they ought to put it Sir

William Preece, £10.10 Sir Harry Reichel 5.5. The Society as a fact does not exist and we shall be worried for subs: if our names do not appear.<sup>20</sup>

Cais ar ei ran i warantu na châi ei boeni ymhellach gan swyddogion yr eisteddfod oedd wrth wraidd honiad Syr William na fodolai'r Gymdeithas mewn gwirionedd. Awgrymaf na wrthwynebai gysylltu enw'r Gymdeithas â'r gystadleuaeth eithr, yn unig, â rhoddiant y gwobrau. Go brin y cytunai â'r syniad ei fod wedi treulio oriau lawer dros gyfnod o flwyddyn a hanner yn llafurio o blaid rhith o Gymdeithas!!

Tybed ai yma hefyd y mae gwreiddyn y syniad diweddarach mai yn 1908 y daeth y Gymdeithas i fod? Mae'n awgrymog, gyda llaw, mai'r tro cyntaf y deuthum i ar draws y syniad hwnnw yn nogfennau'r Gymdeithas oedd wrth ddarllen teyrnged Amy Preece i'r Fonesig Ruth Lewis yng Nghyfarfod Blynnyddol y Gymdeithas yn Eisteddfod Bae Colwyn, 1947. Cyfeiriodd yno at y colledion dwys a ddiodeffodd y Gymdeithas 'during the last thirty nine years of our movement'.

Fodd bynnag, o ystyried yr holl weithgarwch a ddisgrifiwyd, y casgliad rhesymol i'w dynnu yw mai yn 1906 y sefydlwyd y Gymdeithas a cham â'r arweinwyr cynnar a fyddai dathlu ei chanmlwyddiant yn 2008. Byddai canoli sylw ar y flwyddyn honno yn gwyrddroi cwrs hanes y Gymdeithas ac yn tueddu i fychanu llafur glew Llew Tegid, yn arbennig, ynghyd â chyfraniadau gwiw y Prifathro Reichel, A. P. Graves a Syr William Preece. Rhaid rhoi i Gymdeithas y Cymmrodorion hithau, yn neilltuoel ym mherson E. Vincent Evans, ei lle fel noddwr cynnar i'r Gymdeithas newydd.

Nid gormodiaethu mo hyn. Y cyfan sydd yn rhaid ei wneud yw darllen y llyfryn 1958. *Rhaglen Ddathlu Hanner Canmlwyddiant Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*. Cynnwys hwnnw adroddiadau swyddogol, dyfyniad o Reolau'r Gymdeithas, atgofion aelodau o ddyddiau cynnar y Gymdeithas, sylwadau ar rai o nodweddion ein caneuon gwerin, cyfarchion oddi wrth absenolion, rhaglen y dathlu, a rhestr aelodaeth y Gymdeithas ar y pryd. Diddorol a gwerthfawr yn sicr, ond ni chynnwys ragor na dau neu dri o gyfeiriadau pendant at ddigwyddiadau Caernarfon, 1906, gydag un o'r rheini'n mynnu mai 'preliminary steps' a gymerwyd y pryd hwnnw i ffurfio Cymdeithas Gân-Werin Gymreig. J. Lloyd Williams yw'r unig un o *arweinwyr* 1906 y telir clod dyledus iddo yn y llyfryn dathlu hwn. Haedda hynny'n ddiamau, ond fo a fyddai'r cyntaf i gydnabod nad oedd ond un

ymysg arloeswyr eraill. I ategu hyn digon yw dyfynnu o'r ysgrif deyrnged i'w hen Brifathro a gyhoeddodd yn *Y Cerddor*:

Ac yma y mae'n werth sylw mai y rhai a wnaeth fwyaf i sefydlu Cymdeithas Cân Gwerin, ac i hwylio'i cherddeddiad ar ôl y cychwyn oedd estroniaid fel Syr Harry, a Mr. Percival Graves (dau Wyddel!) a nifer o Gymry na chawsant gyfleusterau i ddysgu siarad Cymraeg; fel Syr William Preece a Miss Amy Preece, y Dr. Mary Davies, Lady Lewis ac eraill.<sup>21</sup>

Y rhyfeddod yw iddo anghofio ychwanegu enw Llew Tegid a gwneud lle arbennig iddo fo, o bawb. A gellir ychwanegu yma, gyda llaw, i'r tair merch a enwyd ymroi, gyda graddau amrywiol o lwyddiant, i ddysgu'r Gymraeg.

Erys cwestiynau i'w hateb, sef pa unigolyn neu garfan o aelodau'r Gymdeithas a fu'n gyfrifol am bennu 1958 fel blwyddyn dathlu hanner canmlwyddiant ei sefydlu? A pham cynnal y dathlu yn Llangollen yn hytrach nag ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelid y flwyddyn honno yng Nglyn Ebwy? Efallai y daw tystiolaeth ddigonol i'r brig rywdro a ddryr inni atebion cadarn.

Ga' i ddweud hen stori? Stori ydi hi am hen fachgan yr oedd rhywun yn dwyn tatws o'i ardd o. Yn y Cwarcod Gweddi un nos Lun roedd o ar ei weddi yn canmol hollwybodolrwydd Duw. Yna, medda fo – 'rwyf Ti'n gwbod popeth; mi wyddost ti pwy sy'n dwyn fy nhatws i. Wn i ddim Arglwydd Mawr – ond ma gen i ges!'

Mae gen innau ges hefyd pwy allai fod wedi bod ar y blaen yn annog y dathlu yn Llangollen, 1958. Yn y cyfamser mi ddaliwn i fod dehongliad teg o'r dystiolaeth hanesyddol yn cyfeirio at Gaernarfon, 1906, fel man a blwyddyn sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.

## NODIADAU

- 1 A. P. Graves, 'To return to all that ...' (1930), 266.
- 2 'Welsh Folk-Song Society. Papers read at Carnarvon, August 22nd, 1906, on Folk-Song, by A. P. Graves, Esq., and Principal H. R. Reichel, M.A., LL.D ... Printed at the 'Herald' Office, Castle Square' (d.d.), 15.
- 3 *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), 784.
- 4 *Y Cerddor*, iii (Ebrill/Mai/Mehefin/Awst, 1933); CCAGC, cyf. III, rhif 2 (1934).
- 5 LIGC, JLIW, AD5/2.

- 6 *Students Handbook* (1903–4). Yn edrych yn ôl ar 1902–3: adran ar ‘Choral Society’.
- 7 ‘Magazine of the University College of North Wales’ (June 1903): adran ar ‘Choral Society’.
- 8 LIGC, Cymmrodorion Society Minutes, ii (1885–1919).
- 9 LIGC, Archifau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. B1. Gohebiaeth 1905–14.
- 10 Ibid.
- 11 Ibid.
- 12 Ibid.
- 13 Ibid.
- 14 Ibid.
- 15 Ibid.
- 16 Ibid.
- 17 Ibid.
- 18 LIGC, Llyfr Llythyrau (copïau carbon) E. Vincent Evans (Gorffennaf 1906–Awst 1910).
- 19 LIGC, Cymmrodorion Society Minutes, ii (1885–1919). (Cofnodion Cyngor y Gymdeithas).
- 20 Llythyrau LDJ a WP, gw. Archifau CAGC, B1. Gohebiaeth 1905–14.
- 21 *Y Cerddor*, cyf. I, rhif 18 (1931), 276–7.



# ABC

Dan Puw

---

Mae'n siwr fod canrif go dda ers pan oedd Mam yn ddisgybl yn Ysgol Bryncoedifor ger Rhydymain, Dolgellau. Ysgol yr Eglwys oedd hi, a Sais uniaith a'i wraig oedd yr athrawon, ac felly yn Saesneg, o reidrwydd, yr hyfforddidi y plant. 'Does gen i ddim cof clywed Mam yn dweud eu bod yn cael eu cosbi am siarad Cymraeg fel yn nyddiau'r Welsh Not, ond roedd y sefyllfa ymhell o fod yn ddelfrydol fel y gellid dychmygu.

Fodd bynnag, i geisio helpu ychydig ar y Cymry bach uniaith i gofio'r wyddor Saesneg byddai'r 'Hen Rojars' yn dysgu cân iddynt, cân oedd yn gwneud defnydd o holl gytseiniaid a llafariad yr wyddor yn eu tro. Rhywbeth tebyg i hyn:

|           |           |                |
|-----------|-----------|----------------|
| d . m : d | r . f : r | m . s : s ., t |
| B A Bay   | B E Bee   | B I Bi the     |

|       |                                   |
|-------|-----------------------------------|
| d : - | m . s : s . f, m   f . l : s ., m |
| Bi    | B I Bi of the Bi Bo Bu, the       |

|                                                  |
|--------------------------------------------------|
| s . s, s : f . l   s : s   d . f : m . r   d : - |
| Bu of the Bi Bo Bu A E I O U                     |

Yna fe ailadroddid y cyfan gyda'r gytsain C. Yna ymlaen i D, F, G – ac ymlaen drwy'r cytseiniaid i gyd nes cyrraedd Z.

Gan fod aelodau Parti Meibion Llywarch mor anwybodus o'r Saesoneg y maent wedi gorfod dysgu'r gân, sydd wedi bod o fudd mawr iddynt. Wel, o leia mae'r datganiad yn codi ychydig o hwyl mewn cyngerdd a Noson Lawen.



*Meibion Llywarch*

# BALED O LYDAW AC ALAW O GYMRU: *Séziz Guingamp a ‘Rhyfelgyrch Cadben Morgan’*

Donatien Laurent

(Cyfieithiwyd i'r Gymraeg gan Ceridwen Lloyd-Morgan)<sup>1</sup>

---

Yn yr ardaloedd hynny o Lydaw lle siaredir yr iaith fe drosglwyddwyd ar lafar, o genhedlaeth i genhedlaeth, gyfoeth o *gwerziou* (baleidi) yn ymdrin â digwyddiadau hanesyddol. Cadwyd yn y *gwerziou* wybodaeth werthfawr drwy adlewyrchu cof cymdeithas a choffáu digwyddiadau ‘gwleidyddol’ yn ystyr ehangaf y gair. Fe ddatblygodd y baleidi hanesyddol hyn yn gyfochrog â chronicleau a chofnodion ysgrifenedig, gan grisialu'r digwyddiadau fel y'u dehonglwyd gan y tystion agosaf, a



Llun: Marian Delyth

*Ceridwen Lloyd-Morgan*

hynny mewn dull ystwythach a mwy uniongyrchol – ac weithiau'n fwy dibynadwy – na'r ffynonellau ysgrifenedig. Fe'u cadwyd o fewn y gymdeithas leol, a âi ati i'w cywiro o dro i dro pan fyddai angen, weithiau dros gyfnod hir iawn, iawn. Dyma yw rhinwedd fawr y *gwerziou*. Ni fydd pob fersiwn cystal â'i gilydd, ond mae i bob un ei nodweddion arbennig, a dim ond drwy eu cymharu'n ofalus, gan ddefnyddio nifer o arfau beirniadol i'w dadansoddi, y mae modd tafoli cyfraniad unigryw pob un ohonynt.

Enghraifft hynod o ddiddorol ymhlith y *gwerziou* hanesyddol yw *Séziz Gwengamp* ('Y Gwarchae ar Gwengamp [Guingamp]'). Cyfnod cythryblus iawn yn hanes Llydaw oedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Collodd y wlad ei hannibyniaeth yn hanner cyntaf y ganrif ac ymladdwyd rhyfeloedd y Ligue [y Gynghrair] yn ystod yr ail.<sup>2</sup> Ddwywaith o fewn y cyfnod hwn fe fu gwarchae ar dref Gwengamp, a thrwy gyfrwng y *gwerz* y cadwyd y ddau ddigwyddiad yn fyw ar gof gwlad, y ddau warchae wedi mynd yn un.

O fewn yr un gerdd a gyfansoddwyd ar lafar, crynhoir atgofion am warchae mis Ionawr 1489 yn ystod y rhyfel rhwng Ffrainc a Llydaw, a gwarchae mis Mai 1591 yn ystod rhyfeloedd y Ligue. Fe gasglwyd fersiynau o'r *gwerz* hwn sawl gwaith yn ardal Trégor yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Madame de Saint-Prix (1789–1869) a gofnododd, tua'r flwyddyn 1835, y fersiwn mwyaf cyflawn, sydd yn cynnwys 136 o linellau ac a gyhoeddwyd ym 1837 gan y Chevalier de Fréminville yn ei *Antiquités des Côtes-du-Nord*.<sup>3</sup> Dyma'r fersiwn a fu'n sail i'r un a gyflwynwyd gan yr enwog Théodore Hersart de la Villemarqué yn argraffiad cyntaf ei *Barzaz-Breiz*.<sup>4</sup> Casglwyd fersiynau eraill gan Jean-Marie de Penguern (1807–56), Pol de Courcy (1814–90), Jean-Marie Le Jean (1831–76), François-Marie Luzel (1821–95) a François Even (1877–1959). Y fersiwn diweddaraf yw'r un a recordiwyd gan Ifig Troadeg yn Minihi-Tréguier ym 1980, deryn wyth llinell ynghyd â'r alaw. Mae pob fersiwn yn cyflwyno dau brif gymeriad: ar y naill law, y Dduges Anne, gyda chynorthwyr o'r enw Melkunan (yn ôl dau fersiwn); ac ar y llall, y gwarchaewyr, wedi eu harwain gan y Tywysog Dénoblin (y ceir amrywiadau megis Denombra, Denobla, Denobre, Denome, ar ei enw).

Cymerwn yn sail i'n trafodaeth fersiwn Madame de Saint-Prix a gyhoeddwyd ym 1837. Anwybyddais y darnau ailadroddus ond ni chywirais ddim arno; fe'i cymharaf gyda'r fersiynau eraill sydd ar gael yn ogystal â'r ffeithiau hanesyddol.

### Sezic Gwengamp

Ebars ar blaves mil a pemp kant  
 E teuas ar sézic war Guingamp.  
 Ha brema ar bloaz mil pemp kant seiz  
 Oa disquennet ar sézic war Breiz.  
 War porz Miguel oa ar Saozon,  
 An Allemantet war porz Roazon,  
 War porz ar Ploum ber oa ann Irlantet,  
 Ac enn eur plaç all ar Flamantet.

*Yn y flwyddyn mil pum cant*  
*Gosodwyd gwarchae ar dref Guingamp,*  
*Ac yn awr yn y flwyddyn mil pum cant a saith*  
*Disgynnodd y gwarchae dros Lydaw.*

*Roedd y Saeson wrth borth Saint-Michel,  
Yr Almaenwyr wrth borth Roazon [Rennes],  
Y Gwyddelod wrth borth La Plomée,  
A'r Ffleminiaid mewn man arall.*

Pur anaml y medrir dibynnu ar y dyddiadau a nodir mewn cerddi o'r traddodiad llafar ac nid yw fersiynau eraill y faled yn cynnig fawr o gymorth yn hyn o beth. Rhydd Pol de Courcy '90' et '97' heb nodi'r ganrif, 1505 sydd gan Luzel, 1700 gan Le Jean ac Even; gan fersiwn Penguern mae'r diweddaraf un, sef 1800! Ond mae'n werth sylwi ar y cyfeiriad at filwyr estron wrth byrth y dref. Eto i gyd, nid yw eu swyddogaeth yn glir: ai y tu mewn neu'r tu allan yr oeddynt, yn amddiffyn neu'n ymosod? Mae dau reswm yn ein harwain i gasglu mai'r ymosodwyr oeddynt ac mai 1489 oedd y dyddiad. Yn gyntaf, dywedir mai Saeson, Almaenwyr, Gwyddelod (neu o wŷr o Wlad yr Iâ), a Ffleminiaid oedd y milwyr; ychwanegir Sbaenwyr at y rhestr yn fersiwn Even. Adlewyrchir felly yr union gynghreiriau a sefydlwyd gan François II, tad y Dduges Anne, wrth iddo geisio gwrthsefyll Brenin Ffrainc a aeth i ryfel yn erbyn Llydaw cynifer â thair gwaith rhwng 1487 a 1491. Yn ystod gwarchae 1591, fodd bynnag, cefnogai'r Sbaenwyr a'r rhan fwyaf o bobl Llydaw Isel y Dug Mercoeur,<sup>5</sup> ac nid oedd sôn am Almaenwyr. Yn ail, rhaid ystyried arwyddocâd y cwpled sydd yn cyfeirio at y milwyr estron, a'i safle yn y faled.

Ar prince Dénoblin a goulenné,  
War porzou Roazon pa zarbaré,  
– Porzer! digoret ar percher-ma!  
Ar prinç Dénoblin a so ama ...  
Ar prinç Dénoblin a so ama,  
Triwac'h mil cavalier so gant-han  
Triwac'h mil cavalier paotret vaillant  
Da lakaat ar sézic war Guingamp,  
– Ar percher-ma ne vont ket digoret  
Na d'eoc'h, na da prinç all a bed;  
Ken na mo goulennet digant an Dukes Anna,  
Hounnes a so mestress war ar percher-ma.

*Gofynnodd y Tywysog Dénoblin  
Wrth arwain ei fyddin tuag at byrth Roazon:  
'Borthor, agorwch y pyrth hyn!'*



*Y Tywysog Dénoblin sydd yma ...*  
*Y Tywysog Dénoblin sydd yma*  
*Gyda deunaw mil o farchogion,*  
*Deunaw mil o farchogion, gwŵr dewr*  
*I osod gwarchae ar Guingamp.*  
*'Nid agorir y pyrth hyn,*  
*I chwi nac i'r un tywysog arall,*  
*Heb orchymyn gan y Dduges Anne,*  
*Hi sydd feistres ar y pyrth hyn.'*

Ym mis Ionawr 1489, Is-iarll de Rohan, arweinydd byddin y brenin, a alwodd am i byrth y dref gael eu hagog. Ond yn ôl yr hanesydd pwysig Bernard d'Argentré (1519–90) o Rennes, 'atebodd trigolion Guingamp na ddylent drosglwyddo'r dref hon nac unrhyw dref arall i'w feddiant, ac na fyddai'r arglwydd heb wybod mai pyrth y dduges oeddent [...] Am y rheswm hwn fe archasant iddo dderbyn na fedrent roi ateb gwahanol iddo nes y byddai bwriadau'r dduges yn hysbys iddynt.' Wrth ddyfynnu'r llinellau hyn o eiddo'r hanesydd, daw La Villemarqué i'r casgliad dealladwy fod y 'Tywysog Dénoblin yn neb llai na Jean de Rohan yr Ail.'<sup>6</sup> Dehonglai'r enw 'dénoblin' fel ansoddair yn golygu 'anffyddlon'. O ystyried yr amrywiadau ar ffurf yr enw, cynigiodd Pol de Courcy yntau, mewn llythyr o'r flwyddyn 1858, mai'r Tywysog Dombes ydoedd, sef is-gadfridog plaid y brenin yn Llydaw yn ystod rhyfeloedd y Ligue, a'r gŵr a osododd warchae ar Guingamp ym Mai 1591 gyda chymorth llw o Saeson a oedd newydd lanio. Ceir manylyn diddorol yn y fersiwn a gasglodd Le Jean yn Saint-Clet yn Ionawr 1868<sup>7</sup> lle y nodir mai 'trwmpedwr y tywysog' (*trompiller ar prinz*) a ddaeth i gyd-drafod â thrigolion y dref, gan ofyn iddynt agor y pyrth i Dénoblin. Cadwyd yr un manylyn mewn adroddiad Saesneg a gyhoeddwyd yn Llundain ym 1591, sydd yn adrodd mai trwmpedwr – '*a trompetter*' yn y Saesneg – oedd y lladmerydd rhwng y Dug Mercoeur a'r tywysog.<sup>8</sup>

– Dukes! digoret e vezo ar percher-ma  
 D'ar prinç Dénoblin so arruet ama?  
 Triwac'h mil cavalier so gant-han  
 Da lakaat ar sézic war Guingamp.  
 – Va doriou a so moraillet,  
 Ha va mogeriou a so cimantet,  
 Ne rann ket kaz ho gwelet,

Kear Guingamp ne vezo ket kemeret:  
Mar hoc'h heus ar canoun bras karget,  
Ar kear Guingamp e vezo diffenet,  
Ha pa vijent tri mis anter azé  
Ne rann ket kaz eus a nicun arré.  
A canonier koz a respontaz  
D'an Dukes Anna, pa lavaraz:  
– Brema e teuann d'har karga,  
Tregont boulet rolet so ama.  
Barr eun anter poëzel a mitraill ploumb,  
Mui pe kémend all a poultr a canoun,  
Ha mui pe kémend all a dragé braz,  
Da rei d'ar prinç Dénoblin war he faç.  
Na oa ket hé guer peur achuet,  
Ar canonier kos a so lazet  
Gant eun tenn poultr gwen demeus eur gambr  
Gand eur cavalier hanvet Goasgarant.

*'Dduges, a ddylid agor y pyrth hyn  
I'r Tywysog Dénoblin sydd yma,  
A deunaw mil o farchogion ganddo  
Er mwyn gosod gwarchae ar Guingamp?'*  
*'Mae fy mhyrth wedi eu bolltio  
A'm muroedd wedi eu smentio.  
Nid yw gweld [y milwyr] yn ofid imi:  
Ni chaiff tref Guingamp ei chipio!  
Os byddwch wedi llenwi'r fagnel fawr  
Fe amddiffynnir tref Guingamp;  
Pe arhosit yno am dri mis a hanner  
Ni hidiaf am yr un ohonynt!'*  
*Atebodd yr hen fagnelwr  
Y Dduges Anne, wedi iddi siarad:  
'Mi af yn awr i'w llwytho,  
Mae gennyf yma ddeg ar hugain o belenni crwn  
A lanwyd â hanner bwsiel o haels plwm,  
Cymaint neu fwy o bowdwr poeth,  
Cymaint neu fwy o belenni mawr,*

*I'w hanfon yn wyneb y Tywysog Dénoblin!'*  
*Prin ei fod wedi gorffen siarad*  
*Nad y lladdwyd yr hen fagnelwr*  
*Gan ergyd o bowdwr gwyn o gyfeiriad siambr*  
*Gan farchog o'r enw Goasgarant.*

I Pol de Courcy y mae'r diolch eto am gynnig enw – Yvon Loz, Arglwydd Coetgourhant – i'r marchog a laddodd drwy amryfusedd fagnelwr y dduges. Yn ôl y Parchedig Ganon Moreau yn ei *Histoire des guerres de la Ligue en Bretagne*,<sup>9</sup> tybiwyd mai bradwr ydoedd.

An Dukes Anna a lavare  
D'ar canonieres kos neuze:  
– Aotrou Doue! petra vezo grêt?  
Ar canoun bras a so braket.  
Ar canonieres a lavare  
D'an Dukes Anna, pa glevé:  
– Pa ar canoun bras so karget,  
M'em bezo rebech va priet.  
Na oa ket ho guer peur achuet,  
Ar vogeriou a so bet freuzet,  
An doriou a so bet torret.  
Karguet oa ar kear a soudardet.  
Ar prinç Dénoblin a lavaré  
Ebars ar kear Guingamp, pa rentré:  
– D'heoch, va soudardet, ar merc'hed koant,  
Ha d'in an aour ac an arc'hant.  
An Dukes Anna a lavaras  
D'ar prinç Dénoblin, pa zaludas:  
Ma vije bet karget ar canoun bras,  
Mé mé gounet hirio vo goas.  
An Dukes Anna en em strinkas  
War an douar ien ha noaz:  
– Itron Maria a guir chicour  
Pliget ganeoc'h hor sicour! ...  
Ar canonieres a lavaré,  
D'ar bec ann tour plat pa arrué:  
Me wel azé eur regiment o c'hoarzin

D'abord c'houi ho welo chagrin.  
N'a oa ket he guer peur achuet,  
Ann tan d'ar canoun he deus laquët,  
Triwac'h kant ar-re he deus lazet,  
Mui pe kemend all he deus blecet.  
Ar prinç Dénoblin a goulenné  
Gant eur furor bras, pa tremen;  
– Pelec'h-emâ merc'hed ar kear-ma  
A laka ar canoun da strinka.  
Kriz ê vijé ar c'haloun n'a gwelgé,  
Ebars ar kéar Guingamp, hini è vijé  
Da welet ar merc'hed, ar gragé,  
O touguen an diliat ho gwélé.  
O lakaat diliat ha liennach  
Evid en em cuzaat eus an arrach,  
Evit prena prenestou ha camprou,  
En em zavetei eus ar canoniou.

*Yna meddai'r Dduges Anne*  
*Wrth wraig yr hen fagnelwr:*  
*'Arglwydd Dduw! Beth a wnawn ni?*  
*Mae'r fagnel fawr wedi ei hanelu.'*  
*Meddai gwraig yr hen fagnelwr*  
*Pan glywodd y Dduges Anne:*  
*'Os yw'r fagnel fawr wedi ei llwytho*  
*Cafddial am fy mhriod!'*  
*Prin ei bod wedi gorffen siarad*  
*Nad y dymchwelwyd y muriau,*  
*A'r pyrth wedi eu torri,*  
*A llond y dref o filwyr.*  
*Dywedodd y Tywysog Dénoblin*  
*Wrth ddod i mewn i dref Guingamp:*  
*'Eiddo i chi, filwyr, yw'r merched tlws!*  
*Ac i minnau'r aur a'r arian.'*  
*Meddai'r Dduges Anne*  
*Wrth y Tywysog Dénoblin, pan gyfarchodd hi:*  
*'Petai'r fagnel fawr wedi ei llwytho,*

*Buaswn wedi ennill fy ngŵr.*  
*Taflodd y Dduges Anne ei hun*  
*Ar y ddaear oer a chaled:*  
*'Forwyn Fair, o Wir Gymorth,'<sup>10</sup>*  
*Estynnwch inni eich cymorth!'*  
*Dywedodd gwraig yr hen fagnetwr*  
*Wrth gyrraedd pen y Tour Plate:*  
*'Gwelaf gatrawd yn chwerthin,*  
*Cyn bo hir fe'u gwelwch mewn trallod!'*  
*Prin ei bod wedi gorffen siarad*  
*Na thaniodd y fagnet,*  
*Gan ladd deunaw cant ohonynt*  
*A chlwyfo cynifer eto neu ragor!*  
*Gofynnodd y Tywysog Dénoblin*  
*Yn llawn dicter pan ddaeth heibio:*  
*'Ble mae merched y dref hon*  
*Sydd yn saethu'r fagnet?'*  
*Caled fyddai'r galon na wylasai*  
*Pe byddai yn nhref Guingamp*  
*A gweld y merched a'r gwragedd*  
*Yn cario eu dillad gwely,*  
*Yn cario eu dillad a'u llieiniau*  
*Er mwyn cuddio rhag y ffyrnigrwydd,*  
*Er mwyn cau ffenestr a siambr*  
*A dianc rhag y magnelau.*

Mae sail hanesyddol i'r darlun hwn o ferched a gwragedd Guingamp yn mynd â'u dillad a'u dillad gwely i lenwi bylchau yn rhagfuriau'r dref, yn ôl tystiolaeth adroddiad Saesneg 1591 a gofnodwyd gan y Canon Moreau. Cyfeirir yno at y trigolion 'yn dod â matresi, tail a sachau wedi eu llenwi â phridd'.<sup>11</sup> Wrth drafod gwarchae'r Ffrancod ar Nantes ym 1487, cyfeiria Dominique Le Page a Michel Massiet hwythau at 'fwndeli gwlân'.<sup>12</sup>

*An Dukes Anna a redaz,*  
*Ebars an ilis bras en em strinkaz:*  
*– Itron Maria a guir chicour*  
*Grit deomp tréc'hi war hon adversour!*  
*Ha c'houi ve countant Guerc'hes Marie,*



Da lakaat hô ti da varchossi,  
 Hô sicristiri da c'hav ar guin,  
 Hag hoc'h auter bras d'ann daol guégin?  
 N'a oa ket hé féden peur achuet,  
 Ar kléier da zonn a so commencet,  
 Eo commencet ar kléier da zonn,  
 Hag ar spouranné enn oll c'haloun.  
 Ar prinç Dénoblin a commandé  
 D'hé pagic bihan, hac en galvé,  
 – Pagic, pagic, va pagic bihan,  
 Te a so diligent ha buhan;  
 Kerz buhan d'ar bec ann tour plat  
 Da gouzout piou a so d'ho brancellat,  
 Ha mar deus den unan d'ho zoun  
 Plant da glévé enn hé galoun.  
 Ouz da goutes te euz sabrenou  
 Gant da zaouarn t'en en ziffennaut.  
 He a ia é créc'h o cana,  
 Hag a zisken enn traon ô guéla:  
 – Enn bec ann tour plat me a so bet,  
 Ha, mad ann doué, me m'eus guele,  
 Nemet ar Verc'hes Marie hag he Vab,  
 Ar ré so d'ho brancellat.

*Rhedodd y Dduges Anne  
 A rhuthro i'r eglwys.  
 'Arglwyddes Fair o Wir Gymorth  
 Parwch inni drechu'r gelyn!  
 A fyddech chi'n fodlon, Forwyn Fair,  
 Ganiatáu i'ch tŷ droi'n stabl,  
 Eich cysegrfa'n seler gwin  
 A'ch allor yn fwrdd cegin?'  
 Prin ei bod wedi gorffen ei gweddi  
 Na ddechreuodd y clychau ganu,  
 Ac arswyd i bob calon.  
 Galwodd y Tywysog Dénoblin ar ei facwy bychan  
 A gorchymyn iddo:*

*'Facwy, facwy, fy macwy bychan,  
 Ti sydd yn selog a chwm;  
 Dos ar frys i ben y Tour Plate  
 I weld pwy sydd yn eu canu,  
 Ac os bydd rhywun yn eu seinio,  
 Planna dy gleddyf yn ei galon!  
 Mae crymgleddau wrth dy ystlys,  
 Cei amddiffyn dy hun â'th ddyrnau.'*  
*Fe ddringodd i fyny dan ganu  
 A daeth i lawr dan wylo:  
 'Mi fûm i ar ben y Tour Plate  
 A, wir Dduw, ni welais i ddim  
 Ond y Forwyn Fair a'i Mab,  
 A hwy a barodd i'r clychau ganu.'*

Ceir stori debyg am glychau sydd yn dechrau canu o'u rhan eu hunain yn wyrthiol er mwyn datgan bod eglwys wedi ei halogi, mor gynnar â *Chroniques* Alain Bouchart, lle y ceir sôn am y Saeson yn meddiannu eglwys Saint-Sauveur yn Rennes ym 1356. Daeth y motîff yn ystrydeb mewn cerddi a chwedlau fel ei gilydd yn y traddodiad llafar Llydaweg, ac fe ddigwydd bob tro y collfernir gweithred o'r math hwn, megis rhoi eglwys ar dân, dwyn creiriau, neu ddinistrio eiddo'r eglwys. Ysgogodd La Fontenelle yr un wyrth fwy nag unwaith, a barnu wrth ei hanes yn Pont-Croix ac yn Quêlven.<sup>13</sup>

Ar prinç Dénoblin a lavaré  
 D'hé oll soudardet, pa ho glevé:  
 – Profit, va soudardet, pep hini eur skoed,  
 Hac ann dud noblanç a roio deck.  
 Me va unan a brof daouzek  
 Da repari an domach me m'eus grët.  
 Bridomp hon keseck, ha deomp enn hent,  
 Ha lezomp ho ziez gant ar sent!

*Meddai'r Tywysog Dénoblin  
 Wrth ei holl filwyr a oedd yn gwrando:  
 'Fy milwyr, rhowch écu [coron] bob un  
 A boed i'r boneddigion roi deg!  
 Mi roddaf ddeuddeg fy hun*

*I drwsio'r difrod a wneuthum.  
Ffrwynwn ein ceffylau ac i ffwrdd â ni,  
A gadawn eu tai i'r saint!*

Mewn gwirionedd, clywed bod llongau'r Saeson yn cario pymtheg cant o ddynion wedi glanio yn Pontrieux, er mwyn cynorthwyo'r dduges, a gododd ofn ar y Ffrancod a pheri iddynt ymadael yn sydyn. Yn ei *Histoire de Guingamp* edrydd Sigismond Ropartz hanes digwyddiad ym mis Mawrth 1489, gan ddyfynnu'r hanesydd d'Argentré unwaith yn rhagor: 'Pan gyrhaeddodd y newydd fod cymorth ar y ffordd, fe farnodd milwyr y garsiwn yn Guingamp, er bod ganddynt bymtheg can march, mai doeth fyddai cymryd y goes fel dynion llwfr a gadael y dref.'<sup>14</sup>

Ar prinç Dénoblin a lavaré  
Eus a kear Guingamp pa partié:  
– O veza'r kear Guingamp kemeret  
Ouz penn c'houec'h kement me m'eus kollet.  
Ma kollann va buez ô vont d'ar guer  
Me em bezo kollet tout enn entier.  
Kerzomp buhan kostez hon bro  
Evit ma kemerimp repo.

*Meddai'r Tywysog Dénoblin  
Wrth adael tref Guingamp:  
'Wrth gymryd tref Guingamp  
Mi gollais chwe gwaith ei gwerth hi.  
Os collaf fy mywyd wrth fynd tua thre  
Mi fyddaf wedi colli popeth.  
Cerddwn yn gyflym tuag at ein gwlad  
Er mwyn inni gael gorffwys.'*

Drwy fanteisio ar dystiolaeth archifau, cronicleu a dogfennau o'r cyfnod, bu modd esbonio'r cysylltiadau rhwng chwe fersiwn y *gwerz* a'r ffeithiau hanesyddol. Wrth astudio'r testunau a gadwyd yn y traddodiad llafar ac a gofnodwyd rhwng 1835 (gan Madame de Saint-Prix) a 1980 (gan Ifig Troadeg), gwelir bod manylion y digwyddiad gwreiddiol wedi eu cadw yn ddigon pendant a'u disgrifio mor fyw fel bod modd gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd yn ymwneud â gwarchae 1489 a'r hyn sydd yn perthyn i un 1591. Wrth gymharu'r gwahanol fersiynau caf yr argraff fod y cyfansoddiad

barddonol sydd dan yr wyneb, sef y fframwaith naratif gwreiddiol, wedi aros yn ddigyfnewid. Yn ddi-os, gwarchae 1489 sydd dan sylw. Manylion yn perthyn i warchae Charles VIII yw rhestr y lluoedd estron a alwyd i amddiffyn pyrrh Guingamp, ymateb y trigolion (bod y dref yn perthyn i'r dduges ac na châi ei hildio heb ei chaniatâd), a Ffrancod y garsiwn yn ffoi yn sydyn. Cryfheir y ddadl gan strwythur y *gwerz*: yn y chwe fersiwn defnyddir y cwpled sydd yn nodi safle pob un o'r lluoedd estron fel rhagymadrodd i graidd hanes y gwarchae, gan ddilyn y patrwm traddodiadol o ddatgan ac amlinellu ar y cychwyn y stori a adroddir yn y man. Ond mae'r cwpled yn cyffwrdd mater sensitif, oherwydd bod y brenin wedi mynd i ryfel unwaith eto yn erbyn dugiaeth Llydaw am fethu â pharchu cymal yng Nghytundeb Verger (Awst 1488) a fynnai fod y dug yn anfon yr estroniaid o'i diroedd. Bu farw'r dug ar 9 Medi, fodd bynnag, ac er bod y brenin wedi atgoffa'r dduges o'r ymrwymiad ('... a boed i'r estroniaid adael y wlad yn ôl y cytundeb heddwch a wnaethpwyd cydrhwng y brenin a'r diweddar ddug'), nid oedd y dduges wedi gwneud hynny. Erbyn 17 Ionawr roedd milwyr Ffrainc wrth byrth Guingamp.

O ran craidd y naratif, fel y'i trosglwyddwyd yn nhraddodiad llafar yr ardaloedd Llydaweg eu hiaith, fe ymddengys nad oedd ymgorffori hanes yr ail warchae, a ddigwyddodd ganrif yn ddiweddarach, wedi gofyn am lawer o newidiadau yn y manylion. Yr un yw'r ymosodwr, ac nid oedd angen mwy na newid enwau arweinwyr y gelyn – y Tywysog Dombes yn lle'r Is-iarll Jean II de Rohan – a chyflwyno rhai ffeithiau newydd, megis y marchog o du'r Gyngrair yn lladd ei brif fagnelwr drwy amryfusedd. Eto i gyd, ac yn rhyfedd iawn, cedwid delwedd drosiadol y dduges i bontio'r ganrif. Cyfeiria un fersiwn ati hi hyd yn oed fel chwaer y Dug Mercœur. Parhaodd grym symbolaidd ac emosiynol y cof am sofran olaf Llydaw mewn llinach hir ac anrhydeddus, yn enwedig yn Llydaw Isel.

### **Alawon *Sézic Guingamp***

Yn yr atodiad cerddorol i argraffiad cyntaf ei *Barzaz-Breiz* ym 1839, cyflwynodd La Villemarqué alaw ar gyfer *Sézic Guingamp* a oedd, meddai, 'mor boblogaidd yng Nghymru ag yn Llydaw'.<sup>15</sup> Mewn gwirionedd, yr alaw Gymreig adnabyddus 'Rhyfelgyrch Cadben Morgan' yw hon, ac y mae ei phoblogrwydd yn Llydaw, a ddatblygodd fwy na thebyg yn ddiweddarach nag yr awgryma La Villemarqué, yn llai dyledus i'w chyhoeddi yn y *Barzaz-Breiz* nag i'r benthyciad ohoni a wnaeth y bardd Taldir yn ei dro ar

ddechrau'r ugeinfed ganrif ar gyfer ei gerdd 'Gwir Vretoned' [Brythoniaid/Llydawyr Triw].

Ond yn nhraddodiad llafar ardal Trégor fe arferid canu'r *gwerz* hwn ar nifer o wahanol alawon. Un ohonynt oedd yr alaw a glywodd y casglwr Luzel o enau'r gantores draddodiadol Marc'harid Fulup,<sup>16</sup> ac fe'i recordiwyd hi ym 1900 ar sylindr cwyr gan François Vallée a'i roi ar glawr gan Maurice Duhamel. Ac ym 1980 llwyddodd Ifig Troadeg i recordio'r fersiwn – anghyflawn, ysywaeth – a ganai Yvonne Garlan yn Miniy-Tréguier.<sup>17</sup> Clywodd a nododd Polig Monjarret yntau saith fersiwn yn ardal Guingamp yn y 1940au. Yn Ionawr 1942 cafodd Monjarret afael ar ddau fersiwn arall, un o ganu cowper ei daid, Hyacinthe Mazévet, a aned ym 1856 yn Guingamp, ac un a genid gan gymdoges i'w nain, Madame Le Pape, o La Poterie en Pabu, a aned ym 1869.<sup>18</sup>

## NODIADAU

- 1 Hoffwn ddolch yn gynnes iawn i Donatien Laurent o'r Ganolfan Ymchwil Llydewig a Cheltaidd, Prifysgol Gorllewin Llydaw, Brest, am ganiatâd i drosi ei erthygl, a ymddangosodd gyntaf yn *Ar Men* rhif 143 (2004), 18–23. Lle bu angen ychwanegu esboniad neu nodyn pellach ar gyfer darllenwyr *Canu Gwerin*, defnyddiwyd bachau petryal. [CLIM]
- 2 Pan briododd y Dduges Anne o Lydaw y Brenin Louis XII o Ffrainc ym 1499, ceisiodd sicrhau annibyniaeth Llydaw drwy fynnu yn eu cytundeb priodasol mai ei hail fab hi fyddai'n etifeddu'r ddugiaeth. Ond bu Anne farw ym 1514 heb yr un etifedd gwryw, a thorrrwyd y cytundeb gan y Brenin François I, a briodasai ei merch hi, Claude. Pen draw'r broses oedd uno Ffrainc a Llydaw ym 1532. Cyfres o ryfeloedd ar sail crefydd oedd rhyfeloedd y Ligue. Cefnogai Lloegr y Protestaniaid a Sbaen y Catholigion. [CLIM]
- 3 M. Le Chevalier de Fréminville, *Antiquités de la Bretagne: les Côtes-du-Nord* (Brest, 1837), tt. 375–86.
- 4 Théodore Hersart de la Villemarqué, *Barzaz-Breiz* (Paris, 1839), cyfrol I, tt. 235–47.
- 5 Brawd yng nghyfraith y Brenin Henri III, a'i penododd yn llywodraethwr Llydaw ym 1582. Ym 1588 ceisiodd ailsefydlu dugiaeth Llydaw gan herio awdurdod y goron.
- 6 *Barzaz-Breiz*, cyf. I, t. 236.
- 7 François-Marie Luzel, *Gwerzioù Breiz-Izel* (Lorient, 1874), cyf. II, 40–7.
- 8 Cyhoeddwyd yr adroddiad Saesneg yn ddiweddarach gan H. Waquet yn *Mémoires de l'Association Bretonne*, cyf. 36, 44–62 (tt. 47–50).
- 9 H. Waquet (gol.), *Mémoires du chanoine Jean Moreau sur les guerres de la Ligue en Bretagne* (Quimper, 1960).

- 10 Notre Dame de Bon Secours (ein Harglwyddes o Wir Gymorth), yw nawddsantes eglwys Guingamp.[CLIM]
- 11 *Mémoires du chanoine Jean Moreau*, t. 93.
- 12 Dominique Le Page, *L'Union de la Bretagne à la France* (Morlaix, 2003), t. 87.
- 13 Daeth enw Guy-Eder de la Fontenelle (g. tua 1572) yn ddjarhebol fel ysbeiliwr treisgar yn Llydaw yn ystod rhyfeloedd y Ligue. Fe'i ddiennyddiwyd ym Mharis ym 1602 [CLIM]. Cymh. François-Marie Luzel, *Gwerzioù*, cyf. 2, tt. 66–9, ac F. Cadic, *La Paroisse Bretonne*, Rhagfyr 1908.
- 14 S. Ropartz, *Histoire de Guingamp* (Saint-Brieux & Paris, 1859), cyf. II, t. 94.
- 15 Cf. *Barzaz-Breiz*, t.II, Annexes, t. 6, rhif xviii. Mae'n bosibl, onid yn debygol, fod La Villemarqué wedi clywed yr alaw hon yng Nghymru, yn ystod ei ymweliad ym 1838, a bod hynny wedi dylanwadu ar ei ddewis wrth gyhoeddi'r gwerz. [CLIM]
- 16 Luzel, *Gwerzioù*, cyf. II, 48–53.
- 17 I. Troadeg, *Carnets de route*, (Lannion, 2005).
- 18 Llythyr, 22 Mehefin 1973, oddi wrth Polig Monjarret at Yves Tanguy, ysgrifennydd pwyllgor technegol Bodadeg ar Sonerien [Cymdeithas y Pibyddion, a sefydlwyd gan Monjarret]; diolch i Nolwenn Monjarret am gael ei weld.



# Dwy faled

## Cystadleuaeth Goffa Elfed Lewys

### Eryri 2005

---

Cyhoeddir isod y ddwy faled a ganwyd yng Nghystadleuaeth Goffa Elfed Lewys, sef canu baled wreiddiol, ar faes Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau 2005. Cyflwynwyd y gyntaf o'r ddwy, 'Rebel!', gan Lisa Healy, a'r ail 'Baled 2005' gan Harri Richards. Dyfarnodd y beirniaid (Myron Lloyd a Dafydd Idris) Lisa Healy yn fuddugol, 'achos roeddem ni'n dau yn teimlo y byddai wedi gwerthu mwy, pe byddai'r ddau faledwr wedi bod yn canu a gwerthu ar y maes'.

### Rebel!

(ar yr alaw 'Ffarwel i Langyfelach Lon')

O dewch ynghyd, chi Gymry glân,  
Gwrandewch yn awr ar neges fy nghân;  
Mae gen i stori anhygoel i chi  
Sy'n siwr o'ch plesio, coeliwch fi.  
Ffa la la la la la la la la.

O! stwffio pawb yng Nghymru lân  
Does gen i'm diddordeb yn y blincin gân!  
Syniad Mam oedd y cyfan i gyd,  
Dwi'n meddwl weithie bod honna ar sbîd.  
Boring ...

Mae Steddfode'n boring, mae hynny'n ffaith,  
Maen nhw'n iawn i bobl sy'n lyfo'r iaith;  
Tase popeth yn Saesneg 'se fe'n *not too bad*  
Ond mae siarad Cymraeg yn hollol *sad*.  
Boring ...

Mae'r Steddfod yn llawn o bobl *mad*  
Yn adrodd a dawnsio a neud pethe *sad*,  
Rhyw benillion sili i gyfeiliant telyn

Neu'n waeth na hynny – canu gwerin.  
Boring ...

Mae teli Cymraeg yn hollol *gross*  
A rhaglenni i *wrinklies* ymlaen bob nos;  
Dwi ishio gweld Big Brother, ond flipin' eck  
Mae Nain ishio Noson Lawen ar S4C.  
Boring ...

Dwi'n mynd i Ysgol Gymraeg Pencoed,  
Y lle mwy *minging* a fu erioed;  
Cael addysg Gymraeg er mwyn cael rhyw ddydd  
Rhyw job fach boring ym Mae Caerdydd.  
Boring ...

Mae gwersi Cymraeg yn real poen  
Ac mae treiglo a *grammar* yn mynd dan fy nghroen  
Ac mae'r athro Cymraeg yn real *bore*:  
'Siaradwch Gymraeg ar y coridor!'  
Boring ...

*Bilingualism* – wel dyna'r nod  
A does neb yn poeni bod fi'n hollol *bored*;  
Ma fe'n *kinda* pwysig *probably*  
Ond mae'r holl Gymraeg mae'n *killan* fi.  
Boring ...

Pan â i i'r Coleg, fydd hynna'n grêt –  
Cael siarad Saesneg efo pob un o'm mêts;  
Mi brioda i rhyw foi bach lysh o bant  
A siarad Saesneg efo 'mhlant.  
*Boring, boring, boring, boring no more.*

Linda Healy

## Baled 2005

(ar 'dôn wneud' o eiddo'r baledwr)

A gofi orfoledd y gwanwyn?  
A roddodd dy galon di lam  
Yn nydd buddugoliaeth ein hogia ni,  
Yn awr ddiguro'r Grand Slam?  
A deimlaist ti falchder wrth wyllo?  
Ai croch oedd dy gân a'th lais  
Wrth weled y cochion yn trechu'r lleill,  
Yn concro a sodro'r Sais?

A gofi boenau'r galar gwyllt  
Pan lamodd angau o draw,  
A thraethau'r Dwyrain yn uffern i gyd  
A'r llanast llwyr ar bob llaw?  
Y tonnau cynddeiriog yn torri  
A gwae y plant yn y gwynt,  
Y gorlif creulon yn rhuthro'n chwil  
Ar wylt a didostur hynt.

A gofi di'r stŵr a'r dadlau hir  
Wrth drafod y 'Steddfod Fawr?  
Syniadau yn brin a'r coffrau'n wag,  
Beth, tybed, a ddigwydd nawr?  
Ai alltud ar lannau Merswy draw  
Fydd y Brifwyl, wel nefoedd wen!  
Ken Dodd yn Archdderwydd, comedian go iawn,  
A'i Orsedd o Diddy Men.

A gofi di'r golled a'r galar  
Pan aeth Gwynfor i'w olaf daith?  
Hiraeth ac ing mewn calonnau briw  
A llygad pob Cymro'n llaith;  
A gofi ei ddewrder wrth herio  
Y taeog, y gwasaid, a'r gwaeth?  
Y gwleidydd glandeg, Seneddwr dewr,  
A gwron ei Gymru gaeth.

A gofi di'r lecsiwn aeth heibio  
A'r myrdd addewidion bras,  
Y pleidiau'n palu celwyddau di-rif,  
Coch, melyn a gwyrdd a glas.  
Na hidia fy ffrind, mae bywyd yn deg  
A braf, fy ffrind, yw cael byw;  
Rho weddi bach dawel 'n dy gapal dy hun  
A rho dy ffydd yn dy Dduw.

Glyn Roberts, Pwllheli

# Y ffonograff a byd cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru

Wyn Thomas

---

Wrth edrych yn ôl dros lwyfan hanes cerddoriaeth yng Ngorllewin Ewrob, fe welir bod pob datblygiad technegol ym myd y cyfryngau torfol ar hyd y canrifoedd wedi rhoi bod i adfywiad ym maes canu gwerin. Pan ddaeth y defnydd o deip symudol ac engrafio metel yn gyffredin ym Mhrydain yn yr 16eg ganrif a'r 17eg ganrif, er enghraifft, profwyd adfywiad lle roedd argraffu taflenni a phamffledi baledi yn boblogaidd. Ganrif a mwy yn ddiweddarach pan ddatblygwyd dulliau argraffu *Offset*, gwelwyd adfywiad arall ym myd canu gwerin, pryd y cynhyrchwyd casgliadau cyhoeddedig o gerddoriaeth gan gynnwys rhai John Parry 'Ddall', Rhiwabon<sup>1</sup> ym 1742, 1761 a 1781, Edward Jones 'Bardd y Brenin'<sup>2</sup> a'u tebyg. A phan ddarganfuwyd dulliau gwahanol o gofnodi a diogelu sain ar drothwy'r ugeinfed ganrif, fe gafwyd adfywiad pellach ym myd cerddoriaeth frodorol barodd i Gymdeithas Alawon Gwerin Lloegr, Iwerddon a Chymru<sup>3</sup> gael eu sefydlu.

Erbyn canol y ganrif ddiwethaf, pan ddechreuwyd cynhyrchu peiriannau casét a radio rhad, canlyniad hyn oedd peri adfywiad arall ym myd canu a cherddoriaeth draddodiadol yn y 60au a'r 70au, pryd y gwelwyd sefydlu grwpiau gwerin tebyg i'r Chieftains yn Iwerddon ac Ar Log yng Nghymru.

Y naill ddatblygiad a'r llall yn gam arwyddocaol ymlaen yn yr hanes ac yn welliant ar yr hyn a gyflawnwyd yn flaenorol, heb i'r un fenter ddisodli'r llall, ond yn hytrach, fod cynnyrch y naill adfywiad yn gwella, yn adeiladu, yn cyfoethogi ac yn ymestyn y broses o gylchredeg a phoblogeiddio cerddoriaeth frodorol.

Wedi i'r Americanwr, Thomas Alva Edison (1847–1931) ddyfeisio'r ffonograff neu'r 'sain-drysorydd' (a defnyddio term Cymraeg fathwyd gan 'Powyson' yn ei gyfrol arloesol ddechrau'r ganrif ddiwethaf),<sup>4</sup> fe sylweddolodd fod i'r teclyn hwnnw bosibiliadau pellgyrhaeddol, nid yn unig ymhlith ei gyd-wladwyr ond ar lefel fyd-eang. Wrth ysgrifennu yn *The North American Review* ym 1878, honnodd fod swyddogaethau'r ddyfais bwysig hon yn cynnwys:

1. *Letter-writing.* 'The main utility of the phonograph ... being for the purpose of letter-writing and other forms of dictation, the design is made with a view to its utility for that purpose.'
2. *Dictation.* 'All kinds and manner of dictation ...'
3. *Books.* Books recorded by professional readers to be used 'in the asylums of the blind, hospitals, the sickchamber, or even with great profit and amusement by the lady or gentleman whose eyes and hands may be otherwise employed.'
4. *Educational purposes.* 'As an elocutionary teacher, or as a primary teacher for children, it will certainly be invaluable.'
5. *Music.* 'The Phonograph will undoubtedly be liberally devoted to music ... As a musical teacher it will be used to enable one to master a new air, the child to form its first songs, or to sing him to sleep.'
6. *Family Record.* 'For the purpose of preserving the sayings, the voices, and the last words of the dying member of the family...'



*Thomas Alva Edison a'i ffonograff (1889)*  
(Science and Society Picture Library, Llundain)



7. *Musical Boxes, Toys, etc.*
8. *Clocks.* 'The phonographic clock will tell you the hour of the day; call you to lunch; send your lover home at ten, etc.'
9. *Advertising, etc.*
10. *Speech and other Utterances.* 'It will henceforth be possible to preserve for future generations the voices as well as the words of our Washingtons, our Lincolns, our Gladstones, etc...'
11. The phonograph will perfect the telephone, and revolutionize present system of telegraphy ... enabling the speaker to simultaneously transmit and record his message.'<sup>5</sup>

Flynyddoedd yn ddiweddarach, gwelwyd nad ysgrifennu llythyrau nac adrodd storïau, na hyd yn oed ateb anghenion addysgol yr oes oedd prif ddiben yr offeryn, ond yn hytrach, mai ym myd cerddoriaeth a hynny'n bennaf, y byddai'r ddyfais yn gadael ei ôl. Yn wir, er gwaetha'r ffaith fod Edison yn drwm ei glyw o'i fachgendod, y ddyfais arbennig hon aeth â'i fryd drwy gydol ei yrfa hyd nes iddo gyrraedd ei saithdegau hwyr, a hynny, er cymaint fu llwyddiant y *megaphone*, y lamp drydan, ei gyfraniad allweddol i ddatblygiadau'r teleffon, a llu o ddyfeisiau eraill yn ei fywyd.<sup>6</sup>

Fel un o wŷr mwyaf athrylithgar ei ddydd, sylweddolodd fod gan yr offeryn hwn gyfraniad neilltuol yn nyfodol dynoliaeth gyfan, ond i raddau ni lwyddodd i sylweddoli fod i'r ffonograff swyddogaeth benodol a oedd ynghlwm â'r gorffennol hefyd. Fel y dywedodd James Francis Cooke wrth ganu clodydd Edison a'i beiriant arloesol ar dudalennau'r misolyn *Étude*: 'What the printing press did for the composer, you [Edison] have done for the instrumentalist and singer.'<sup>7</sup>

Roedd diwedd y 19eg ganrif yn gyfnod pryd y gwelwyd cryn chwilfrydedd am gofnodi, diogelu ac astudio'r gorffennol. O safbwynt academiaidd, dyma'r adeg pryd y sefydlwyd nifer o amgueddfeydd cyhoeddus ledled y byd (e.e. Amgueddfa'r Smithsonian yn Washington a sefydlwyd ym 1846, yr Amgueddfa Brydeinig ym 1847 ac Amgueddfa Victoria and Albert a sefydlwyd ym 1852), a'r sefydliadau hynny i raddau helaeth, yn disodli casgliadau preifat gwŷr bonheddig yr oes a fu. Yn eu tro, tyfodd yr amgueddfeydd yn ganolfannau dysg ac yn ymgorfforiad o draddodiadau, diwylliant a gwerthoedd y cenhedloedd gwahanol hynny. I'r perwyl hwn, roedd ffonograff Edison yn ddyfais amserol ac yn gymorth arbennig i'r

casglwr a'r gweithiwr yn y maes fyddai'n caniatáu iddo fynd i'r fan a fynnai, bron yn gwbl ddirwysti. Fel y dywed Erika Brady yn ei chyfrol *A Spiral Way*: 'Edison knew he had a blockbuster invention on his hands – a machine with literally unheard-of potential.'<sup>8</sup>

O safbwynt technegol, fel hyn y byddai'r peiriant yn cofnodi'r llais – wrth i'r gwrthrych ganu neu siarad i mewn i gorn<sup>9</sup> y ffonograff, byddai'r tonau sain yn cael eu cyfeirio i grombil y peiriant ac yn taro plât tenau o gopr neu wydr maint darn dwy geiniog. Y plât hwnnw oedd yr hyn a elwid yn *diaphragm*. Byddai'r *diaphragm* wedyn yn dirgrynu yn unol â chyflymder y tonau sain a'r dirgryniadau hynny yn cael eu trosglwyddo i nodwydd fechan a leolid rhwng ymyl y *diaphragm* a gwyneb y silindr cŵyr oddi tano. Wrth i'r silindr droi yn ei unfan, fe drosglwyddid y dirgryniadau o'r nodwydd gan greu un rhigol hir yn y cŵyr, ond roedd dyfnder y rhigol honno yn amrywio ac yn dibynnu ar gryfder ac amledd [*frequency*] y tonau sain.

Y silindr cŵyr oedd yr hyn a gofnodai'r llais. Silindr oddeutu 4 modfedd o hyd a 2½ modfedd ar draws ydoedd, twll yn ei ganol i'w leoli yn y man cywir ar glawr y peiriant ffonograff, a'r cŵyr yn ddigon caled i'w drin a'i drafod ond yn ddigon meddal i'r nodwydd greu'r argraff angenrheidiol arno. Roedd gofyn i'r sawl a oedd yn berchen ffonograff brynu cyflenwad da o silindrau gwag ac er fod y rhain yn cael eu defnyddio i recordio, roedd modd siafio'r cŵyr i'w ail-ddefnyddio ar adegau eraill hefyd.

Recordiadau dwy funud o hyd



Un o silindrau ffonograff Y Fonesig Ruth Herbert Lewis, Caerwys. Cyfeirir ar yr clawr at recordiad Robert Roberts, 'Smithy', Rhydyrarian o 'Gân y Llwynog'.

(Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan)

gynhyrchwyd gan y periannau ffonograff cynharaf a'r silindr bryd hynny yn troi 100 gwaith y fodfedd. Yn ddiweddarach fodd bynnag, cynhyrchodd Edison beiriant a allai gynhyrchu recordiadau pedair munud o hyd (sef 200 troad y fodfedd) a oedd, wrth reswm, yn llawer mwy manteisiol o safbwynt masnachol ac yn fwy deniadol i'r sawl a ddefnyddiai'r peiriant mewn cyddestun cerddorol. Er hyn, llwyddodd rhai casglyddion ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, i recordio hyd at bum munud o ddeunydd ar un silindr, ond roedd arafu'r cyflymder er mwyn cael cofnodi mwy o ddeunydd yn golygu dirywiad sylweddol yn ansawdd sain ac eglurder yr hyn a gofnodwyd.

Bocs hirsgwar oddeutu 14 modfedd o led a 10 modfedd o ddyfnder oedd y ffonograff o ran ei faint. Lleolwyd yr holl fecanwaith y tu mewn i'r bocs, tra mai ar wyneb y caead y gosodwyd y silindr, y *diaphragm*, y corn a'r nodwydd. Mewn sesiwn recordio arferol, roedd disgwyl i'r casglwr gael nifer o silindrau glân wrth law, er mwyn sicrhau dilyniant yn y sesiwn recordio ynghyd â dau fath gwahanol o gorn. Y naill ar gyfer recordio'r sain ar y silindrau a'r llall ar gyfer gwranddo ar yr hyn a recordiwyd eisoes. Ond yn ogystal â hyn, roedd rhaid cael amgylchiadau a thymheredd priodol hefyd er mwyn cynhyrchu recordiad o'r safon gorau. Fe allai'r ffonograff weithio'n llwyddiannus mewn tymheredd mor isel â 60 gradd *Fahrenheit* neu 15 gradd *Celcius*, ond os oedd y cŵyr yn rhy oer neu'n rhy galed, ni fyddai'r nodwydd yn creu rhigol ddigon dwfn i sicrhau atgynhyrchiad sain da.

Erbyn 1913,<sup>10</sup> yn ogystal â chynhyrchu silindrau glân ar gyfer dyletswyddau recordio cyffredinol ym myd masnach a gwaith maes, roedd cwmni Edison yn gwerthu recordiadau silindr o artistiaid amlwg y



*Peiriant ffonograff Edison 'Gem' (1903)*  
(Science and Society Picture Library, Llundain)

dydd – mawrion y byd cerdd yn yr Unol Daleithiau ac ym Mhrydain yn bennaf, fu'n fodd o ymestyn swyddogaeth y ffonograff fel cyfrwng diddanwch teuluol yn ogystal ag ateb anghenion casglyddion a gweithwyr yn y maes.<sup>11</sup> Ond roedd y ffonograff wedi hen ennill ei le ym myd cerddoriaeth werin Cymru erbyn i'r datblygiadau hyn ddod i'r amlwg.

Almaenwr o'r enw Rudolf Trebitsch (1876–1918) oedd y cyntaf i ddefnyddio'r peiriant chwildroadol hwn i gofnodi enghreifftiau o gerddoriaeth frodorol Cymru. Rhwng 1907 a 1909, treuliodd Trebitsch gyfnod o dri haf yn casglu deunydd llafar o wahanol ardaloedd o'r byd Celtaidd, gan gynnwys Iwerddon, yr Alban, Gwlad y Basque, Ynys Manaw a Chymru. O ganlyniad, fe sefydlodd y casgliad ffonograffig mwyaf sylweddol o ieithoedd a cherddoriaeth draddodiadol welwyd yr adeg honno. Mae ei gasgliad, sydd bellach ar gael yn archif sain, Academi Wyddonol Awstria yn Vienna<sup>12</sup> yn cynnwys 240 recordiad ar silindrau ffonograff, ac ynddynt cofnododd yn systematig enghreifftiau o ieithoedd, tafodieithoedd a cherddoriaeth frodorol o fannau a ystyrid yn llai egsoftig na chyrchfan ambell i anthropolegydd arall yn y cyfnod hwnnw. Ni wyddys pwy ddylanwadodd ar Trebitsch i fynd i gasglu deunydd o'r fath yn yr ardaloedd hyn ond un peth sy'n wybyddus, roedd rhai o'r ieithoedd a'r traddodiadau y bu ef yn eu recordio ym 1907–1909, eisoes mewn perygl ac mewn adroddiad i'r Austrian Academy of Science yn 1908<sup>13</sup> a 1909<sup>14</sup> mae'n cadarnhau hynny. Ond am y tro cyntaf erioed, roedd y dechnoleg ar gael i gofnodi deunydd llafar a'i ddiogelu'n barhaol ar silindr – a hynny, heb fod angen distrywio'r recordiad gwreiddiol yn dilyn ei drawsodi ar bapur.

Aelod o deulu o Iddewon cefnog oedd Trebitsch a'i dad yn fasnachwr silc llwyddiannus. Er iddo astudio i fod yn feddyg, ymddiddorodd yn fwy mewn anthropoleg ac ethnoleg nag ym myd meddygaeth ac ennillodd ail ddoethuriaeth ym 1911 am ei waith ymchwil ar fodelau o gychod wedi'u gwneud o groen.<sup>15</sup> Nid casglwr a chofnodwr yn unig ydoedd, fodd bynnag. Oherwydd ei fagwraeth freintiedig, roedd yn barod i ariannu ei holl fentrau a chefnogi eraill hyd yn oed i fynd ar deithiau casglu. Yn ogystal â hyn, bu'n noddwr hael iawn i waith ymchwil ac amcanion Amgueddfa'r *Volkskundemuseum* yn Vienna.

Yng Nghymru, ei gysylltiadau pennaf oedd Syr Owen M. Edwards, Edward Anwyl a Syr John Rhys,<sup>16</sup> a'r rhain fu'n ei gynghori i ymweld ag ardaloedd gwahanol a chyfarfod â chymeriadau adnabyddus fel J. D. Lewis (sylfaenydd



Gwasg Gomer, Llandysul),<sup>17</sup> Syr John Morris Jones (Bangor)<sup>18</sup> a chynrychiolwyr eraill i glywed tafodieithoedd Sir Ddinbych,<sup>19</sup> Sir Feirionnydd<sup>20</sup> a Sir Geredigion.<sup>21</sup> Ond nid tafodieithoedd a thraddodiadau llafar Cymru yn unig oedd o ddiddordeb iddo fodd bynnag. Ymddiddorodd hefyd mewn offerynnau cerdd, gan gynnwys y delyn a'r pibgod a hynny flynyddoedd cyn i faes organoleg a'r astudiaeth fanwl o offerynnau cerdd ddod i boblogrwydd yng Ngorllewin Ewrob.<sup>22</sup> Casglodd enghreifftiau gwahanol ohonynt yn ystod ei deithiau yng Nghymru, yn Iwerddon ac yn yr Alban a chyflwynodd y cyfan i'r *Volkskundemuseum* yn Vienna, fu'n sail i astudiaethau cymharol ym maes ethnoleg yn y man.

Troi i gartref moethus Augusta Hall ym mhlas Llanofer ger y Fenni wnaeth Trebitsch i geisio dod o hyd i enghreifftiau o gerddoriaeth werin Cymru yn cael eu perfformio gan arweinwyr y traddodiad offerynnol. Yno, dan oruchwiliaeth Mrs. Augusta Herbert 'Gwenynen Gwent yr Ail', yr oedd arfer y Fari Lwyd, nosweithiau llawen, twmpathau dawns, canu cylch a chanu penillion yn ogystal â gwneuthurwyr telynau teires, gwersi offerynnol a chystadlaethau canu telyn yn cael eu cynnal.<sup>23</sup> Yn ddios, hon oedd un o ganolfannau mwyaf cefnogol maes cerddoriaeth frodorol Cymru'r cyfnod ac un o drysorfeydd cyfoethocaf y bywyd gwerin Cymreig yr oes, a man delfrydol i gyflawni gwaith maes. Yng nghanol y fath gyfoeth diwylliannol, fe lwyddodd Trebitsch i gywain cyfanswm o bum silinder o gerddoriaeth (10 munud o gerddoriaeth yn unig), sef datganiadau gan Dafydd Roberts 'Telynor Mawddwy', fu'n athro canu penillion ac yn un o delynorion swyddogol Llys Llanofer o 1900 hyd at 1909.<sup>24</sup> Ymhlith y recordiadau hyn o gerddoriaeth, fe geir perfformiad o'r gainc 'Clychau Aberdyfi',<sup>25</sup> 'Rhif Wyth', 'Pen Rhaw', ambell i jig Gymreig, dwy emyn-dôn ('Crugybar' a 'Sandon')<sup>26</sup> y naill yn alaw Gymreig a'r llall yn waith y cyfansoddwr emyn-donau o Loegr, C. H. Purday (1799–1885) i'r geiriau cyfarwydd 'Lead Kindly Light'.<sup>27</sup>

Yn anffodus, ni chofnododd Trebitsch ym mha gyd-destun y gwnaethpwyd y recordiadau hyn, nac ychwaith ymateb Dafydd Roberts i'r digwyddiad. Yn yr un modd, byddai'n ddiddorol deall mwy am adwaith y bobl ddaeth ynghyd i glywed y perfformiad y diwrnod hwnnw ym mis Medi 1907 i'r dechnoleg fodern ond ni chofnodwyd dim o sylwadau yr un ohonynt i'r ffonograff. Y cyfan geir yn nyddiadur Trebitsch i gofio'r achlysur hwn yw enw'r telynor, ei fan geni, enw man geni ei dad, teitlau'r darnau

berfformiwyd ganddo (mewn Cymraeg ac Almaeneg) a lleoliad y recordiad. Dim mwy, ysywaeth. Cyn gadael Llys Llanofar y bore canlynol, derbyniodd Trebitsch lun ffotograff o'r delynores Susannah Berrington Griffith-Richards ('Pencerddes y De')<sup>28</sup> yn ei gwisg Gymreig a'i het fain silc, yn pwyso'n osgeiddig ar grib ei thelyn deires (o wneuthuriad Bassett Jones, Caerdydd, mae'n siwr). Nid llun Dafydd Roberts, yr un a fu'n ymlafnio i recordio'r eitemau, ond llun o delynores teulu Llanofar a chyd-weithiwr i 'Delynor Mawddwy', sy'n peri i ni gwestiynu beth oedd ei chyfraniad hi i ddigwyddiadau'r dydd. Yn ogystal, mae'n dristwch na chofnododd Rudolf Trebitsch enghreifftiau o ganu traddodiadol Cymru'r cyfnod, fel y gwnaed ganddo yn Iwerddon, yn yr Alban ac yn Llydaw.



*Dafydd Roberts 'Telynor Mawddwy', 1875–1956; awdur Cainc y Delyn a pherfformiwr cyson ar draeth y Bermo. (Cymdeithas Cerdd Dant Cymru a Golygydd Allwedd y Tannau.)*

I wrandawyr heddiw sydd wedi hen gyfarwyddo ag ansawdd cryno-ddisgiau digidol, seiniau glân systemau *DOLBY* a dulliau darlledu *stereo*, mae sain y recordiadau ffonograff cynnar hyn yn taro'r glust yn wichlyd a fflat ac yn llawn synau cefndir a'r hisian di-ben-draw sydd i'w glywed (yn ei ddehongliad o 'Ymdeithgan Gwŷr Harlech')<sup>29</sup> yn enwedig, a gofnodwyd yn ystod ei ymweliad cyntaf â Chymru ym 1907) sy'n tarfu ar yr hyn sydd o ddiddordeb penodol i ni ac sydd efallai yn arwydd o'i ddifffyg profiad yn ymdrin â'r cyfarpar bryd hynny.



Rhaid cofio bod silindrau ffonograff Trebitsch ymhlith y recordiadau cynharaf o gerddoriaeth werin unrhyw un o'r gwledydd Celtaidd sydd ar gael heddiw, er fod Trebitsch yn ymwybodol iawn fod ganddo ragflaenwyr fu'n weithgar iawn ym maes ethnoleg – e.e. fe fu Syr John Rhys yn casglu deunydd tafodieithol ar Ynys Manaw rhwng 1886 a 1893,<sup>30</sup> ond ar ffurf ysgrifenedig yn unig ac heb gymorth peiriant y bu ef yn cofnodi. Defnyddiodd Trebitsch fodd bynnag, ffonograff o wneuthuriad Edison trwy gydol ei ymweliadau ag Iwerddon, Cymru a Gwlad y Basque ac er fod y cyfarpar yn fawr, yn drwm a'r silindrau yn ddrud ac yn para am gwta dwy funud yr un, mae'n amlwg ei fod wedi mabwysiadu dull a thechneg casglu penodol fu'n ddigon llwyddiannus trwy gydol ei yrfa yn y maes. Fel yr ysgrifennodd yn ei ddyddiadur, dyma oedd y broses a ddefnyddiodd i gywain deunydd:

1. trafod y cyflwyniad gyda'r sawl a oedd yn cael ei recordio
2. ysgrifennu ei nodiadau yn ei ddyddiadur gwaith-maes. (Galwai Trebitsch y rhain yn *protocols*)
3. yn olaf, byddai'n recordio – ond oherwydd cyfyngiadau amser a hyd y silindrau ffonograff, nid oedd modd i Dafydd Roberts 'Telynor Mawddwy' a'i debyg berfformio'r darn cyfan, sy'n peri fod yr hyn y mae Trebitsch yn cofnodi yn ei ddyddiadur a'r hyn sydd wedi ei ddiogelu ar y silinder, yn wahanol a braidd yn gamarweiniol.

Ym mis Tachwedd 1908 y daeth y ffonograff yn rhan o weithgaredd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, a hynny nid oherwydd dylanwad Rudolf Trebitsch, Lucy Broadwood, Annie Gilchrist nac arweinwyr y Gymdeithas Alawon Gwerin yn Lloegr ond oherwydd diddordeb technegol Llywydd y Gymdeithas yng Nghymru bryd hynny, Syr William Henry Preece (Caernarfon)<sup>31</sup> a'i gyswllt agos ef â'r dyfeisiwr Thomas Edison.

Fel yr adroddodd un o ohebwyr *The North Wales Chronicle* wrth amlinellu hanes sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1910:

In 1877 ... Sir William Preece (President of the Welsh Folk Song Society) was on a visit to the great inventor Edison, who in the course of conversation gave him an outline of his then latest idea which has since crystallised in the popular telephone. The idea of enabling the voice to annihilate space was startling. Sir William Preece turned to his friend and said: 'Edison, if what you say is true, then the human voice can be reproduced'

Edison made no reply. A month later on his return home, Sir William received from Edison the first phonograph ever seen in this country. It was this instrument, suggested by a casual conversation between the Welsh and the American inventor that rendered it possible now to accurately record from the mouths of peasants the folk songs which only they knew.<sup>32</sup>

Yn y man, roedd Preece yn danfon gair at L. D. Jones 'Llew Tegid' ym Mangor, yn ei wahodd i'w gartref ym Mhenrhos (Caernarfon) i weld y teclyn ar waith:

The Phonograph is here, and is in working order, and I should like you very much to bring [J.] Lloyd Williams and any one else here on Tuesday, either to lunch or to dinner. I can send you back in the car.<sup>33</sup>

Rhodd William Preece i aelodau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru oedd y ffonograff cyntaf hwnnw – arwydd fod yr arbenigwr telathrebu o Gaernarfon yn awyddus i weld y dull mwyaf cyfoes o gofnodi alawon yn cael ei ddefnyddio gan gyw-gasglyddion y Gymdeithas a hynny o'r cychwyn cyntaf.<sup>34</sup> Dyma fel y cyfeiriodd un awdur di-enw at uchafbwyntiau 1909 yn rhifyn cyntaf y *Cylchgrawn*:

The Society has been given a phonograph by the President, [Sir William Preece] and Mr. John Mahler has authorized the Council to purchase a similar instrument for the Society's use in recording folk-songs.<sup>35</sup>



*Syr William Henry Preece (1834–1913), Caernarfon, Llywydd cyntaf Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.*

(Darlun gan Beatrice Bright, 1899. The Science Museum, Llundain)

Fel aelod anrhydeddus o Gyngor Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ac aelod o'r Gymdeithas Alawon Gwerin yn Lloegr hefyd, roedd John Mahler, o Frongarth ger Croesoswallt, eisoes yn ymwybodol o'r manteision o ddefnyddio peiriant o'r fath. Nid bychanu cyfraniad rhai fel John Morris (Blaenau Ffestiniog) ac aelodau'r Canorion oedd ei fwriad,<sup>36</sup> ond roedd ei gyswllt â rhai fel Cecil Sharp, Frank Kitson yn Lloegr a thystiolaeth y *Folk Song Journal* wedi hen ddarbwyllw Mahler y dylai'r Gymdeithas yng Nghymru fabwysiadu'r un dulliau a throedio'r un llwybrau, a hynny ar fyrder. Yn ogystal, gwnaethpwyd apêl daer gan J. Lloyd Williams yn 1909 am fwy o gasglyddion canu llafar gwlad i ysgwyddo'r baich yng Nghymru ac fe ystyrid y ffonograff gan rai yn gymorth i gwrdd â'r gofyn hwnnw.

Erthygl Alfred Daniell yn rhifyn cyntaf *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, fodd bynnag, roddodd y sylw cynharaf i bwysigrwydd casglu a chofnodi cywir a manwl.<sup>37</sup> Honnai Daniell, fod diffyg profiad aelodau'r Gymdeithas yr adeg honno yn sicr o beri anawsterau a thrafferthion dybryd iddynt yn y gwaith anodd o gofnodi alawon ar bapur, '[and] a risk of making inaccurate records in regard to some, at any rate, of the more characteristic specimens of traditional Welsh melody.'<sup>38</sup>

Roedd yn gwbl argyhoeddiedig nad oedd nodiant erwydd nac hyd yn oed sol-ffa yn ddigonol i ateb holl anghenion caneuon brodorol Cymru'r cyfnod, yn enwedig yr alawon hynny a oedd yn cynnwys graddau anghyffredin ac anghyfarwydd, 'and the 'out of tune' character of some traditional airs might well be lost ... in such a case, there is nothing for it but to obtain a phonographic record [of it].'<sup>39</sup>

Gofid Alfred Daniell hefyd oedd y byddai aelodau cynnar CAGC yn eu hanwybodaeth yn camddehongli dulliau lled-anghonfensiynol y Cymry o ganu a chyflwyno'u caneuon gwerin ac y byddai ambell i gasglwr wrth gofnodi alaw ar bapur yn fwy tueddol o newid a diweddarau'r cynnyrch yn hytrach na chofnodi'r traddodiad yn y dull mwyaf cywir:

The collector should absolutely clear out of his mind all idea that the singer whose intervals seem to be strange is necessarily singing 'out-of-tune'. He may be singing quite true to his own tradition and then it may be necessary to obtain the assistance of a phonograph in order to record that tradition with accuracy.<sup>40</sup>

Heb gymorth technegol y ffonograff a'r gallu i ailchwarae ac ailglywed perfformiadau o ganeuon gwerin Cymreig gan ddatgeiniaid y cyfnod, rhagwelai Daniell y byddai'r hen ddulliau brodorol o ganu yn mynd yng angof:

I earnestly hope that before singing in quarter-tone intervals dies out, all singing of that class will be carefully recorded by means of the phonograph, and we can dispute afterwards as to how such intervals as are recorded should be written down on paper, and what the relations and origins of such a scale may be.<sup>41</sup>

Ymateb digon llugoer i'r argymhellion hyn gafwyd gan J. Lloyd Williams ar dudalennau'r rhifyn cyntaf o *Gylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*. 'Interesting remarks upon the tonality of some of the old tunes will, we hope, induce the student of Welsh folk music to pay more attention to this aspect of the subject.'<sup>42</sup> Anwybyddu byrdwn pennaf Daniell wnaeth Lloyd Williams. Y ffonograff, a'r ffonograff yn unig oedd y cyfrwng mwyaf addas i gofnodi alawon y cyfnod ym marn Daniell, ac roedd galw am gasglyddion a hynny ar fyrder, i fynd a chofnodi deunydd cerddorol cyn bod olion y canu cynnar yn diflannu'n llwyr o'r tir. Yn wir, nid yw golygydd y *Cylchgrawn* hyd yn oed yn cyfeirio at gyfraniad y ffonograff yn un o'i 'Adroddiadau Blynnyddol' nac yn ei 'Editor's Note' yng nghyfrwl I, II na III o *Gylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* rhwng 1909 a 1941,<sup>43</sup> sy'n awgrym lled-bendant ei fod ef fel casglwr ac arweinydd y Gymdeithas yn amharod i dderbyn na chydabod gwerth yr offeryn, na'i bwysigrwydd yn y maes. Byddai J. Lloyd Williams yn dueddol o wahodd Cymry'r cyfnod i ddanfôn alawon ato drwy'r post gan fod hyn, yn ei dŷb ef, yn ddull mwy effeithiol a chyflymach o gasglu deunydd. Pan gyhoeddwyd yr erthygl 'Hints to Collectors'<sup>44</sup> yn ail rifyn y *Cylchgrawn* yn 1910 hyd yn oed, rhoddir y sylw ar gasglu a chofnodi alawon gwerin ar bapur 'in either notation', heb grybwyll y gair ffonograff. Ond er gwaethaf hwyrfrydedd J. Lloyd Williams a'i arafwch yn croesawi'r dechnoleg newydd i blith aelodau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, mae'n amlwg y cafodd y ffonograff ddebnyiad gan o leiaf bedwar o'r aelodau cynharaf – unigolion ddaeth yn y man yn gasglyddion brwd a chefnogol i'r achos. Rosaleen Graves (merch Alfred Perceval Graves – y Gwyddel a ymgartrefodd yn Llŷn ac un o sylfaenwyr Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru), Mary Davies (Llundain), Ruth Herbert Lewis (Penucha, Caerwys) a Grace Gwyneddion Davies

(Graianfryn, Llanwnda ger Caernarfon) oedd yr aelodau hynny ac o ddarllen eu nodiadau personol, yr ohebiaeth fu rhyngddynt a chofnodion Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y blynyddoedd rhwng 1908 a 1929, mae'n amlwg fod y ffonograff wedi dylanwadu arnynt ac wedi chwarae rhan allweddol-bwysig yn eu profiadau hwy yn y cyfnod cynnar hwn yn hanes y Gymdeithas.<sup>45</sup>

Heb ffonograff, roedd yr anfanteision yn siwr o godi: 'It is difficult to get a clear idea from the written note and the words of the curious effect of the melody when sung.'<sup>46</sup> oedd sylw J. Lloyd Williams am un fersiwn ysgrifenedig o'r gân 'Yr Hen Ŵr Mwyn', ond rhaid cofio fod gan y cerddor hwnnw o'r Garn ddawn gynhenid i gofnodi alaw ar bapur. Roedd yn gasglwr greddfol, yn meddu ar glust fain ac yn ddigon abl i wahaniaethu rhwng fersiynau amrywiol o'r alawon Cymreig yn ogystal â sylwi ar fanion cerddorol y naill fodd a'r llall,<sup>47</sup> fel y tystia ei nodiadau a'i drawsysgrifiadau yn rhifynnau cynnar y *Cylchgrawn* a hynny, heb gymorth ffonograff nag ymrraeth unrhyw ddyfais fecanyddol. Ond eithriad, yn ddios, oedd Lloyd Williams.

Ffonograff Edison 'Gem'<sup>48</sup> brynwyd gan Syr William Preece at ddefnydd aelodau'r Gymdeithas ym 1908 – y rhataf o'r holl fodolau masnachol oedd ar werth yr adeg honno a Mary Davies gafodd y fraint o'i ddefnyddio yn y blynyddoedd cynnar hynny. Wedi i Ruth Herbert Lewis ymuno â'r Gymdeithas ym 1908 ac ymddiddori yn y gwaith, mentrodd hithau hefyd i brynu peiriant Edison 'Gem' Model D at ei defnydd hi ei hun.<sup>49</sup> Fel y cyfeiriodd Kitty Idwal Jones mewn erthygl flynyddoedd lawer yn ddiweddarach:

So mother bought one too and brought it down to Caerwys in the summer of 1910. She tried it out on us children and our friends & we had a hilarious time recording our voices.<sup>50</sup>

Fel y tystia'r silindrau ffonograff gwreiddiol a oroesodd i'n cyfnod ni, nid cofnodi alawon prin y traddodiad Cymreig yn unig wnaeth teulu Penucha, Caerwys ond fe ddefnyddiwyd y peiriant yn achlysurol i recordio perfformiadau o 'Mae hen wlad fy nhadau', emyn-donau Cymreig, eitemau o oratorio'r *Meseia* a chaneuon Saesneg cyfarwydd y dydd.

I Mary Davies a Ruth Lewis, roedd y ffonograff yn declyn eithriadol o werthfawr i sicrhau fod y gwaith o gasglu alawon yn cael ei gyflawni'n gyflym ond yn effeithiol ac er fod y ddwy ohonynt yn rhydd o ofalon cadw



tŷ, roedd ymrwymïadau a diddordebau eraill y tu hwnt i weithgaredd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn hawlio'u hamser o bryd i'w gilydd, fel yr awgryma tystiolaeth Ruth Lewis am ei phrofiadau casglu mewn un ardal o Sir Ddinbych:

Last winter [1911] I went to Henllan + had arranged for a very good singer to meet me there He didn't turn up till 3 o'clock + then it was snowing very fast. I had 4 children with me + an open carriage + I had to scuffle 4 records + then depart – torn in two by my duty as a parent + as a collector.<sup>51</sup>

Nid galwadau eraill ond y tywydd yn y cyswllt hwn fu'r achos iddi brysuro i gwblhau'r gwaith casglu yn Henllan. Ond roedd gan Ruth Lewis reswm arall, un cwbl ddilys, dros ddefnyddio'r ffonograff. Fel y cyfaddefodd mewn gohebiaeth at gyfeilles yn Ne Affrica ym 1940: 'I knew little of music ... but was very fond of a good tune, which could be easily sung and the [folk] songs appealed to me.'<sup>52</sup>

Yn yr un modd, wrth adrodd hanes ei mam flynyddoedd yn ddiweddarach, dywed Kitty Idwal Jones: 'mother was not conversant with either tonic sol-fa or old notation.'<sup>53</sup>

Yn wyneb anallu Ruth Lewis, roedd y 'sain-drysorydd' yn gyfrwng hwylus iddi sicrhau cofnod o'r perfformïadau er mwyn i rywun mwy cerddorol a phrofiadol i drawsodi'r deunydd ar bapur.<sup>54</sup> Yn ôl ei thystiolaeth hi ei hun, Morfydd Llwyn Owen a Grace Gwyneddon Davies gafodd y fraint o drosglwyddo'r recordïadau wnaethpwyd ganddi ar bapur cyn iddi eu cyhoeddi yn ei chasgliadau o alawon gwerin Sir Fflint a Dyffryn Clwyd.<sup>55</sup> Yn yr un modd, gwynebai Mary Davies anawsterau deall cymhlethdodau'r iaith Gymraeg, yn enwedig y geiriau tafodieithol a'r cystrawennau anghyfarwydd fyddai'n ymddangos o bryd i'w gilydd mewn caneuon llafar gwlad. Iddynt ill dwy felly, roedd y ffonograff yn gynhorthwy parod, pan fyddai gwir angen cymorth arnynt ond eto i gyd, ni allai'r offeryn ragori mewn unrhyw fodd ar allu cynhenid y cerddor hyfforddedig.

I raddau, roedd y ffonograff yn gyfrwng i wneud iawn am ddiffyg profiad y casglyddion hyn yn y maes yn ogystal â bod yn fodd o oresgyn gwendidau ieithyddol a cherddorol ddeuai'n fwy amlwg wrth i'r Gymdeithas fynd o nerth i nerth. Ond roedd Grace Gwyneddon, Mary Davies a Ruth Lewis hefyd ymhlith carfan ddethol o wragedd ledled Ynysoedd Prydain a'r Unol Daleithiau ar droad yr ugeinfed ganrif a oedd yn barod i fentro i'r maes a



hynny'n groes i ddisgwyliadau cymdeithas yr adeg honno. Er nad oedd yr un ohonynt yn ystyried bod eu cyfraniad yn arloesol, roedd troedio unigeddau Môn a chefn gwlad Dyffryn Clwyd yn gyfle i ddianc o undonedd bywyd y cartref – a hwnnw'n gyfle rhy dda i'w golli. Yn ogystal, roeddynt yn effro iawn i anghenion cymdeithas bryd hynny, ac roedd diogelu alawon rhag mynd i ddifancoll drwy gyfrwng y ffonograff yn fynegiant o'u hawdd i gynorthwyo cymunedau'r cyfnod hwnnw. Ni chafodd yr un ohonynt hyfforddiant sut i gyflawni gwaith maes mewn ysgol na choleg, ond fe ddaeth y tair ohonynt yn y man yn ddigon hyderus yn y dull o fynd i'r afael â'r dasg, a hynny er gwaethaf gwrthwynebiad rhai o'r cymeriadau cefn gwlad y deuent ar eu traws e.e. wrth gasglu ym Mhentrefoles, cyhuddwyd Ruth Lewis ar gam o ddwyn trol dau ffermwr lleol,<sup>56</sup> a phan oedd Mary Davies ac Annie Ellis ar ymweliad â Sir Geredigion yn 1910, cyfeirwyd atynt fel gwerthwyr periannau gwnïo gan rai o'r trigolion lleol. Nid syndod felly, fod cantorion traddodiadol Cymru'r cyfnod yn ymateb drwy fynegi ofn, swildod a phryder ynghylch yr anghenfil o beiriant a oedd yno i 'gofnodi eu caneuon' yn ôl rhai (ond i 'ddwyn eu heneidiau', yn nhŷb eraill). Styfnigrwydd a gwargaledwch noeth gafwyd gan Jane Williams yn Wyrwys Treffynnon yn 1911 pan alwodd Ruth Lewis a Dora Herbert Jones arni:

There she was, sitting in bed ... thin, rather gaunt + quite tall, + with a very decided personality. She was over 80, couldn't read or write + was most certainly not going to be bamboozled into doing anything if she didn't feel like. And singing folksongs into a phonograph was not part of her wishes that afternoon.<sup>57</sup>

Profodd rhai o arweinwyr y Gymdeithas Alawon Gwerin yn Lloegr yr un gwrthodiad a'r un hwyrfyredd ar rai o'u teithiau casglu hwythau hefyd. Yng Nghymru, fel yn ardaloedd eraill o Brydain, roedd yr offeryn yn amharu ar natur anffurfiol cyflwyniadau rhai o'r cantorion hyn ac yn peri bod rhai yn rhy nerfus ac eraill yn teimlo'n rhy chwithig ac annifyr i lwyddo. Fel y disgrifiodd Mary Davies un o'i phrofiadau cynnar yn casglu alawon yn ardal Aberystwyth, 'His first attempt failed dismally – He forgot his words, pitched his song too high, and sang much faster than usual.'<sup>58</sup> Nid y profiad o ganu'n gyhoeddus ond o ganu i berfeddion y ffonograff ac effaith yr offeryn ar gyflwyniad yr hen ŵr oedd hyn – i'r graddau, y gallai'r peiriant fod yn faen tramgwydd i rai ac ar brydiau, yn rhwystr i'r casglwr hefyd i sicrhau recordiad da.

Mynnai Cecil Sharp yn Lloegr, gofnodi alaw ar bapur yn gyntaf, cyn dychwelyd at y canwr i'w recordio ar ffonograff yn y dyfodol, a hynny er mwyn sicrhau cofnod parhaol o'r perfformiad ac er mwyn gallu cymharu'r naill fersiwn a'r llall. Ond mae'n amlwg nad dyna oedd y dull o weithredu ymhlith casglyddion Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Iddynt hwy, un cyfle'n unig roddwyd i'r cantorion. Fel y disgrifiodd Ruth Lewis ei phrofiad yng nghartref James Thomas ym Mhencader ger Llandysul – rhwng sgwrs a phaned y deuai'r caneuon i olau dydd, heb unrhyw gyfeiriad at gyfweiliad ffurfiol nac hyd yn oed at gofnod ar bapur:

James sang one song – I think 'Cân yr Asyn' where the ass is buried with the promise of 'pedolau newydd' (new shoes) in the next world. That was all he had. So we started tea. Just then he remembered 'Cwn Hela' [sic] a delightful tune to an early 17th century ballad ... Of course, I had to rush to the instrument. More tea and attractive conversation between Annie Ellis and James Thomas. Then 'Dacw, dacw fuwch'.<sup>50</sup>

Fel casglwr profiadol, byddai Dr J. Lloyd Williams wedi cymeradwyo dull mwy ffurfiol o gofnodi, ac mae'n bur debyg y byddai wedi dilyn canllawiau Cecil Sharp a nodi'r alaw ar bapur yn gyntaf. Rhaid cofio hefyd, ei fod ef ac ambell aelod arall o'r Gymdeithas yng Nghymru'r adeg honno, wedi codi rhai alawon ar hap e.e. clywodd W.O. Jones (Merthyr) fersiwn o 'Ceinion Conwy' ar y stryd ym Mhontypridd a chofnododd hi yn y man a'r lle;<sup>60</sup> yn yr un modd, casglodd J. Lloyd Williams nifer o alawon wrth deithio ar y trên i Gricieth,<sup>61</sup> lle nad oedd cyfle na modd defnyddio peiriant. Ond roedd y rhai a oedd yn bleidiol i'r ffonograff ac yn ddibynnol arno, yn gorfod trefnu taith gasglu fwriadol (e.e. Mary Davies yn teithio'n unswydd i'r Eglwys Newydd i recordio 'Dacw 'nghariad i lawr yn y berllan' neu Grace Gwynedd Davies yn mentro i Ddwyran yn arbennig i gael cofnod o Owen Parry yn perfformio 'Cob Malltraeth').<sup>62</sup> Yr unig esiampl o gasglu alawon gwerin ar hap drwy gyfrwng y ffonograff y cyfeirir ato yn y *Cylchgrawn*, yw'r hyn a brofodd Mary Davies wedi iddi feirniadu yn eisteddfod Llangeitho yn 1910. Tra yno, fe lwyddodd i gofnodi ambell i gân drwy wahodd rhai o gystadleuwyr yr unawd canu gwerin yn ôl i gartref Annie Davies a J. Humphreys Davies yn y Cwrt Mawr (Llangeitho) a'u recordio yno.<sup>63</sup>

Ond roedd ffonograff Edison Gem 'Model D', Ruth Herbert Lewis yn fach o ran ei faint, o'i gymharu â'r fersiwn brototeip ddefnyddiwyd gan Rudolf

Trebitch ym 1907, ond er hynny, roedd yr anhawster a'r trafferth o lusgo teclyn mor lletchwith â hwn i'r anialdir uwchlaw Tregaron yn gofyn am gryn ymroddiad, egni a dyfalbarhad. Fel y cyfaddefodd Mary Davies mewn llythyr at J. Lloyd Williams yn fuan wedi'r digwyddiad:

Mrs. Ellis and I drove into the uplands and tried to get some songs from an old chap who has been in and out of prison most of his life for drink (nothing else). He is now 84 and has turned over a new leaf.

We were told he has some good songs as he had been a ballad singer in his early youth ... It was a drizzling day and we had some difficulty in crossing some boggy-looking fields especially as Mrs. Ellis and Mr. Jones (a local schoolmaster) were carrying the phonograph. It was quite impossible to drive to the hut. We arrived at the 'bwthyn' where a peat fire burnt at one end and a very black kettle hung over it and the smell of the peat acted as an excellent disinfectant ...

But oh! the dirty muddle inside was awful.

.....

I got some very imperfect records. If only I could have got the phonograph on, unawares to him. I should have secured an excellent specimen of the 'hwyl' for he began by preaching to us and his 'hwyl' was fine.<sup>64</sup>

Nid syndod fod y casglyddion ffonograffig hyn yn gwbl ddibynnol ar gymorth a nerth braich rhai o'r trigolion lleol. Pan aeth Ruth Herbert Lewis i Landysul ym mis Mehefin 1913, roedd gofyn cael ceffyl a chert, gyrrwr yn ogystal â chymorth Mary Hughes i'w tywys o amgylch y fro.<sup>65</sup> Tra mai Eben Jones (y gyrrwr) oedd yn gyfrifol am ddwyn y peiriant i'r tŷ, Mary Hughes fyddai'n cymell yr unigolyn i ganu ac yn ceisio creu'r awyrgylch briodol, a chofnodi'r geiriau ar bapur, tra byddai Ruth Lewis ei hun yn gosod y silindr yn ei le ac yn troi'r ddolen i gynnu'r peiriant. Dyna fyddai'r drefn gan amlaf, ond ar rai adegau fe wynebwyd rhwystrau ychwanegol:

I shall never forget that kitchen in a hurry; there were two doors, one into the garden and the other into the house. James sat between them so that whenever anyone came for bread, which happened very often, Mrs. Lewis had to steer her way through the chairs and us and the old man and phonograph to the parlour, where the bread seemed to live.<sup>66</sup>

Yn yr un modd, deuai sŵn plant y tŷ, symud cadeiriau ac atsain y clociau ar lawr i darfu, nid yn unig ar y cyfweliad ond ar safon recordiad y

ffonograff. Yn wyneb diffyg cofnod ysgrifenedig ar yr achlysur hwnnw, mae'n dra thebygol mai dim ond wedi i Ruth Lewis gyrraedd gartref y deuai'r siom o sylweddoli nad oedd yr helfa mor llwyddiannus â'r hyn a ddisgwyd.

Anhawster technegol o fath gwahanol wynebodd Grace Gwyneddon Davies wedi iddi gyfsweld Owain Parry yn Nwyran a recordio'r gân 'Y Gangen Wen ei gwawr', fel yr adroddodd yn rhifyn 1919 o'r *Cylchgrawn*:

I recorded a very graceful form of the air ['Y Gangen Wen ei gwawr'] from the singing of Mr. Owen Parry, Dwyran – but as the phonograph is *hors de combat* for the moment, I am unable to complete transcribing it.<sup>67</sup>

Er hwylused y dechnoleg fodern, mi fyddai dull dibynadwy J. Lloyd Williams o gofnodi ar bapur ynghyd â'r her o gael arfer ei ddawn a'i allu, yn llawer mwy derbyniol ac effeithiol yn y cyswllt hwnnw.<sup>68</sup> Mae disgrifiad y bardd Robert Graves o brofiadau ei chwaer, Rosaleen, o gasglu alawon Cymreig gyda chymorth ffonograff yn ardal Harlech yn dyst o'r defnydd gwaethaf posib o'r dechnoleg:

I used to go with my sister through the hill country behind Harlech; we had one of those wax phonographs and used it to collect Welsh folk songs. Unfortunately, those were the days before cassettes and other instruments. All we had was the phonograph and my sister, who was a musician, would note down what we had recorded – and then we had to rewax the cylinder. We had only one cylinder. It was a great pity because we lost the actual singing voices of the people. Nowadays, when you collect folk-songs, you get the actual singing voice, and that's important. You get all the gracenotes.<sup>69</sup>

Yn dilyn ymdrechion Rosaleen Graves yn y maes, fe ddaeth yr hwiangerdd 'Tali, tali' i sylw darllenwyr *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*<sup>70</sup> ond fel y cyfeirir uchod, ni chadwyd y recordiadau gwreiddiol ac aeth lleisiau'r cantorion cynnar ynghyd â'u dehongliadau o'r caneuon gwerin berfformiwyd ganddynt yn angof.

Un egwyddor sylfaenol nas clywir ar silindrau ffonograff Ruth Herbert Lewis (a rhaid cofio bod 69 ohonynt wedi goroesi)<sup>71</sup> yw'r diffyg defnydd o fforch draw ar ddechrau pob recordiad, er mwyn sefydlu'r nodyn 'A' (440 Hz) cyn i'r canwr ganu. Fe fyddai hyn wedi galluogi'r sawl a oedd yn trawsodi'r

alaw ar bapur i ddarganfod y tonydd cywir a chofnodi pob hapnodyn ac addurn cerddorol yn ogystal. Mi fyddai hyn hefyd wedi galluogi cerddorion heddiw, bron i ganrif yn ddiweddarach, i wrando ac ail wrando ar yr alawon yn cael eu perfformio yn union fel y clywid hwy y tro cyntaf. Arwydd pellach o ddiffyg profiad ac anwybodaeth gerddorol Ruth Lewis yn y maes yw hyn – eto i gyd, dyma'r casgliad mwyaf o alawon Cymreig ar silindrau ffonograff o gyfnod cynharaf Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.<sup>72</sup>

Awgrymwyd gan rai o selogion y Gymdeithas Alawon Gwerin yn Lloegr – Annie Gilchrist a Cecil Sharp yn eu plith – nad oedd y ffonograff, er pwysiced ei gyfraniad i'r maes, yn gwbl ddibynadwy ar bob achlysur. Cyfeiriwyd yn enwedig at y ffaith nad oedd y peiriant yn llwyddo i wahaniaethu rhwng canu distaw (*pianissimo*, *piano*, *mezzo piano*) a chanu cryf (*mezzo forte*, *forte*, *fortissimo*) a bod ystod y deinameg ar bob recordiad silindr yn debyg iawn i'w gilydd, heb fawr ddim amrywiaeth. Pe digwyddai'r canwr neu'r gantores floeddio nodyn neu gymal, efallai'n anfwriadol, neu hyd yn oed wrth ymdrechu i gyrraedd nodyn uchel, tueddai'r peiriant i ymateb drwy gyfrwng gwich aflafar ar y silindr. Wrth i'r casglyddion yng Nghymru ddod yn fwy cyfarwydd â chyfyngiadau'r ffonograff, mae'n rhaid eu bod wedi egluro i'w cantorion fod gofyn iddynt reoli'u hadnoddau lleisiol er mwyn sicrhau recordiad 'glân' a chanlyniad hynny oedd i rai perfformwyr gadw lled-braich o'r offeryn ac i eraill dymheru rhywfaint ar eu sêl a'u harddeliad wrth gyflwyno'u *repertoire*.<sup>73</sup> Adlewyrchir hyn ar dudalennau *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* lle gwelir nad oes yr un cyfeiriad at *dempo* nac at gryfder sain (*crescendo* a *diminuendo*, *ritardando* na *ritenuto*), sy'n brawf mai ystyriaeth eilradd oedd y cyfarwyddiadau perfformio hyn i'r Golygydd, J. Lloyd Williams ac i'r casglyddion cynnar ac nad oedd galw am drawsnodiant gorfawr ychwaith.<sup>74</sup> Yn hytrach, cofnod cywir, cysact o'r hyn fyddai'n ddealladwy ac yn ddefnyddiol i'r cerddor amatur oedd ei angen, a hynny er mwyn denu datgeiniad newydd i'r maes ac i sicrhau fod y traddodiad yn ailgydio yng Nghymru.<sup>75</sup> O gymharu'r alawon Cymreig gasglwyd drwy gyfrwng y ffonograff a'r deunydd ddaeth i ddwylo'r golygydd drwy gyfrwng dulliau eraill, sylwir nad oes unrhyw wahaniaeth yn y dull ddefnyddiwyd i'w cyhoeddi ar dudalennau'r *Cylchgrawn*. Mae'r nodiant yn union yr un peth ac mae'r modd y cyflwynwyd hwy i ddarllenwyr y *Cylchgrawn* yn dilyn patrwm yr holl alawon eraill yn ddiethriad. Hwnt ac



yma, nododd J. Lloyd Williams: ‘Mrs. Herbert Lewis has a phonographic record of this air’,<sup>76</sup> neu ‘communicated by Mrs. Mary Davies from a phonograph record of the singing of Mr. H. D. Jones, June 1911’<sup>77</sup> a dyna’i gyd. Ni cheisiodd un o gasglyddion brwdfrydig y Gymdeithas yng Nghymru i efelychu’r hyn wnaeth Percy Grainger yn ei erthygl yn *The Folk Song Journal*, dyddiedig 1908 – sef cynhyrchu trawsnodiant gwyddonol-fanwl gyda chymorth ei silindrau ffonograff o’r alawon a recordiwyd ganddo. Nid oedd diben gwneud hynny yng Nghymru, yn bennaf am fod profiadau a dealltwriaeth gerddorol y werin Gymreig yn llawer rhy gaeth a chyfyng. Ond waeth beth oedd y manteision na’r anfanteision, fe gafodd y ffonograff dderbyniad gwresog gan Mary Davies, Ruth Lewis, Rosaleen Graves a Grace Gwyneddon Davies heb i’r un ohonynt gwestiynu ei effeithiolrwydd na mynegi unrhyw bryder ynghlyn â’r offeryn ar dudalennau’r *Cylchgrawn*. Ar adeg pan oedd galw am gasglyddion ym myd canu gwerin Cymru, bu’r defnydd o’r peiriant hwn yn gaffaeliad mawr i’r pedair ohonynt ac i ambell gymeriad llai adnabyddus ar wasgar yng Nghymru’r adeg honno hefyd.<sup>78</sup> Gyda chymorth y ffonograff cadwyd degau o alawon fu’n sail i chwe chyfrl ddylanwadol yn hanes a thwf y Gymdeithas yn ystod deng mlynedd ar hugain cyntaf ei bodolaeth.<sup>79</sup> Llwyddwyd i gyfnewid deunydd sain rhwng y casglyddion yng Nghymru ag arbenigwyr y Folk Song Society yn Lloegr a deall mwy am ystyr ac arwyddocad y traddodiad Cymreig o fewn cydestun ehangach yn sgil hynny. Eto i gyd, er mor werthfawr a defnyddiol fu’r ffonograff yn y blynyddoedd cynnar hynny, ac er i Edison gael ei ddyrchafu yn ‘dad astudiaethau ethnolegol ym myd cerddoriaeth’ gan y cyfansoddwr Béla Bartók, fe ddaeth y peiriant yn y man yn elyn i’r traddodiad ac yn gyfrwng i danseilio gwerth caneuon llafar gwlad, drwy hyrwyddo cerddoriaeth o fath gwahanol – cerddoriaeth ysgafn, boblogaidd, a chynnyrch y theatrau a’r neuaddau cerdd. Erbyn 20au’r ganrif ddiwethaf, mae’n amlwg nad oedd y ffonograff mewn bri ymhlith aelodau mwyaf blaenllaw y Gymdeithas yng Nghymru a diflannodd y cyfeiriadau prin ato o dudalennau’r *Cylchgrawn* a’r defnydd ohono mewn cyfarfodydd blynyddol, darlithiau cyhoeddus ac yn y maes. Erbyn hynny, fodd bynnag, roedd carfan newydd o gasglyddion wedi codi yng Nghymru, rhai fel Philip Thomas a W. S. Gwynn Williams a oedd yn fwy hyddysg yn y grefft o gofnodi alawon, o bosib oherwydd eu bod wedi derbyn addysg gerddorol ac yn fwy hyderus na’u rhagflaenwyr fu mor barod i arloesi a torri cwys newydd yn enw traddodiad canu gwerin Cymru.



## NODIADAU

- 1 John Parry (Rhiwabon), *Antient British Music* (London, 1742); *A Collection of Welsh, English and Scotch airs, with New Variations, also Four new lessons for the harp or harpsichord* (London, 1761); *British Harmony: Being a collection of ancient Welsh airs, the traditional remains of those originally sung by the bards of Wales, carefully compiled and now first published with some additional variations* (London and Ruabon, 1781).
- 2 Edward Jones 'Bardd y Brenin', *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* (London, 1784), arg. cyntaf.
- 3 Sefydldwyd Cymdeithas Alawon Gwerin Lloegr ym 1898, Cymdeithas Alawon Gwerin Iwerddon ym 1904 a Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru ym 1906.
- 4 Powyson: *Edison – Y Dyfeisydd a'r Darganfyddydd Enwog*, (Caernarfon, ?1909), 42.
- 5 Thomas A. Edison: 'The Phonograph and its Future', *The North American Review*, 126, Rhif 262, Mai–Mehefin, 1878 (Vermont, 1878), 530–6.
- 6 Ystyriai Edison ei fyddardod yn fanteisiol iddo wrth ddatblygu'r ffonograff a'r teleffon. Ymdrechodd i wella ansawdd y sain yn bennaf i ateb ei anghenion ei hun.
- 7 James Francis Cooke, 'A Momentous Musical Meeting', *Étude*, 41, rhif 10, Hydref (1923), 663.
- 8 Erika Brady, *A Spiral Way – How the phonograph Changed Ethnography* (Jackson, Miss., 1999), 27.
- 9 Byddai'r corn yn cyfateb i swyddogaeth y meicroffôn presennol.
- 10 Ym 1877 y dyfeisiodd Edison ei ffonograff cyntaf. Un mlynedd ar bymtheg ar hugain yn ddiweddarach, roedd yn dal i ddatblygu'r offeryn o safbwynt technegol a masnachol.
- 11 Jerome F. Weber: 'Recorded Sound: 2. Acoustic Recording', *The New Grove Dictionary of Music and Musicians*, Cyf., 21 (London and New York, 2001), 8.
- 12 Phonogrammarchiv der Österreichischen Akademie der Wissenschaften.
- 13 Rudolf Trebitsch, 'Phonographische Aufnahmen der irischen Sprache in Irland und einiger Musikinstrumente in Irland und Wales, ausgeführt von Dr. Rudolf Trebitsch im Sommer 1907', *Aph* 45: 27–43.  
Rudolf Trebitsch, 'Phonographische Aufnahmen der bretonischen Sprache und zweier Musikinstrumente in der Bretagne, ausgeführt im Sommer 1908', *Aph* 45: 177–190.
- 14 Rudolf Trebitsch, 'Phonographische Aufnahmen der welschen Sprache in Wales, der Manxschen Sprache auf der Insel Man, der gaelischen Sprache in Schottland und eines Musikinstrumentes in Schottland, ausgeführt im Sommer 1909', *Aph* 46: 156–180.
- 15 Rudolf Trebitsch: 'Fellboote und Felle als Schiffsfahrzeuge und ihre Verbreitung in der Vergangenheit und Gegenwart', (Traethawd Ph.D., Prifysgol Vienna, 1911).
- 16 Fe fu Syr John Rhys yn casglu tafodieithoedd ar Ynys Manaw rhwng 1886 a 1893 ond heb gymorth peiriant ffonograff.
- 17 Recordiodd Rudolf Trebitsch, John David Lewis (Llandysul) yn adrodd 'Stori Shaci'r Gwas' gan Sarnicol ar 23 Gorffennaf, 1909.

- 18 Recordiodd Trebitsch Syr John Morris Jones (Bangor) yn ei gartref yn Llanfairpwll, Ynys Môn ar 28 Awst 1907 yn adrodd detholiad allan o gywydd Goronwy Owen, 'Hiraeth am Fôn'. Dychwelodd ato ar y 31 Gorffennaf 1909 i recordio tair chwedl gyfarwydd ('Y Ffarmwr Anfodlon', 'Chwedl y tin Corn Biff', 'Wil Fain yn Jêl C'narfon'), geiriau'r hwiangerdd 'Mae gin i ebol melyn', detholiad pellach o gywydd Goronwy Owen 'Hiraeth am Fôn' a dwy hen stori ('Y Gog' a 'Y Teiliwr a'r Torrwr Beddi') allan o erthygl Henry Sweet, 'Spoken North Welsh', *Transactions of the Philological Society* (1882–4), 409–84.
- 19 Recordiwyd John Lloyd Williams (52 oed), golygydd *The North Wales Times* yn Ninbych ar 31 Gorffennaf 1909 yn adrodd un o gerddi T. Gwynn Jones allan o'r gyfrol *Gwlad y Gân* (Dinbych, 1902).
- 20 Recordiwyd Owen Morris (69 oed), gwneuthurwr esgidiau o Fachynlleth, ar 27 Mehefin 1909 yn adrodd tair deialog.
- 21 Recordiwyd John Isaac Thomas (45 oed), clustogwr ac awdur o Landysul, ar 23 Gorffennaf 1909 yn adrodd stori 'Twm Silburt'.
- 22 Sefydlwyd y maes gan Nicolai Bessaraboff, Curt Sachs a Deitrich von Hornbostel oddeutu 1913–14.
- 23 Gw. Rachel Ley, *Pendefiges Gerddgar: Arglwyddes Llanofer* (Caernarfon, 2000).
- 24 Recordiwyd cyfanswm o 26 silinder gan Trebitsch yng Nghymru, sef pum silinder o gerddoriaeth ac un ar hugain o eitemau llafar. Recordiodd 22 silinder yn Llydaw, 10 ar Ynys Manaw, 20 yn yr Alban a 26 yn Iwerddon.
- 25 Rhan o drefniant John Thomas ('Pencerdd Gwalia') o'r gainc geir ar y silinder Ph.714.
- 26 Cyfeirir atynt yn ôl enw'r emynau 'O Fryniau Caersalem' a 'Lead Kindly Light'.
- 27 Rhestrir eitemau cerddorol casgliad Rudolf Trebitsch fel a ganlyn:  
 Ph.710 – 'March of the Men of Harlech' (1'32)  
 Ph.711–12 – 'O Fryniau Caersalem', 'Lead Kindly Light' 'The Doxology' (3'05)  
 Ph.714 – 'Clychau Aberdyfi' (1'48)  
 Ph.718, 720 – 'The Welsh Reel', 'Figure of Eight' 'The Three' (2'45)  
 Ph.721 – 'Pen Rhaw' (1'26)
- 28 Sussanah Berrington Griffiths-Richards, 1854–1952. Nodir y dyddiadau hyn yn *The Index to Monumental Inscriptions* a gyhoeddwyd gan The Gwent Family History Society, Cyfrol Eglwys St. Bartholomew (Swyddfa Gofnodion Sir Gwent), 1987.
- 29 Casgliad R. Trebitsch, Rhif silinder ffonograff Ph. 710, 'March of the Men of Harlech', 1'32".
- 30 George Broderick, *A Handbook of Late Spoken Manx*, Cyf. 1 (Tübingen, 1984), 46. Un o siaradwyr Manaweg Trebitsch fu hefyd yn dysgu'r iaith i Syr John Rhys, oedd William Joseph Cain, taid Ruth Cain (Ruth Herbert Lewis, Penucha, Caerwys yn y man).
- 31 Syr William Henry Preece (1834–1913), Caernarfon, Llywydd cyntaf Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Roedd yn gyfaill agos i Faraday, Marconi ac Edison. Ef oedd Prif Drydanwr y Swyddfa Bost, ac yn ôl rhai, gwnaeth fwy o gyfraniad i ddatblygiad y

- teleffon nag Alexander Graham Bell. Cyfeiria L. D. Jones 'Llew Tegid' ato fel, 'a man who always lived in the future', *CCAGC*, Cyf. II, rhan 1 (1914) 66. Gweler hefyd Alwyn R. Owens: 'Telyn a Thelegraff', *Y Gwyddonydd*, Cyf. 32, (Caerdydd, 1996), 4–21.
- 32 Bangor, Archif Prifysgol Cymru, Bangor. Llsg. Bangor 4761, Toriad papur newydd, t. 7.
- 33 Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Correspondence B1, 1905–39. Llythyr oddi wrth Syr William Preece at L. D. Jones 'Llew Tegid' dyddiedig 6 Tachwedd, 1908.
- 34 Roedd Syr William Preece yn aelod o Gymdeithas Alawon Gwerin Lloegr (The Folk Song Society) yn 1908/09 ac yn ymwybodol o weithgaredd a chyhoeddiadau'r gymdeithas honno, gan gynnwys ei chylchgrawn.
- 35 'Report', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. 1, Rhif 1 (Bangor, 1909), 13.
- 36 Gw. John Morris, 'Y Canorion a'r casglu cynnar', *Canu Gwerin*, Cyf. 13 (1990), 5–28.
- 37 Alfred Daniell, 'Remarks on the Tonality of some Welsh melodies', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. 1, Rhif 1 (1909), 51–9.
- 38 Ibid. 51.
- 39 Ibid. 54.
- 40 Ibid. 55.
- 41 Ibid. 56–7.
- 42 J. Lloyd Williams: 'Editor's Note', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. 1, Rhif 1 (1909), 67.
- 43 Wrth olrhain hanes Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yng Nghyrol III, Rhan 2 a 3 o'r *Cylchgrawn*, nid yw J. Lloyd Williams yn crybwyll cyfraniad y ffonograff i'r gweithgarwch cynnar.
- 44 Addasiad o erthygl a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Alawon Gwerin Lloegr oedd yr erthygl hon. Bu J. Lloyd Williams a Lucy Broadwood (Ysgrifenyddes y Gymdeithas yn Lloegr) yn gohebu gryn dipyn ar y mater o gyfnewid deunydd o'r fath.
- 45 Yn 1906 y dechreuodd Percy Grainger ddefnyddio'r ffonograff i gasglu alawon gwerin yn Lloegr. Ef oedd yr aelod cyntaf o Gymdeithas Alawon Gwerin Lloegr i ddefnyddio'r peiriant a chofnododd ffrwyth ei ymchwil mewn ysgrif yn dwyn y teitl 'Collecting with the Phonograph', *Journal of the Folk Song Society*, Number. 12 (1908), 147–69. Gweler hefyd, Michael Yates, 'Percy Grainger and the Impact of the Phonograph', *Folk Music Journal*, Cyf. 4, Rhif 3 (1982), 265–75.
- 46 J. Lloyd Williams, 'Yr Hen ŵr Mwyn', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. 1, Rhif 1 (1909), 81.
- 47 J. Lloyd Williams, *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. 1, Rhif 1 (1909), 39.
- 48 Cynhyrchodd cwmni Edison beiriannau ffonograff ar gyfer y cyhoedd o ganol y 1890au hyd at ddiwedd y 1920au. Enwyd y gwahanol fodelau yn ôl cost a safon y gwneuthuriad,

fel a ganlyn: 'The Gem', 'The Standard', 'The Home' a 'The Triumph'. Ymddangosodd sawl fersiwn o'r Edison 'Gem' o 1899 ymlaen, ac fe'u hadwaenwyd fel 'Model A', 'Model B', 'Model C' a.y.y.b. Defnyddiai'r 'Model D' silindrau 2 a 4 munud o hyd ac o'r herwydd, fe'i galwyd yn *Combination phonograph*. Gwerthwyd y fersiwn hon am \$7.50 (sef £3–50c) yr un. Corn du syml (heb gloch) oedd iddo ond am swm ychwanegol, fe ellid prynu corn mwy addurnedig (a oedd yn rhannu'n ddau er mwyn hwylystod ei gario o'r naill fan i'r llall) ar ei gyfer. Dim ond silindrau 4 munud o hyd y byddai'r Edison 'Gem' 'Model E' yn ei ddefnyddio, fodd bynnag.

- 49 Mae ffonograff Y Fonesig Ruth Herbert Lewis bellach ym meddiant ei hwyres, Mrs Nest Price (Penucha, Caerwys).
- 50 Kitty Idwal Jones, 'Adventures in Folk Song Collecting', *Cerddoriaeth Cymru*, Cyf. 5, Rhif 5, (1977), 33–52.
- 51 Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Llsg. 1999/152, Ffeil 1. Gohebiaeth oddi wrth Ruth Lewis at Amy Preece (Ysgrifenyddes C.A.G.C.), dyddiedig Awst 11eg, 1912.
- 52 Caerdydd, Amgueddfa Werin Cymru (Sain Ffagan), Llsg. 1468/30. Gohebiaeth oddi wrth Ruth Lewis, Penucha, Caerwys at Mrs Evans, Johannesburg, De'r Affrig, dyddiedig 18 Mawrth, 1940.
- 53 Kitty Idwal Jones, op.cit. 37.
- 54 Bu'r gyfansoddwraig Morfydd Llwyn Owen a'r gantores Grace Gwyneddon Davies yn trawsodi deunydd cerddorol ar ei chyfer.
- 55 Ruth Herbert Lewis, *Folk Songs collected in Flintshire and the Vale of Clwyd* (Wrexham, 1914). Ymddangosodd ail gyfrol yn dwyn y teitl *Welsh Folk Songs* (Wrexham, 1934).
- 56 Caerdydd, Amgueddfa Werin Cymru (Sain Ffagan), Llsg. AWC 1270, K. Idwal Jones, 'Folk Song Reminiscences'.
- 57 Caerdydd, Amgueddfa Werin Cymru (Sain Ffagan), Casgliad Dora Herbert Jones, Llsg. AWC 1459/267 (t. 2).
- 58 Aberystwyth, Llsg. LI.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 110), Llythyr oddi wrth Mary Davies at J. Lloyd Williams dyddiedig 4 Mai 1911.
- 59 Kitty Idwal Jones, op. cit. 37.
- 60 *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. I, Rhif 2 (1910), 141.
- 61 *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. I, Rhif 4 (1914), 153.
- 62 *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. II, Rhif 2 (1919), 153.
- 63 *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. I, Rhif 3 (1912), 146–7 a CAGC, Cyf. I, Rhif 4 (1914), 166–7.
- 64 Aberystwyth, Llsg. LI.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 58), Llythyr oddi wrth Mary Davies at J. Lloyd Williams dyddiedig 20.8.1910.
- 65 Athrawes yn Ysgol Ramadeg Llandysul a darlithydd yng Ngholeg Hyfforddi Abertawe oedd Mary Hughes. Priododd â David Lewis, un o feibion Gwasg Gomer (Llandysul) a


- bu'n weithgar iawn ym myd y ddrama yn y gymdogaeth honno.
- 66 Kitty Idwal Jones, op. cit. t. 38.
  - 67 *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. II, Rhif 2 (1919), 122.
  - 68 Ceir un cyfeiriad yn unig at Mary Davies yn cynhyrchu cofnod ysgrifenedig o'r gân 'Wrth Fynd efo Deio i Dywyn' yn 1910 cyn reco. Jio'r alaw ar ffonograff yn 1911, gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. I, Rhif 2 (1910), 132.
  - 69 Robert Graves: 'Where the crakeberries grow – Robert Graves gives an account of himself to Leslie Norris'. <http://www.lib.byu.edu/english/WWI/influence/graves.html> (27.05.04).
  - 70 Gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. II, Rhif 2 (1919), 130.
  - 71 Trosglwyddwyd y 28 recordiad silindr sydd yn Amgueddfa Werin Cymru drwy law Kitty Idwal Jones a Mostyn Lewis (plant Ruth Herbert Lewis) ac mae'n dra thebygol mai'r cyfeillgarwch agos rhwng Ruth Herbert Lewis a Cecil Sharp a Lucy Broadwood barodd i'r 41 silindr sy'n weddill ddod i ddwylo Cymdeithas Alawon Gwerin Lloegr. Cedwir y rhain yn Cecil Sharp House ac yn The National Sound Archive yn Llundain.
  - 72 Er bod cyfeiriad at fodolaeth peiriant ffonograff Mary Davies ynghyd â 72 o'i silindrau yn ystafell y Llyfrgellydd Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, ysywaeth, nid oes golwg ohonynt yn y Coleg bellach.
  - 73 Wrth wrando ar recordiadau maes Ruth Herbert Lewis, mae'n amlwg fod y gytsain 's' yn peri trafferthion technegol ac yn amharu ar ansawdd y sain yn y mwyafrif o silindrau'r cyfnod rhwng 1910 a 1913.
  - 74 Yn ei erthygl 'Collecting with the Phonograph' yn *The Folk Song Journal* (1908) cynhyrchodd Percy Grainger gyfres o drawsodiadau eithriadol o gymhleth sy'n nodi pob manylyn alaw a rhythm yn y caneuon a gasglwyd ganddo. Beirniadwyd ef yn llym gan Sharp, Broadwood a Gilchrist am gynhyrchu trawsodiadau o'r fath ac am nad oedd galw am drawsysgrifiadau o'r fath ymhlith cantorion cyffredin y dydd.
  - 75 Gwelir yr un synlwrwydd yn nhrawsodiannau Kitty Idwal Jones o ganeuon gasglwyd gan ei mam, Ruth Herbert Lewis ac yn llawysgrifau Morfydd Llwyn Owen, Mary Davies a Grace Gwyneddon Davies.
  - 76 'Cân Serch', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. I, Rhif 3 (1912), 131.
  - 77 'Y Saith Rhyfeddod', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. I, Rhif 3 (1912), 145.
  - 78 Cyfeiria Mary Davies mewn llythyr at J. Lloyd Williams dyddiedig 25 Ebrill 1911 ei bod wedi gadael peiriant ffonograff ynghyd â chyflenwad o silindrau gyda Mrs Megan Evans yn y Bermo a chyda Ben Rowlands (y gof yn Llanfair, ger Harlech). Arwydd o boblogrwydd cynyddol yr offeryn yr adeg honno.
  - 79 Ruth Herbert Lewis, *Folk Songs Collected in Flintshire and the Vale of Clwyd* (Wrexham, 1914) a *Welsh Folk Songs* (Wrexham, 1934); W. Hubert Davies a Mary Davies, *Welsh Folk Songs* (Wrexham, 1919); Grace Gwyneddon Davies, *Alawon Gwerin Môn* (Wrexham, 1914 a 1923) a *Chwech o Alawon Gwerin Cymreig* (Wrecsam, 1933).



# SARA WEN

Meredydd Evans

Ar ddydd Sadwrn, 8 Tachwedd 2003, bu Phyllis a minnau'n traddodi dwy ddarlith ar ganeuon gwerin yng Ngŵyl Werin Canolfan William Mathias, Caernarfon. Rhwng y ddwy ddarlith daeth Ann Edwards, Rhuthun, atom a chanu pennill, rhan o gân a gofiai o ganu ei thad, William Williams, Bryn Llefrith, Trawsfynydd, yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Dyma'r alaw (aelod o deulu niferus 'Y Dôn Fechan') a'r pennill:



Ddiwedd yr un flwyddyn cefais lythyr oddi wrth Ann yn cynnwys rhagor o fanylion. Ganwyd ei thad yn 1902 a chofiai ei nain yn canu'r gân pan oedd o'n fachgen bach. Flynyddoedd yn ddiweddarach rhoes gopi o'r geiriau a gofiai i'r canwr grymus a hoffus hwnnw, Elfed Lewis, ond ni wyddai Ann beth a ddigwyddodd iddynt wedyn. [Gallaf dystio, gyda llaw, nad oeddynt ymysg y papurau a'r llyfrau a adawodd Elfed o'i ôl.] O holi ei modryb yn y Bala, Mary Ann Davies, chwaer ei thad, darganfu Ann fod ganddi hi lythyr oddi wrth gyfnither iddi yn Nhywyn yn cynnwys pennill arall o'r gân:

Ond er y syndod mawr ar sywarth ['ysywaeth']

Dyna'r fan bu ei farwolaeth.

Er i'r corff gael yno ei gladdu

'Doedd yr enaid gwaeth er hynny.

Eithr yr wybodaeth fwyaf cynhyrfus a gefais o Ruthun oedd yr hyn a gynhwysir mewn rhan o'r llythyr sy'n haeddu dyfyniad llawn:

Ond fe gofiai fy nhad yn dweud fod y gân yn sôn am yr enaid, a'r cred – sef darn o arian yr arferid ei dorri yn ei hanner fel arwydd o ddyweddio rhwng mab a merch. Byddai y ferch a'r mab yn eu cadw ar

wahân yn y gobaith un dydd o ddod â'r ddau ddarn at ei gilydd pan yn priodi. Os wyf yn cofio'r geiriau yn iawn mae sôn yn y gân am y mab yn gorfod mynd i'r Iwerddon i'r rhyfel. Mae'n cael ei ladd yno ond mae'r enaid yn dal yn fyw ac yn dod yn ôl ar gefn aden gwyfan neu golomen i Gymru, gan guro ar ffenest y llofft lle mae'r ferch yn cysgu; sef wedi dod yn ôl i gyrchu ei gred adre.

Daeth yn amlwg ar unwaith fod y penillion dan sylw yn perthyn i faled, ac addewais i Ann yr awn ar ei thrywydd ymysg casgliad J. H. Davies o faledi'r ddeunawfed ganrif yn y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd 'blas' y ganrif honno ar y stori.

Am amryw resymau, fodd bynnag, gohiriwyd yr helfa, ond bron i ddwy flynedd yn ddiweddarach cofiais am yr addewid a thynnais fy nghopi o Lyfryddiaeth J. H. Davies i'w gasgliad, *A Bibliography of Welsh Ballads*, oddi ar y silff. Cefais gychwyn addawol wrth ddod ar draws cnewyllyn y stori ym maled Rhif 16; un o dair cerdd o fewn yr un daflen. Mae'n werth dyfynnu ei theitl yn llawn:

Cerdd o fawr Sampl Ryfeddol i Jeuencyd er Rhybudd iddynt hwy (a Gweddwdod hefyd) I ochelyd torri Aur neu Arian wrth ymgredu au gilydd mewn Carwriaeth, yn Enwedig i Ochelyd torri yr adduned neu'r Addewid hwnnw, a wnelont cyn Priodi, yn dangos fel y darfu i un Bateman dorri aur rhwngtho ai gariad. Ac wedi iddi hi droi oddi wrtho fo, fel y Darfu iddo efe ei grogi i hun uwch ben i Drws hi y Dydd y priododd hi wr arall. Ac yn dangos pa ddiwedd Echryslon a ddaeth iddi hitheu. Ac fel y daeth ysbryd Bateman gefn nos iw dwyn hi ymaith oi Gwely oddiwrth Rhwng Breichiau i Gwr Priodol. Ac na welwyd na migwrn nag Asgwrn o honi byth Drachefn. Iw chanu ar Dôn a elwir Bateman's Tragedy, neu Drychineb Bateman. A gyfiaethwyd or Saesneg i'r Gymraeg, gan Richard Parry, Athro ysgol yn Roê.

Dyma'r un math ar stori y chwiliwn amdani, yn sicr, ond nid yr union un a gadwyd ar gof William Williams. Twriais ymlaen trwy weddill y rhan gyntaf o'r *BWB*, trwy'r ail a hyd tua chwarter olaf y drydedd, cyn dod at faled Rhif 446 (ac adargraffiad ohoni, 447). Dyma deitl honno:

BALAD Newydd Yn Cynwys Dwy Gerdd Y cyntaf, Carol Plygain.  
Yn ail Ymddiddan rhwng Gwr Ifange a'i gariad sef, Rodric Llwyd a

Sara, pa rai a ymgredodd a'u gilydd, ond y mab a bresiwyd ac a gollodd ei fywyd yn y Rhyfel: ar ymddiddan fu rhyng ei yspryd ef a hithau wedi ei farw.

Nid oedd angen twrio ymhellach. Draw â mi i'r Llyfrgell, y lle difyrraf yng Nghymru, gofyn am weld y faled, ei chodi air am air a'i gwadnu am adre. Galw Ann gan roi'r newydd da iddi dros y ffôn. Hi wrth ei bodd. Yn y cyfamser roedd wedi cael casét oddi wrth ei modryb yn y Bala, un a recordiwyd beth amser yn ôl, o'r gyfnither o Dywyn yn canu yr hyn a gofiai hi o 'Sara Wen'. Gwaetha'r modd, roedd y sain yn sobor o wan, y geiriau, felly, yn aneglur, a rhediad y stori yn ddarniog. Sut bynnag addawodd y cawn wrando arno a bu'n ddigon caredig i'w anfon imi drwy'r post. Wedi i gyfeillion caredig ei ddoctora'n rhyfeddol o dda daeth ei gynnwys yn llawer haws i'w ddehongli. Dof at hynny ar y diwedd ond cyn mynd gam ymhellach dyma faled Rodric Llwyd a Sara (gyda rhediad y penillion o'r chwith i'r dde).

Dowch yn nês gwrandewch esample,  
Or cymmyle y daw cafode,  
Nid oes yn y byd na dderfydd  
Ond grâs Duw a chrêd a Bedydd.

Pryd y daeth y *Prince* ar Goron,  
I hel gwŷr i fyn'd i'r *Iwerddon*;  
Fel yr oedd Duw yn gwyllysŭ,  
Y mab fo aeth yn un o rheini.

Er bod ei gorph ô wedi gladdu,  
Nid oedd yr Enaid haws er hynny,  
Bu fo bedair blynedd cymmwys,  
Cyn cael myned i *Baradwys*.

Pan y daeth ô i dir yr ynŷ  
I'r fan lle rhoese ei Grêd ai wllys,  
Fo ddisgyne ar y Tywod,  
Lle'r oedd iddo beth cydnabod.

Fe ae at y Ffenestr wrth y *Gwely*,  
Lle'r oedd y mwya a garai'n cysgu,  
Yn y man a hi attebe,  
Yn sŷr iawn yn sal ei geirie.

Am ddau oedd yn byw'n yr ynŷ  
Y rhain ar feddwl byw'n gariadus,  
A newid dwy-grêd a wnaethon,  
I gael Priodas yngwydd dynion.

Pryd yr aeth o gynta i'r *Werddon*  
Fo syrthie ymhlith *Gwyddelod* gwylltion,  
Dyna'r fan lle bu farwolaeth,  
Roedd hyn yn syndod fawr ysywaeth.

Na dim gorphwys mwy na'r Tonne,  
Ond am ei Grêd i'r fan lle rhoese;  
Fo ddanfone Duw heb wybod  
Fo ar gefen un ôr *Gwylanod*.

Tufewn i filltir neu lai na hynny,  
Lle'r oedd y mwya a garai'n cysgu,  
At y drŵs fe ae yr Enaid,  
Ni chlywai fo yno neb yn atbe.

Yn enw Duw pwy sydd yna,  
Gefn y nôs yn galw am dana,  
O *Sara Sara* fwyn nac ofna,  
Mae yma'r Mab dy garodd fwya.

Yn dod i ymofyn ynghrêd attat,  
Byth ond hyn ni thrwblai monot,  
Ond addawsoch fy mhriodi,  
A llawer *Promise* efo hynny.

Yn Nhir *Iwerddon* wrth Ryfela,  
Nid oes ond fy hydoliaeth i yma,  
chwi gawsoch roddiad mawr gan *Dduw*,  
Gael codi i fynu o farw i fyw.

coelia coelia gwen lliw'r ewyn,  
dwy fwy fy sym na gwybedyn,  
*Rodric Llwyd* bu'm yn dy garu,  
ag y rwan rwy'n dy ofni.

Ni bu mi wnaeth un Ferch ar aned  
Er pryd y darfu newid dwy gred,  
Y rwy finne mor ddifeie,  
ar Ferch fechan sy ar y bronne,  
Yn eich aros chwithe *Rodric* adre.

*Sara* a drodde at y gwely,  
dan godi dwylo ag ymgroesi,  
a than wylo'r dŵr oi llyged,  
O edifeirwch fod cyn sured.

Cwblhaed pawb ei pwyntmanne,  
Trwy nerth Duw ni chilie finne,  
Pa fodd y gallaf fi'ch priodi,  
Pan bo fy nghorph i wedi gladdu.

Hi neidie i fynu yn ei mein-grys,  
Ac at y Ffenestr ae hi'n awchus,  
Ag er maint yr wy'n eich clywed,  
Yn fy myw na chawn mo'ch gweled.

Ystyn di'th law rhyng dwy biler,  
Hwde'th Grêd *Duw* ro itti esmwythder,  
Hwde dithe'th Grêd *Sara*,  
I fy Nuw y fi gonffesa.

*Sara* wen o does ith welu,  
*Duw* ro esmwythder itti gysgu,  
Nid allai aros ond hyn yma,  
Waith angylion nef sy'n galw am dana.

Roedd y gân, fel y gwelsom, yn un o ganeuon nain William Williams, a anwyd yn 1845 a'i chodi yn Ystadfryn, Tal-y-llyn, ym Meirionnydd. 'Does wybod sut y daeth y faled yno. Un o'r teulu efallai wedi'i phrynu mewn ffair neu farchnad yn Nolgellau, Tywyn, neu Fachynlleth. Sut bynnag, y tebygolrwydd yw iddi gael ei sgwennu a'i chyhoeddi ym mlynedd oedd olaf y ddeunawfed ganrif. Awgrymir hynny'n gryf gan benillion tri a phedwar, gyda'r sôn am Rodric yn cael ei bresio i'r fyddin ar gyfer rhyfela yn Iwerddon (dichon mai enw ar long i gludo'r milwyr yno oedd y *Prince*) yn erbyn y 'Gwyddelod gwylltion'. Dyma gyfnod y Gwyddelod Unedig (*United Irishmen*) yn Iwerddon, mudiad cyfansoddiadol ei weithgaredd ar y cychwyn ond a ddatblygodd dan bwysau gormes barhaol i fod yn chwyldroadol, gan arwain i wrthryfel agored yn 1798, un a gysylltir yn arbennig ag enw Theobald Wolfe Tone yn un o'r prif arweinwyr. Ceir adroddiad cynhyrfus a Phrydeinllyd am y gwrthryfel hwn yn un o Lyfrau

Ceiniog Hugh Humphreys, Caernarfon, lle cyfeirir at ran ‘Syr Watkin Williams Wynn, Barwniad o Wynnstay’, a’i ‘*Corps of Ancient Britons*’ ynddo. A go brin fod gan awdur ‘Sara Wen’ gydymdeimlad â’r Gwyddelod yn eu hymgyrchoedd yn erbyn anghyfiawnder; creaduriaid ‘gwylltion’ oeddynt yn ei olwg o.

Ychydig dros ganrif a hanner yn ddiweddarach roedd gŵr o Drawsffynedd yn dal i ganu rhan o faled a gynhwysai adlais o’r gwrthryfel hwnnw a gresyn nad oes, ar hyn o bryd, ffurf gyflawn ar gael o’r rhan ohoni a gadwodd ef ar ei gof. Fel y gwelsom, fodd bynnag, canwyd rhywfaint ohoni gan aelod arall o’r teulu, ar gasét, ac i gloi hyn o druth dyma nodi’r geiriau, fel y deallais i nhw (gyda chymorth derbyniol gan Ann) wrth wrando ar y gantores. Sylwer hefyd fy mod yn eu cofnodi yn yr union drefn y ceir nhw ar y casét, gyda’r gantores yn gwneud ei gorau i’w galw i gof. Ar wahân i’r bar agoriadol yr un yw’r alaw sydd ganddi â honno a ganwyd i Phyllis a minnau yng Nghaernarfon. Gadawaf i’r darlennydd y gwaith o gymharu’r gweddillion hyn â’r geiriau a argraffwyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Y peth sy’n ddiddorol yw fod cymaint â hyn wedi goroesi. Cwbl ddisgwyliadwy yw fod y gweddillion yn gymysglyd. O gof i gof y trosglwyddwyd nhw dros gyfnod hir o amser.

.....bu ei farwolaeth  
Er i’r corff gael yno’i gladdu  
’Doedd yr enaid fawr er hynny.

Fe ga’dd gennad gan Dduw uchod  
I ddod ar gefan un o’r gw’lannod.

A phan ddisgynnodd ar y tywod  
Y tir fel buasai’n ei adnabod  
Dwy filltir fach neu lai na hynny  
Oedd at dŷ’r ferch fu gynt ’n ei charu.

Aeth at y drws dechreuai gnocio  
Ond nid oedd undyn yna’i wrando  
Aeth at y ffenestr y siambar wely  
Y ferch fuasai gynt ’n ei charu.

O Sara wen a wyt ti’n cysgu?  
A Duw a roddo esmwythder iti  
Pe cawn i air o’th enau heno  
Ni ddown i yma byth i’th flino.

Dod i ’mofyn fy nghred adre  
Rhowch i minne, rhof i titha  
Ow na ddoesech i’m priodi  
Ac i lawer peth ’blaw hynny.

Mae’n rhaid imi fyned i ffwrdd oddi yma  
Angylion ne sy’n galw amdana

A Sara aeth i bryntio’i\* gwely  
Gan blethu’i dwylo a dechrau ’mgrymu  
Ar hyd ei gruddiau ddŵr yn treiglo  
Am iddi fod yn ynsyltied wrtho.



Fe roedd dynyn yn yr ynys  
A'u bryd yn fawr am fyw'n gariadus  
Am roi eu cred ac earnest ffyddlawn  
Am gael priodas yngwydd digon.

Fe ga'dd gennad gan Dduw uchod  
I ddod ar gefan un o'r gw'lannod  
Ond er y syndod mawr ysywath  
Dyna'r fan bu ei farwolaeth.

Fe ddaeth y blaidd a Phrins y goron  
I 'mofyn gŵr i fynd i'r 'Werddon  
Ond fel yr ydoedd Duw yn mynnu  
Y llanc a aeth yn un o'r rheiny.

Dau sylw byr i gloi. Y naill ar y gair a serenwyd uchod: fel 'bryntio' neu 'brintio' yr ynganwyd o. Os oes ystyr iddo mae'n ddirgelwch llwyr i mi. Y llall ar y trydydd 'pennill' o ddiwedd y faled gyflawn: awgrymaf (a) 'Ni bu im' unwaith' am 'Ni bu mi wnaeth', a (b) fod y llinell, 'Yn eich aros chwithe *Rodric* adre', yn perthyn i bennill dilynol nad argraffwyd yn llawn, drwy amryfusedd ar ran yr argraffydd.

# “Dynoliaeth a grewyd mor loyw ...”: un arall o garolau plygain Jane Ellis

Rhiannon Ifans

---

Fe wyddom i gyd am y garol ‘O deued pob Cristion i Fethlem yr awron’, un o’r carolau a genir amlaf gennym yng ngwasanaethau’r Nadolig bob blwyddyn. Fe’i cyhoeddwyd yn *Caneuon Ffydd* dan enw Jane Ellis, yr Wyddgrug, er bod fersiwn gwreiddiol Jane Ellis o’r garol gryn dipyn yn wahanol i’r hyn a ymddangosodd yn *Caneuon Ffydd* ac yn y casgliadau emynau cynharach.<sup>1</sup>

Ond nid dyma unig garol Jane Ellis. Yn ogystal â’r hen ffefryn ‘O deued pob Cristion ...’ fe gyhoeddodd dair carol arall, un dan y teitl ‘Carol Nadolig’, yn ddeg pennill o hyd ac i’w chanu ar ‘Diniweidrwydd’, a dwy dan y teitl ‘Carol Plygain’ (ac mae’n ddiddorol mai enw gwrywaidd yw *carol* i Jane Ellis), y naill yn ddeg pennill o hyd a’r llall yn dri phennill ar ddeg, y ddwy i’w canu ar ‘Yr Hen Ddarbi’.

Er bod teitlau’r carolau’n amrywio, carolau plygain yw’r pedair. Os oes y fath beth â phatrwm i garol blygain erbyn yn agos at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae’r rhain yn dilyn y patrwm hwnnw: nid carolau am enedigaeth babi sydd yma, ond carolau sy’n sôn am holl drefn rhagluniaeth. Cyhoeddir un o’r pedair yn ei chrynswth, yn enghraifft o’r *genre*. Gobeithir hefyd y clywir ei chanu unwaith eto ym mhlygeiniau’r gogledd-ddwyrain.

## Carol plygain

Dynoliaeth a grewyd mor loyw,  
Yn meddu ar ddelw’r pur Dduw;  
Yn wryw ac yn fenyw fe’u crewyd,  
’Ngardd Eden gosodwyd hwy i fyw;  
Yn meddu ar berffaith sancteiddrwydd,  
A Duw oedd yn llywydd i’r lle,  
Yn rhodio ’ngoleuni ei wyneb  
Mewn purdeb ac undeb ag e’.

# CYFAMOD (HEN DDARBI)

M11 / 98.98.D.

ALAW SEISNIC

The musical score is written for a piano in 3/4 time. It consists of five systems, each with a treble and bass staff. The key signature has one sharp (F#). The melody is primarily in the treble staff, while the bass staff provides a harmonic accompaniment. The notation includes eighth and sixteenth notes, rests, and various accidentals (sharps, naturals, and a double sharp). The piece concludes with a double bar line in the final system.

Cyhoeddir gyda chaniatâd caredig Pwyllgor Caneuon Ffydd

Yn fuan daeth Satan i'w temtio,  
Mor greulon oedd dyfais y ddraig,  
Ac yno 'mosododd e'n gyntaf  
Ar y llestr oedd wannaf, sef gwraig;  
Fe daerodd y byddent fel duwiau  
Nes dallodd eu llygaid â llen,  
Trwy wenwyn y gelyn hi goeliodd,  
'Mostyngodd nes profodd hi o'r pren.

Gwnaed hi yno'n offeryn mor hynod,  
Hi dynnodd ei phriod i lawr:  
Hi roddodd, ac yntau gymerodd,  
Nes syrthiodd – a'u cwyp a fu fawr;  
Ac yna ei lygaid agorodd  
A gwelodd mor noethlwm yr aeth;  
Cyfiawnder a waeddodd i'w erbyn  
Ac arno mawr ddychryn a ddaeth.

A ninnau fel deilen gydsyrthiodd,  
A'n cyflwr mor isel ei le  
Nad oedd trwy holl gyrrau'r gre'digaeth  
Byth obaith cael mynd i'r ne';  
Ond diolch am dragwyddol gariad,  
Cyfamod o newydd a wnawd,  
Addawyd âi Person pur, sanctaidd,  
Mor isel â'i wisgo mewn cnawd.

Cyflawnwyd y proffwydoliaethau,  
Caw'd morwyn yn feichiog, sef Mair,  
A phan ddaeth cyflawnder yr amser  
Gwnaed popeth gogyfer â'r Gair;  
Wrth fyned i Fethlem i'w trethu  
Ca'dd esgor mewn llety tylawd,  
Rhyfeddod na welwyd ei eilun,  
Ca'dd feithrin ei Brenin a'i Brawd!

Fe dyfodd i fyny mewn dyndod,  
A Duwdod oedd ynddo fe'n llawn,  
Wrth edrych ei lwybrau mor hynod,  
A'i fawredd, rhyfeddod a gawn;  
Â 'chydig y porthodd e' filoedd,  
Newynog rai lluoedd wnâi'n llawn,  
Iachâi wywedigion a deillion,  
A chleifion – ei ail ef ni chawn.

Fe gododd e' Lasarus o'i feddrod,  
Rhyw wyrthiau pur hynod oedd hyn,  
Daeth llawer o feirwon i fyny,  
Gwnaed hynny ni gredu'n ddi-gryn;  
Er dyfned yw'r codwm 'rîm ni ynddo  
Mae moddion i'n puro yn y Pen:  
Er amled yw'r beiau yn ei bobol  
Mae'n eiriol o'r tu mewn i'r llen.

Pan gofiwyf am Berson o'r Drindod  
Yn dyfod a'i agwedd fel gwas,  
Dioddefodd tan boenau mor hynod  
Rwy'n teimlo fy mhechod yn gas;  
Ni fedraf amgyffred mo'r loesau  
A gafodd e' ddioddau'n yr ardd,  
Wrth wneuthur am gamwedd im gymod  
Mi a'i gwelaf e'n hynod o hardd.

Ac yno daeth Judas a'i fyddin,  
Rhoes gusan i'r Brenin mewn brad,  
Fe'i dygwyd at Pilat i'w chwipio  
A'i daro â chleddyf ei Dad;  
Fe'i harweiniwyd i fynydd Calfaria,  
Fe'i hoeliwyd rhwng daear a nen,  
I fyny yr ysbryd a roddodd,  
Gorffennodd, gogwyddodd ei ben!



Fe'i dygwyd e'n fuan i'w gladdu,  
Ei gyfeillion oedd bruddion eu gwedd,  
Rhag ofn bod twyll yr Iddewon  
Seiliasant rhyw faen wrth ei fedd;  
Daeth angylion o'r nefoedd i waered  
Ac yna fe dreiglwyd y maen,  
Y bore doe'r gwagedd i 'mweled  
A'r bedd yn agored a gaen'!

A'r Iesu oedd gwedi cyfodi  
Yn dawel 'nôl gorffen y gwaith,  
A hynny sydd gysur i lawer  
Tra pery gorthrymder y daith;  
O lafur ei enaid caiff weled  
A chael ei ddiwallu ryw ddydd  
Pan ddelo fe i gwrdd â'i ddyweddi  
A gweled y rheini yn rhydd.

Ac yno cydseinio 'Hosanna'  
A chofio am groes Calfari,  
A chofio am y Person ddioddefodd,  
A'r goron enillodd i ni;  
Ac yno bydd ffydd yn troi'n olwg,  
A'r gobaith a dry yn fwynhad  
Pan welom y cariad tragwyddol  
A darddodd o fynwes y Tad.

Elias a Moses ac Abram  
A'r seintiau i gyd fydd yn un  
Yn canmol wrth weled y cymod  
Rhwnge Person y Duwdod a dyn;  
Pan welom ni drefniad y Drindod  
'R awr honno 'nôl dyfod i ben,  
Cawn foli yr Oen yn ei haeddiant:  
Gogoniant a moliant! Amen.

Mae'r garol hon, y garol olaf yn y casgliad, yn darllen fel baled, hynny yw  
yn adrodd stori ar gân. Hanes dynoliaeth yw'r testun. Sut crewyd y fath beth

â dynoliaeth yn y lle cyntaf? Perffeithrwydd oedd y safon: gwryw a benyw a stamp dwyfoldeb arnynt, yn byw mewn gardd a stamp y delfrydol ar honno, a hynny dan lywyddiaeth Duw dilychwin ei gymeriad ac mewn cymdeithas agos, fendithiol ag ef. Beth aeth o'i le? Lluniwyd adran o dri phennill sy'n esbonio'n hollol beth aeth o'i le (sef penillion 2–4). Mae'r cofnod ysgrythurol yn croniclo mai Efa a wenwynwyd â dichell y diafol yn y lle cyntaf, ac iddi berswadio Adda i fod yn rhan o'r un camwedd (fel mae Jane Ellis yn disgrifio yn y trydydd pennill). Dyna'r drefn yn ôl Genesis: Cwmp Adda ac Efa, y rhieni cyntaf, ac yn sgil eu Cwmp hwy, '*A ninnau* fel deilen gydsyrthiodd' – fe syrthiodd dynoliaeth gyfan i'r un dinistr.

Beth ddigwyddodd wedyn? Mae'r uned nesaf yn sôn am gyflawni'r proffwydoliaethau, beichiogi o Fair, yr enedigaeth dan amgylchiadau rhyfeddol, a bywyd a gwaith Crist hyd at ei farwolaeth – hynny i gyd mewn tri phennill. Y chwe phennill olaf sy'n cofnodi'r farwolaeth fawr, selio'r maen ar y bedd, ac wedyn, ac at hyn mae hi'n dod, yr Atgyfodiad:

A'r Iesu oedd gwedi cyfodi  
Yn dawel 'nôl gorffen y gwaith,  
A hynny sydd gysur i lawer  
Tra pery gorthrymder y daith.

Nid yw'r bywyd dedwyddaf yn fêl i gyd. Yn wir mae Jane Ellis yn cydnabod bod ei bywyd hi'n un caled, a'i thaith drwy'r byd yn daith o orthrymder. Pa orthrymder sydd ganddi dan sylw? Roedd byw bywyd cyffredin yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn anodd, oedd, ond fe wynebodd Jane Ellis sawl rhagluniaeth anodd – colli ei gŵr, colli plant, a cholli ffrindiau lu. Cyhoeddwyd y pedair carol hyn yn ei chyfrol *Casgliad o hymnau, carolau, a marwnadau a gyfansoddwyd ar amrywiol achosion* pan oedd Jane Ellis yn wraig weddw 61 oed, a thybed nad oedd hynny ar adeg o gyni ariannol?

Yn dilyn marwolaeth y penteulu, yn dilyn tanchwa neu am ba reswm bynnag, roedd yn arferol llunio cerddi a baledi lu i roi gwybod i'r gymuned am y newyddion, ond hefyd er mwyn helpu'r gweddwon yn dilyn y drychineb.

He [Edward Morgan] has versified the entire disaster, and in pointed rhythm has dwelt upon the serious destitution that must inevitably follow, if aid from the benevolent and wealthy is not speedily rendered. The poem is in the hands of the printer, and will be sold for the benefit of the sufferers, as well as the widows and orphans of the killed.

Felly yr adroddodd y *South Wales Daily News* yn dilyn trychineb Aber-carn fis Medi 1878. Roedd Jane Ellis hithau'n wraig weddw pan gyhoeddodd drydydd argraffiad ei chyfrol a byddai peth o'r arian a geid o'i gwerthiant yn dod iddi. Byddai'n ddiddorol gwybod faint oedd pris y gyfrol a pha ganran o'r pris hwnnw a ddeuai i'w phocod hi. Neu tybed ai dibynnu ar gymdeithas y pererinion yng nghapel Bethesda a wnâi Jane Ellis am ei chynhaliaeth? Gwyddys nad oedd yn wraig i segura, a'i bod yn gwau sanau yn yr Wyddgrug yn 1841, ac mae'n debyg fod ganddi hefyd blant yn yr ardal a fyddai'n cyfrannu at ei chynhaliaeth.

Efallai fod un ystyriaeth arall yn berthnasol i'r drafodaeth hon. Roedd Jane Ellis yn byw ym merw diwygiad. Yn 1815 fe fu cyfarfod pregethu nodedig iawn yn nhref yr Wyddgrug, ac fe sbardunodd hwnnw ddiwygiad yn yr ardal. O ganlyniad fe fu'n rhaid i'r Methodistiaid oedd yn cyfarfod yng Nghapel Ponterwyl symud i le mwy, sef i gapel Bethesda, New Street. Parhaodd bywyd ysbrydol yr eglwys i ffynnu, ac mae diwygiad arall yn dod heibio i'r pererinion yn 1840, blwyddyn cyhoeddi'r trydydd argraffiad hwn. Neilltuwyd Gŵyl yr Ystwyll, sef 6 Ionawr 1840, yn ddydd o weddi, er mwyn i bawb fedru gweddio ar i'r Ysbryd Glân ymweld â Chymru, ac â'r byd. Efallai mai yng ngwres yr Ysbryd y cyhoeddodd hi'r trydydd argraffiad *gyda chwanegiad*.

Ymhlith cerddi'r gyfrol y mae marwnad Jane Ellis i'w chyd-addolwyr yng nghapel Bethesda, yr Wyddgrug, pan gollwyd nifer o'r aelodau yno mewn damwain fawr yn y pwll glo lleol, Plas yr Argoed, ym mis Mai 1837. Yn eu plith yr oedd Robert Owen (tad y nofelydd Daniel Owen) a dau o'i feibion. Gellir dyfalu bod carolau plygain Jane Ellis yn cael eu canu yng nghapel Bethesda gan deuluoedd yr ydym yn gyfarwydd â hwy, teuluoedd yr ydym eisoes wedi eu cyfarfod mewn cyd-destun llenyddol go wahanol, ac mae hynny'n brofiad trawiadol.

Rwyf wedi cymryd at waith Jane Ellis, do'n siwr, a hynny oherwydd y cyffro sydd yn sylfaen iddo, ac oherwydd yr emosiwn, y nwyd cadarnhaol hwnnw sydd yn llygad y gân, yn hanfod y canu. Ble bynnag yr edrychwch mae llawenydd yn gwthio'i ben. A byddai, byddai'n dda iawn cael clywed yr hen garol hyfryd hon yn cael ei chanu unwaith eto yn y gogledd-ddwyrain.

# DAU RIGWM O FÔN

Meredydd Evans

Tua chanol Chwefror 2006 cefais lythyr oddi wrth y cyfaill Tudur Huws Jones ynghyd â chasét yn cynnwys dau rigwm a genid gan ei fam. Dyma ddyfyniad perthnasol o'r llythyr:

Mae fy Mam, Megan Sioned Jones (née Hughes) yn 89 (90 ym mis Ebrill) ac yn dod o Niwbwrch yn wreiddiol, er iddi fyw yn Llangefni ers dros 60 mlynedd. Dywed mai gan ei Mam y clywodd y rhigymau bach yma, ac nid yw'n credu fod y cymeriadau'n rhai go iawn. Mi f'aswn i'n meddwl i'r gwrthwyneb! (fel y cymeriadau yn 'Os torrith Cob Malltraeth').

Cyfeirio y mae Tudur yn y frawddeg olaf at y rhigwm cyntaf ar y casét ac yn anuniongyrchol at erthygl hynod ddiddorol Tomos Roberts, 'Awdur "Cob Malltraeth"', a gyhoeddwyd yn *Canu Gwerin* 21 (1998). Datgelir yno beth o gefndir hanesyddol y prif gymeriadau a enwir yn y gân. Tybed a ellir cadarnhau barn Tudur ynghylch cymeriadau'r rhigwm canlynol?



O ran yr alaw ceir adlais yn ei barrau agoriadol o agoriad 'Dacw dadi'n mynd i'r ffair' tra bo cysylltiad rhwng y pennill â hen bennill telyn sy'n traethu 'rhyfeddod':

Mi welais ferch yn godro  
A menyg am ei dwylo,  
Hidlo'r llaeth trwy glust ei chap  
A merch Siôn Cnap oedd honno.

ond nid rhyfeddod, yn sicr, a fyddai gweld meibion neu weision fferm yn hel y gwartheg i'w godro yn y beudy. Sut bynnag, nid peth anghyffredin mewn

geiriau caneuon gwerin yw gweld cymysgu ar bethau anghydryw.

Ceir cyfeiriad at enw cymeriad yn yr ail rigwm yntau; gwraig a werthai gwrw yn ei pharlwr oedd honno:



Unwaith yn rhagor mae hen bennill telyn cyfatebol ar gael, un y deuthum ar ei draws y tro hwn yng nghyfrol gampus Tegwyn Jones, *Ar Dafod Gwerin* (Aberystwyth, 2004), a daeth ef o hyd iddo yn un o lawysgrifau Cwrt Mawr yn y Llyfrgell Genedlaethol (CM 117) a ddisgrifir ganddo fel casgliad David Evans, Llanrwst, 'o Benillion Cymreig Anghoeddedig ... 1850'. Dyma fo:

Peint a chwart a chwpan hwylus  
Sydd yng nghegin Neli Morris;  
Pan fo Neli Morris farw  
Rhof y gorau i yfed cwrw.

Benthyciad o ran o emyn-dôn Americanaidd gan Robert Lowry (1826–1899) yw'r alaw, a gysylltir yn arbennig yn ein plith ni'r Cymry â cherdd E. Llwyd Williams, 'Pwy fydd yma mewn can mlynedd?' ac emyn Eben Fardd, 'O fy Iesu bendigedig'.

# Seiniau gorfoledd

Maurice Loader a Caradog Williams

---

Carol blygain newydd, a ganwyd am y tro cyntaf yng ngwasanaeth y plygain yn Eglwys y Plwyf Llanelli ym mis Ionawr 2006, yw'r garol a ganlyn – y geiriau o waith y Parchedig Maurice Loader, a'r gerddoriaeth gan Caradog Williams.

Seiniau gorfoledd o Fethle'm a glywir,  
Peraidd eu hatsain dros lechwedd a bryn;  
Tyr eu cynghanedd ar draws tiroedd Cymru,  
Gobaith a ddygant i'r gwyw erwau hyn;  
*Ganwyd in Brynwr, a chadarn Iachawdwr,  
Rhown iddo lety; yr Arglwydd a'i myn!*

Cefnu ar olud y nef a wnaeth Iesu,  
Rhannodd ein newyn a'n syched fel brawd;  
Rhyfedd ei osod mewn preseb anifail,  
Syndod ei eni mewn beudy mor dlawd;  
*Canwn ei glodydd, ein gwrol Achubydd,  
Dygodd o'i wirfodd ein dirmyg a'n gwawd.*

Dygwn at ymyl ei breseb anrhegion,  
Ddwyrain, Gorllewin, a Gogledd a De;  
Ddoethion, offrymwch ddyledus wrogaeth,  
Chwithau fugeiliaid – mae digon o le!  
*Hwn yw'n Gwaredwr, ein hunig Waredwr,  
Ef gaiff ein moliant, a neb ond Efe.*

Dathlwn ryfeddod y geni o wryf:  
Ceidwad yn cysgu mewn crud yn y gwair!  
Ynddo ef gwelwyd gwir ddelw y Duwdod,  
Stamp y tragwyddol ym mherson Mab Mair;  
*Iddo bo'r moliant, y clod a'r gogoniant,  
Daeth i'n gwaredu, a gwir yw y gair!*



Geiriau: Maurice Loader  
Cerddoriaeth: Caradog Williams

# SEINIAU GORFOLEDD

I drefnu'r garol hon ar gyfer lleisau dynion  
caner y rhan bäs Sawd yn is ym mesura  
18-24 a 29-3;

Handwritten musical score for three voices (Soprano, Tenor, Bass) and piano accompaniment. The score is written in G major (one sharp) and 4/4 time. The lyrics are in Welsh, and the notation includes notes, rests, and dynamic markings (p, f, sf, m, ms, fr, dt, d, s, l, t, s, f, m, ms, fr, dt, d).

**System 1:**

- Soprano (S):** m r d t, d d r m r d t, d d d d r, m m r m m f e s
- Tenor (T):** d d s, d d d d s, d d d d t, d d t, d t, l, l, s,
- Bass (B):** m r d t, d d r m r d t, d d s s f m m s f r d t, d

**System 2:**

- Soprano (S):** s f m r m m f s f m r m m s l t d' s s l s f m
- Tenor (T):** m m m d d d f f f r r s s f m m d f f m r
- Bass (B):** s s s l l l l l t t t t t d' d' d' d' d' d' t

**System 3:**

- Soprano (S):** d d d f f f r r r s s m m m l l s f f s
- Tenor (T):** m r d t, d d r m r d t, d d s s f m m s f r d t, d
- Bass (B):** s s f m r m m f s f m r m m s l t d' s s l s f m

**System 4:**

- Soprano (S):** s, s, s, s, d d s s s l m m f s s d
- Tenor (T):** m r d t, d d r m r d t, d d s s f m m s f r d t, d
- Bass (B):** s s f m r m m f s f m r m m s l t d' s s l s f m

## Cofio'r cerddor

### Buddug Lloyd Roberts

---

Un o sefydlwyr amlycaf Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1906 oedd Dr John Lloyd Williams, a oedd ar y pryd yn ddarlithydd mewn Botaneg ym Mangor, ac yn brif arbenigwr ar fflora arctig alpaidd ardal Eryri. Ond mae aelodau'r Gymdeithas yn cofio'n arbennig amdano fel cerddor. Gweithredai fel cyfarwyddwr cerdd i'r Brifysgol ym Mangor, ac yn rhinwedd y swydd honno ffurfiodd gôr o fyfyrwyr, sef 'Y Canorion'. Ac wrth gwrs ef oedd y gŵr amlycaf ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i gymryd diddordeb yn ein halawon traddodiadol. Roedd ei frwdfrydedd a'i lafur diflino wrth gadw a thrysori ein caneuon gwerin yn amhrisiadwy. Byddai cannoedd o'n caneuon wedi mynd i ddifancoll oni bai am yr ymdrechion a wnaed ganddo ef a nifer o fyfyrwyr Bangor – a hynny dim ond mewn pryd.


Priododd John Lloyd Williams ag Elizabeth, merch Emmanuel ac Ann Jones, Tŷ Mawr, Cricieth. Mae'n ddiddorol mai'r ddwy gân gyntaf iddo eu cofnodi oedd 'Tra bo dau' a 'Lisa Lân', dwy gân a gofnododd gan ei wraig ac sydd wedi dod mor adnabyddus drwy Gymru erbyn hyn. O ddiddordeb arbennig i ardalwyr Cricieth yw'r pennill canlynol a glywodd yn cael ei ganu gan Dafydd Cadwaladr, hen longwr o Gricieth:

Ffarwel i Ynys Enlli  
Ffarwel St. Tudwal's hd,  
Ffarwel i dre Pwllheli  
Lle mae'r genod tlysa'n bod,  
Ffarwel i Drwyn Penychain  
Ffarwel i'r Afonwen  
Ffarwel i Gastell Cricieth  
Sydd â pholyn ar 'i ben.

a'r hen rigwm hwn a gyfrannwyd gan Gwilym Williams (Glanislwyn), Cricieth, pennill yr arferai plant yr ardal ei ganu:

Gwrach o'r Garn a gwrach o'r Cennin  
A gwrach arall o Bentrefelin  
Aethant i gladdu gwrach o Gricieth  
Oedd wedi tagu wrth lyncu macrall.

Bu farw J. Lloyd Williams ym mis Tachwedd 1945 yn 91 oed a chladdwyd ef gyda'i briod, Elizabeth, ym mynwent Cricieth. Roeddem fel aelodau'r Gymdeithas yn teimlo ei bod hi'n ddyletswydd arnom, yn enwedig eleni, i dacluso'r bedd a bellach mae'r gwaith wedi ei gwblhau. Mae gennym fel cenedl ddyled fawr i'r gŵr arbennig yma am gyfoethogi a sicrhau datblygiad a pharhad ein traddodiad gwerin. Sefydlwyd Tlws Coffa Dr John Lloyd Williams yn 1972, ac fe'i dyfernir yn yr Eisteddfod Genedlaethol i enillydd y gystadleuaeth canu alaw werin i rai rhwng 16 a 21 oed. Rwy'n arbennig o falch i mi wobrwyo Bryn Terfel yn y gystadleuaeth yma yn 1984.



Llun: Wyn Penri Jones

## Lisa Lân

---

Rhyfeddod oedd cael ar ddeall gan Charles Parry, gwylwr ffilmiau brwdfrydig iawn ac un o hoelion wyth staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fod Lisa Lân wedi ennill Oscar eleni! Wel, nid yn hollol ar ei phen ei hun. Ond fe ddefnyddiwyd alaw 'Lisa Lân' yn y ffilm *Crash*, ffilm a baratowyd yn Hollywood ac a ddaeth yn boblogaidd iawn ar bum cyfandir. Yn wir daeth *Crash* yn un o ddwy ffilm a allai ennill y wobwr am ffilm orau'r flwyddyn. Ond y ffefryn oedd *Brokeback Mountain*.

Digwydd stori *Crash* yn Los Angeles ac nid oes dim byd arbennig o Gymreig ynghylch y ffilm ar wahân i'r alaw hyfryd 'Lisa Lân'. Ceir yma hanes grŵp o bobl y m d d a n g o s i a d o l anghymharus yn LA, yn croesi llwybrau, yn dod i gyswllt â'i gilydd ac yn gwrthdaro â'i gilydd, dros ddeuddydd o amser. Tyndra hiliol a diwylliannol yw thema'r ffilm, a dangosir sut mae unigolion yn dod wyneb yn wyneb â chymhlethdodau y mae eu rhagfarnau personol wedi rhwystro iddynt eu gweld cyn hynny.

Aelodau'r Academy of Motion Picture Arts and Sciences sydd yn dewis





enillwyr yr Oscars wrth gwrs – cymdeithas gydag ychydig filoedd o aelodau, a'r mwyafrif ohonynt yn byw yn ardal Los Angeles, dinas y ffilmiau. Awgrymwyd bod gan *Crash* fantais oherwydd ei bod yn ffilm am y ddinas honno. Sut bynnag am hynny, mae'n ffaith mai'r Oscars yw'r gwobrau ffilm enwocaf o ddigon.

Ac ie'n wir, *Crash* a ddaeth i'r brig – yn groes i bob disgwyl! Y piti mawr yw na chynhwyswyd 'Lisa Lân' ar y CD a gynhyrchwyd o draciau sain y ffilm. Ond mae'n rhaid dechrau yn rhywle, a phwy a wŷr, tro nesa ...



## Tri mis o ddathlu mawr! 1906–2006

---

Un o'r cerrig milltir pwysicaf yn hanes diogelu, hyrwyddo a dehongli caneuon traddodiadol Cymru oedd sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1906. I ddathlu'r canmlwyddiant cynhaliwyd tair cynhadledd undydd yng ngwanwyn 2006. Er mwyn i gynifer â phosibl ymuno yn y dathlu, penderfynwyd cynnal y cynadleddau hyn mewn sefydliadau yng ngogledd, de a chanolbarth Cymru a fu'n allweddol yn y gwaith o hyrwyddo astudiaethau gwerin. Cafwyd arlwy amrywiol a gwahanol ym mhob un o'r cynadleddau, a thystiodd pawb mai da oedd cael bod yno.

Y dyddiadau a'r lleoliadau oedd:

|                  |                                              |
|------------------|----------------------------------------------|
| 25 Chwefror 2006 | Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth    |
| 25 Mawrth 2006   | Ysgol Gerdd Prifysgol Cymru Bangor           |
| 22 Ebrill 2006   | Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd |



*Cynulleidfa dathliadau Aberystwyth*



Dyma ichi flas ar raglenni'r dathliadau.

### **Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth**

Croeso'r Cadeirydd

'Ambell i gân': Trefor Pugh, Rhiannon Ifans, Eleri Roberts

'Casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru' Rhidian Griffiths

'Mae 'nghariad i'n Fenws': Trefor Pugh, Rhiannon Ifans, Eleri Roberts

'Casglwyr cynnar alawon gwerin' Daniel Huws

'Ffarwel i Aberystwyth ... ': Jennie Williams a byd yr alaw werin yng Nghymru' Wyn Thomas

'Y cribiniwr caneuon' Phyllis Kinney a Meredydd Evans

Datganiad ar y delyn deires gan Robin Huw Bowen

### **Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Cymru, Bangor**

'Cerddoriaeth draddodiadol a'r 'Coleg ar y Bryn' Gwenan Gibbard

'W.S. Gwynn Williams: a dynamic force in Welsh traditional music' David Jones

Cyngerdd: Llio Rhydderch

'Ymateb i'r Celtiaid? – grwpiau gwerin Cymreig yn y 1970au a'r 1980au' Stephen P. Rees

Datganiad Elaine Paige o alawon gwerin

'Creu alawon ar gyfer y crwth' Cass Meurig

### **Oakdale, Amgueddfa Werin Cymru**

'Casgliadau Amgueddfa Werin Cymru' Beth Thomas

'Canu'r Fari Lwyd' D. Roy Saer


'Canu Gwlad Morgan', datganiad gan Delwyn Siôn o faledi Morgannwg

'Y Faled ym Morgannwg' E. Wyn James


'“Yn dyrfa weddus ...”': Traddodiad y Canu Plygain' Rhiannon Ifans




*Dr Rhidian Griffiths*



*Daniel Huws*



*Dr Meredydd Evans*



*Dr Meredydd Evans (canol) a Robin Huw Bowen (ar y dde)*



*Cynulleidfya dathliadau Bangor*



*Gwenan Gibbard*



*Rhiannon Ifans a Stephen Rees*



*Wyn Thomas a Cas Meurig*




*Datganiad Cas Meurig ar y crwth*






*Cynulleidfa dathliadau Caerdydd yn mwynhau datganiad Delwyn Siôn*



*Delwyn Siôn*



*Dr E. Wyn James*





## Cyngerdd y Canmlwyddiant ym Mangor



*Rhes Ganol: Robin Huw Bowen, Huw Roberts, Rhiain Bebb,  
Wynn Thomas a Steffan Thomas*

Ar nos Sadwrn, 18 Chwefror, yn Neuadd Powis, Prifysgol Cymru Bangor, cynhaliwyd y cyntaf mewn cyfres o gyngherddau i ddathlu canmlwyddiant sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ym 1906. Côt telynau teires Rhes Ganol, dan gyfarwyddyd Robin Huw Bowen, fu'n diddanu'r gynulleidfa a chafwyd noson hwyliog o alawon a cheinciau Cymreig gan yr *ensemble* hwn o bum telynor traddodiadol.

Gobaith yr Adran Gerdd yw y bydd Crasdant, Arfon Gwilym, Siân James a'i band, a Gwyn Hughes Jones yn ymuno yn y dathliadau ac yn cynnal tri chyngerdd pellach cyn diwedd y flwyddyn, er mwyn dwyn sylw i'r digwyddiad allweddol hwn yn hanes y maes yng Nghymru ac i atgoffa caredigion y grefft fod aelodau staff a Chyngor y Coleg wedi chwarae rhan bwysig ym mlynnyddoedd cynnar y Gymdeithas. Oni bai am gyfraniad rhai fel Dr J. Lloyd Williams, Mary Davies 'Mair Mynorydd', Y Fonesig Ruth Herbert Lewis (Caerwys), Syr William Preece (Caernarfon), Syr Harry Reichel (prifathro cyntaf Coleg Bangor) ac L. D. Jones 'Llew Tegid', mae'n bur debyg na fyddai Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru wedi gweld golau dydd yn negawd cyntaf yr ugeinfed ganrif.

# MERÊD

Adolygiad o'r gryno-ddisg ddwbl 'Merêd' (Sain SCD 2414)


Arfon Gwilym

---

Ni ellir gwrando ar Merêd yn canu heb fod yn ymwybodol o ehangder ei arbenigedd – ei wybodaeth ryfeddol a'i adnabyddiaeth bersonol, yn aml, o'r person a gofnododd y gân neu a'i canodd yn y lle cyntaf.

Ar y gryno-ddisg ddwbl ddiweddaraf hon cawn gyfanswm o hanner cant o ganeuon i gyd: y casgliad mwyaf o ganeuon gwerin Cymraeg a gyhoeddwyd erioed ar unrhyw fath o record, yn ôl pob tebyg. Atgynhyrchiad yw'r CD gyntaf o'r record hir a gyhoeddwyd gan gwmni Sain yn yr wythdegau, record a ddaeth yn ddigon cyfarwydd i'm cenhedlaeth i ar y pryd, ond mewn cyfnod mor fyr ag ugain mlynedd yr oedd wedi dechrau cilio i'r cysgodion. Mae ei hailgyhoeddi ar ffurf CD felly yn gam pwysig ymlaen, ac yn dangos bod apêl rhai pethau yn oesol er bod y gwynt wedi bod yn chwythu i bob math o wahanol gyfeiriadau cerddorol yn y cyfamsr. I'r rhai ohonom sy'n gyfarwydd â'r record honno, mae'r ail CD yn fwy diddorol fyth gan ei bod yn cynnwys traciau cynharach a fu'n casglu llwch mewn cypyrddau ac archifau, ac o ganlyniad heb gael eu clywed ar unrhyw gyfrwng Cymraeg ers degawdau. Codwyd y traciau o dair record wahanol: un ohonynt o ddechrau'r saithdegau gan gwmni Sain; un arall o'r chwedegau gan Recordiau Dryw; a'r llall hefyd o ddechrau'r chwedegau gan recordiau Delysee. Does dim amheuaeth fod dod â'r rhain i olau dydd unwaith yn rhagor yn ddigwyddiad o bwys mawr.

Ar yr ail CD mae deunaw o ganeuon a recordiwyd dros ddeugain mlynedd yn ôl. Mae



gwrando arnynt fel darganfod trysor colledig. Rhaid cofio bod technegau recordio a chynhyrchu wedi gwella'n aruthrol ers y cyfnod hwnnw, ond ta waeth am hynny; yr un Merêd sydd yma, yr un dinc felys yn y llais, yr un afiaith, yr un arddull syml a chynnes wrth gyflwyno. Mae mwy o amrywiaeth hefyd ar yr ail gryno-ddisg: cyfeiliant telyn Maria Korchinska (ar wyth trac), cyfeiliant Wythawd Tryfan (ar dri thrac), cyfeiliant gitâr (ar ddau drac), llais Phyllis Kinney (ar ddau drac), llais Myron Lloyd (ar ddau drac), a hyd yn oed gerddorfa (Cerddorfa Robert Docker, ar ddau drac). Mae'r cyfan yn hynod o ddifyr a diddorol, a'r cyfeiliannau telyn a gitâr yn enwedig yn gweithio'n eithriadol o dda. Wn i ddim beth fyddai agwedd pobl erbyn heddiw tuag at gerddorfa fawr yn gyfeiliant i ganwr gwerin (i'm clust i nid yw'n swnio'n iawn rywsut), ond mae'n debyg mai chwaeth y cyfnod oedd hynny a hollol deg yw cynnwys y ddwy gân fel adlewyrchiad 'hanesyddol'.

Dylai'r tair cân a ganwyd gydag Wythawd Tryfan apelio. Yn y blynyddoedd diweddaraf mae dadl yn codi'n gyson yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn yr ŵyl Cerdd Dant ynglŷn â sut yn union y dylid 'trefnu' cân werin. Does ond angen gwrando ar y tair cân yma (*Harbwrc Corc*, *Santiana* a *Si Hei Lwli*) i weld mai cadw at symlrwydd a harmonïau sylfaenol y gwreiddiol yw'r peth amlwg i'w wneud. Ac o sôn am yr adran hon, dylwn nodi pa mor hyfryd oedd clywed llais Myron Lloyd unwaith eto: llais canu gwerin o'r iawn ryw, a llais y dylem ei glywed yn llawer amlach.

Arwydd o gân werin dda bob amser yw'r ffordd y mae'r alaw a'r geiriau yn priodi mor dynn i'w gilydd fel nad oes modd dweud pa un ddaeth gyntaf. Ond er mwyn creu'r cyfanwaith erys trydedd elfen, sef y canwr. Camp canwr gwerin da yw gosod stamp ei bersonoliaeth ei hun ar y gân, a chlymu'r tair elfen at ei gilydd i'r fath raddau fel nad oes modd eu gwahanu. Mae'r canwr gwerin gorau yn gwneud hyn mor llwyddiannus fel bod gwrando ar rywun arall yn canu'r un gân yn brofiad dieithr braidd: bron nad ydych yn gwrando ar gân wahanol. Dyna yw camp Merêd. Meddyliwch am *Gân y Cwcwallt*, er enghraifft. Onid ei lais ef a'i ddull arbennig ef o gyflwyno sy'n dod i'r meddwl gyntaf pan gaiff ei chrybwyll, yn yr un modd ag y mae *Mari Fach fy Nghariad* yn annatod gysylltiedig ag enw Bob Roberts, Tai'r Felin?

A oes lle o gwbl i fod yn feirniadol? Wel, os oes rhaid bod yn bigog, byddai wedi bod yn braf cael yr un manylder gyda nodiadau'r ail CD ag a geir

gyda'r gyntaf (ond rwy'n gweld bod problem dechnegol yn codi oherwydd nifer y tudalennau); fe hoffwn wybod mwy am *Si hwi hwi*, er enghraifft (nodir mai hwiangerdd o ddiwylliant caethweision America yw hi). Nid oes sôn ychwaith pwy yw'r telynor / telynores sy'n cyfeilio ar bedwar trac cyntaf yr ail CD. Ac mae un peth nad wyf yn hidio rhyw lawer amdano o gwbl: llun y clawr. Diddorol ar y llaw arall yw'r llun ar y clawr ôl o Merêd wrthi'n smwddio heb fawr ddim ond ffedog wen amdano!

Fe wnaeth cwmni Sain gymwynas fawr yn cyhoeddi'r CD ddwbl hon. Trysor yn wir. Ond yn amlwg, i Merêd y mae'r pennaf diolch. Yng nghyfnod y Dadeni Dysg fe grëwyd math arbennig o berson a oedd yn ddelfryd i bawb arall ac yn nod i ymgyrraedd ato – person dysgedig, diwylliedig, eangfrydig. Dyna'r math o berson yw Merêd, a phetai pob un ohonom sy'n aelodau o'r Gymdeithas Alawon Gwerin yn gallu canu chwarter cystal â fo, ac yn meddu ar chwarter yr wybodaeth sydd ganddo, byddem i gyd yn llawer iawn nes at gyrraedd y delfryd hwnnw.

Henffych Well, Frenin Canu Gwerin Cymru!





\* 1657518 \*

**Dyblygion**

Dyblygion

**Canu gwerin**

Canu gwerin :

**Folk song.**